
Ofcom

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**




# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Swyddfa Gyfathrebiadau

Am y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Swyddfa Gyfathrebiadau

## Am y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019

Ofcom yw rheoleiddiwr y DU ar gyfer y gwasanaethau cyfathrebu rydym yn eu defnyddio ac yn dibynnu arnynt bob dydd.

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau band eang a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo ar-alw, y post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Mae ein gwaith yn helpu defnyddwyr a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebu. Rydym yn sicrhau tegwch a diogelwch i ddefnyddwyr rhag arferion cyfrwys ac rydym yn mynd ati'n weithredol i gefnogi cystadleuaeth pan fo'n briodol i sicrhau canlyniadau da.

Mae Ofcom yn awdurdod cyhoeddus annibynnol, sy'n cael ei ariannu drwy ffioedd sy'n cael eu talu i ni gan y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio. Daw ein dyletswyddau o'r Senedd Brydeinig.

© Hawlfraint Ofcom 2019

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (nid yw hyn yn golygu'r Arfbais Frenhinol na logo unrhyw adran neu asiantaeth os ydynt yn bresennol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng gyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai Ofcom sy'n berchen ar hawlfraint y deunyddiau a rhaid rhoi teitl y ddogfen. Os oes deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid gofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn at ofcomcontactcentre@ofcom.org.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn:
www.gov.uk/government/publications

Ofcom ARA 2018-2019
ISBN 978-1-5286-1216-6
CCS0419980080

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Hobbs the Printers Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

## A_Adroddiad Perfformiad


5 Trosolwg
7 Neges y Cadeirydd
8 Adroddiad y Prif Weithredwr
11 Adolygu Perfformiad
43 Prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd
46 Gwaith yn y gwledydd a'n hymgysylltiad rhyngwladol
51 Sut rydym yn gweithio a chyda phwy rydym yn gweithio
56 Adolygiad Ariannol
63 Cyfrifoldeb corfforaethol
65 Adroddiad cynaliadwyedd


## B_Adroddiad Atebolrwydd


69 Adroddiad y Cyfarwyddwyr
73 Datganiad Llywodraethu Corfforaethol
88 Ein gweithwyr
92 Adroddiad taliadau
99 Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd


## C_Datganiad Ariannol


103 Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
104 Datganiad am y sefyllfa ariannol
105 Datganiad am newidiadau mewn ecwiti
106 Datganiad am y llifoedd arian parod
107 Nodiadau i'r cyfrifon


## D_Atodiadau


141 Byrddau, Paneli a Phwyllgorau Ofcom
144 Datganiadau rheoleiddio
148 Rhaglen ymchwiliadau
149 Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu
153 Adran 400
154 Gorfodi a pheirianneg sbectrwm
155 Trwyddedu sbectrwm
160 Cynaliadwyedd
164 Clirio 700 MHz




# Adroddiad Perfformiad


5 Trosolwg

7 Neges y Cadeirydd

8 Adroddiad y Prif Weithredwr

11 Adolygu Perfformiad

43 Prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd

46 Gwaith yn y gwledydd a'n hymgysylltiad rhyngwladol

51 Sut rydym yn gweithio a chyda phwy rydym yn gweithio

56 Adolygiad Ariannol

63 Cyfrifoldeb corfforaethol

65 Adroddiad cynaliadwyedd

# Beth sydd yn yr adran hon

Mae'r adran hon yn rhoi golwg gyffredinol o'r Swyddfa Gyfathrebiadau, sut rydym wedi ein trefnu i gyflawni ein dyletswyddau a sut hwyl rydym wedi'i chael arni o ran ein hamcanion strategol sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwaith Blynyddol.

# Trosolwg

## Gwybodaeth am Ofcom

Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y gwasanaethau cyfathrebu rydym yn eu defnyddio ac yn dibynnu arnynt bob dydd.

Rydym yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y gorau o'u band eang, eu ffôn cartref a'u gwasanaethau symudol, yn ogystal â gofalu am deledu a radio.

Rydym hefyd yn goruchwylio'r gwasanaeth post cyffredinol, sy'n golygu bod rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon a chasglu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos, a pharseli bum diwrnod yr wythnos, am bris fforddiadwy ac unffurf ar draws y DU.

Rydym yn gofalu am y tonnau awyr sy'n cael eu defnyddio gan ddyfeisiau di-wifr fel ffonau symudol a di-wifr, dyfeisiau tabled, meicroffonau, dyfeisiau GPS a hyd yn oed rhai allweddi car a chlychau drws.

Rydym hefyd yn helpu i wneud yn siŵr nad yw pobl yn cael eu twyllo a'u bod yn cael eu gwarchod rhag arferion drwg. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer pobl hŷn neu bobl agored i niwed.

Daw ein dyletswyddau o'r Senedd Brydeinig. Ein blaenoriaeth ydy cyflawni canlyniadau da i ddefnyddwyr, lle gall defnyddwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac rydym yn cyflawni hyn drwy roi gwybodaeth i chi a hyrwyddo cystadleuaeth ymysg y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio.

Rydym yn darparu cyngor a gwybodaeth i filoedd o bobl bob blwyddyn, drwy ein gwefan a'n canolfan alwadau. Rydym yn cofrestru cwynion gan bobl a gan fusnesau. Mae hyn yn ein helpu i gymryd camau yn erbyn cwmnïau pan fyddant yn siomi eu cwsmeriaid.

Nid yw'r Senedd Brydeinig wedi rhoi pwerau i ni i ddatrys cwynion unigolion am eu band eang, eu ffôn cartref na'u ffôn symudol. Yn hytrach, gall y rhain gael eu hystyried gan wasanaethau 'datrys anghydfod' eraill.

Rydym hefyd yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl ledled y DU yn cael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol ar deledu a radio, a bod rhaglenni'n adlewyrchu'r cynulleidfaoedd y maen nhw'n eu gwasanaethu. Rydym yn ystyried pob cwyn a gawn gan wylwyr a gwrandawyr. Yn aml, byddwn ni'n ymchwilio ymhellach i achosion o dorri ein rheolau.


Rydym yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio ac yn cael ein hariannu drwy ffioedd sy'n cael eu talu i ni gan y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio.[1]

## Ein pwerau a'n dyletswyddau

### Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol.[1] Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr.

[1] Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau yr Economi Ddigidol 2010 a 2017 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.



### Ein dyletswyddau cyfreithiol sy'n tywys cyfeiriad ein gwaith

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:

- sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
- sicrhau bod y sbectrwm radio yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o ansawdd uchel yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu; a
- sicrhau bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond ni allwn ddatrys cwynion defnyddwyr unigol am wasanaethau post neu delegyfathrebiadau. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr ydym wedi'u cymeradwyo. Ond rydym yn delio â chwynion gan unigolion am wasanaethau teledu a radio.

## Ein gwerthoedd

Er mwyn ein helpu gyda'n gwaith yn hyrwyddo dewis, sicrhau safon ac atal niwed, mae angen i ni wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer yr holl ddefnyddwyr a dinasyddion yn y DU. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i bob rhan o'n sefydliad fod yn amrywiol a meithrin diwylliant cynhwysol. Rydym yn ceisio cyflawni hyn drwy fabwysiadu ein gwerthoedd::

- Rhagoriaeth
- Cydweithio
- Ystwythder
- Grymuso

# Neges y Cadeirydd



## Yr Arglwydd Burns, GCB

Mae dod yn Gadeirydd Ofcom wedi atgyfnerthu fy marn ynghylch i ba raddau y mae pobl a busnesau yn dibynnu ar y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom.

Byddai nifer ohonom yn ei chael hi'n anodd gweithredu mewn cymdeithas fodern heb fynediad at wasanaethau band eang a ffôn dibynadwy. Mae'n rhaid i'r cwmnïau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn drin pobl a chwsmeriaid busnes yn deg, gan ddarparu lefelau gwasanaeth da.

Gwaith Ofcom yw dal cwmnïau i gyfrif, codi safonau i gwsmeriaid ar yr un pryd â chydnabod y cwmnïau sy'n gwneud gwaith da.

Rydym wedi gweld cynnydd ardderchog yn ystod y flwyddyn. Roedd hi'n galonogol iawn bod y rhan fwyaf o gwsmeriaid nawr yn cael iawndal yn awtomatig os bydd eu band eang neu eu ffôn cartref yn stopio gweithio, neu os bydd eu darparwr yn eu siomi, ac mae hynny o ganlyniad i ymyriad gan Ofcom.

Cafodd cwsmeriaid hŷn a mwy agored i niwed eu helpu yn ystod y flwyddyn hefyd. Roeddem wedi gostwng cost ffonio gwasanaethau ymholiadau rhifau ffôn 118 yn sylweddol iawn, ac wedi sicrhau bod BT yn lleihau rhent llinell cwsmeriaid sydd ond yn defnyddio llinell dir. Mae miliynau o bobl yn well eu byd nawr o ganlyniad i hynny.

Mae hi'n hanfodol bod pobl a busnesau ar draws y wlad yn elwa o'r cyfleoedd sydd ar gael drwy wasanaethau cyfathrebu, dim ots ble maen nhw'n byw a dim ots beth yw eu hamgylchiadau personol.

Rydym wedi gweithio i weithredu gwarant newydd y Llywodraeth ar gyfer band eang teilwng – y 'gwasanaeth cyffredinol'. Ac rydym wedi cyhoeddi cynlluniau ar sut i arwerthu'r tonnau awyr newydd ar gyfer ffonau symudol mewn ffordd sy'n golygu y bydd nifer o bobl, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig, yn elwa o signal gwell. Mae disgwyl y bydd arwerthiant y sbectrwm yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf.

Mae darlledu yn faes pwysig arall lle'r ydym eisiau sicrhau safonau uchel. Dyma ail flwyddyn Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, sefydliad cenedlaethol gwerthfawr. At ei gilydd mae cynulleidfaoedd yn dweud wrthym fod y BBC yn gwneud gwaith da. Gobeithio bod adroddiad blynyddol cyntaf Ofcom ar y BBC, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, wedi helpu i roi gwybod i'r Gorfforaeth lle y gallai ddarparu gwasanaeth hyd yn oed yn well i'r cyhoedd.

Ym mis Mehefin, fe wnaethom ni gyhoeddi y byddai ein Prif Weithredwr, Sharon White yn rhoi'r gorau iddi. Mae Sharon wedi bod yn Prif Weithredwr rhagorol a bydd pawb yn gweld ei cholli. Mae'n gadael Ofcom fel rheoleiddiwr sydd â ffocws pendant ar fudd y defnyddiwr. Mae'r Bwrdd wedi dechrau'r broses o benodi olynydd.

Roeddwn yn falch o allu croesawu aelodau newydd ar Fwrdd Ofcom yn ystod y flwyddyn, ac maen nhw eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at ein gwaith i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Penodwyd Maggie Carver yn Ddirprwy Gadeirydd ac mae'n aelod o Bwyllgor Taliadau ac Enwebiadau Ofcom. Mae gan Maggie brofiad o sectorau perthnasol o fod yn gyfarwyddwr anweithredol yn ITN, Channel 5 a Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, ymysg eraill.

Penodwyd Dr Angela Dean ar y Bwrdd hefyd. Mae hi wedi bod yn ddadansoddwr ariannol ar gyfer cwmnïau cyfathrebiadau a thechnoleg Ewropeaidd ers bron i 20 mlynedd. Roedd hi'n arfer bod yn Rheolwr Gyfarwyddwr y banc buddsoddi Morgan Stanley. Mae'n cadeirio Pwyllgor Risg ac Archwilio Ofcom ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Enwebiadau.

Ym mis Ebrill 2019 penodwyd David Jones yn Aelod Bwrdd cyntaf Ofcom dros Gymru. Mae profiad David o gyfathrebiadau digidol a seiberddiogelwch wedi bod yn werthfawr dros ben yn barod i waith y Bwrdd. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i Fwrdd Ofcom ystyried y meysydd sy'n gorgyffwrdd rhwng y byd ar-lein a'r meysydd mae Ofcom yn eu rheoleiddio.

Roeddem wedi ffarwelio â'r Aelodau Bwrdd Sheila Noakes, Nick Pollard a Steve Unger yn ystod y flwyddyn, ac rwyf yn hynod ddiolchgar am eu cyfraniadau i Ofcom.

# Adroddiad y Prif Weithredwr



## Sharon White, Prif Weithredwr

Cenhadaeth Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Mae hyn yn golygu rhoi buddiannau pobl a busnesau wrth galon popeth a wnawn.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd ein gwaith ei ddylunio i helpu i sicrhau bod pawb yn cael y gorau o'u band eang, eu gwasanaeth symudol, eu teledu a'u radio – ble bynnag y bo nhw'n byw ac yn gweithio.

## Tegwch i gwsmeriaid

Canolbwynt mawr i'n gwaith oedd sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg a'u bod yn gallu deall pa gynnyrch a gwasanaethau sydd orau ar gyfer eu hanghenion nhw.

Roeddem wedi gweithio gyda chwmnïau i sicrhau, o 1 Ebrill 2019 ymlaen, y bydd cwsmeriaid band eang a llinell dir yn cael arian yn ôl gan eu darparwyr pan fydd pethau'n mynd o chwith – heb orfod brwydro dros hynny.

Gallai'r newidiadau olygu cyfanswm o hyd at £142m o daliadau i ddefnyddwyr bob blwyddyn. Mae hynny naw gwaith yn fwy na'r hyn a oedd yn cael ei dalu o'r blaen. Bydd yn gymhelliant mawr i gwmnïau wneud pethau'n iawn y tro cyntaf. Mae cwsmeriaid BT, Sky, TalkTalk, Virgin Media a Zen Internet nawr yn elwa o'r cynllun, a bydd Hyperoptic a Vodafone yn ymuno yn nes ymlaen eleni. Gyda'i gilydd, y cwmnïau sydd â chyfrif penodol ar gyfer dros 95% o gwsmeriaid band eang a llinell dir y DU.

Mae camu i mewn i ddiogelu pobl rhag niwed hefyd wedi bod yn flaenoriaeth i Ofcom, yn enwedig pan welwn ni godiadau amlwg mewn prisiau. O fis Ebrill 2018 ymlaen, roedd biliau ffôn misol dros filiwn o gwsmeriaid BT sydd â ffôn llinell dir a heb fand eang wedi disgyn £7 – gan arbed £84 y flwyddyn – yn dilyn ein hymyriad.

Roeddem wedi cyflwyno cap pris ar rifau ymholiadau rhifau ffôn 118, sy'n cael eu defnyddio gan bobl hŷn yn benodol, a oedd yn golygu na chaiff cwmni godi mwy na £3.65 fesul 90 eiliad. Mae hyn wedi torri costau nifer o alwadau'n sylweddol ac mae'n dod â nhw'n ôl i lefelau 2012.

Er bod y rhan fwyaf o gwsmeriaid yn cael gwerth da am arian, rydym yn poeni bod rhai yn talu mwy nag eraill am eu gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi dechrau adolygu faint mae cwsmeriaid symudol yn ei dalu ar ôl i dymor sylfaenol eu contract ddod i ben ac, ym mis Rhagfyr, roeddem wedi cyhoeddi cynlluniau i adolygu arferion prisio cwmnïau band eang. Rydym yn bryderus bod rhai cwsmeriaid yn talu mwy nag eraill am wasanaethau tebyg neu waeth, yn enwedig pan fydd cynigion cychwynnol wedi dod i ben. Os byddwn yn dod o hyd i dystiolaeth o niwed, byddwn yn gweithredu i ddiogelu defnyddwyr – yn enwedig y rheini a allai gael trafferth ymgysylltu â'r farchnad.

Roeddem hefyd wedi llunio fersiynau terfynol ein cynlluniau i helpu cwsmeriaid ffonau symudol i newid darparwr yn haws. O 1 Gorffennaf 2019 ymlaen bydd cwsmeriaid yn gallu newid darparwr heb orfod siarad â'u darparwr presennol, dim ond drwy anfon neges destun am ddim. Mae'r rheolau hefyd yn cynnwys gwahardd darparwyr rhag codi am gyfnodau rhybudd ar ôl i'r cwsmer adael, a ddylai arbed tua £10m y flwyddyn i gwsmeriaid ffonau symudol yn y DU.

Mae darparu gwybodaeth well i gwsmeriaid yn hollbwysig i'w helpu i gael y fargen orau. Roeddem wedi cadarnhau cynlluniau sy'n golygu y bydd yn rhaid i gwsmeriaid band eang, ffôn a theledu gael gwybod pan fydd eu contract ar fin dod i ben, a chael gwybod am y

bargeinion gorau sydd ar gael, o fis Chwefror 2020 ymlaen.

Ac os na fydd cwsmeriaid band eang yn cael y cyflymder a gafodd ei addo iddynt, bydd ein Cod Ymarfer newydd, a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2019, yn golygu bod cwsmeriaid yn gallu gadael eu contract heb gosb.

## Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi

Un flaenoriaeth fawr i Ofcom yw gwneud yn siŵr bod pawb, ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn gallu cael darpariaeth symudol a band eang deilwng. Mae cysylltiadau o ansawdd uchel yn bwysicach nag erioed o'r blaen i bobl ac i fusnesau.

Roeddem wedi ymgynghori ynghylch cynlluniau i werthu rhagor o sbectrwm – y tonnau awyr sy'n gwneud i'n ffonau symudol weithio – er mwyn diwallu'r cynnydd yn y galw am wasanaethau symudol ac er mwyn braenaru'r tir ar gyfer 5G, y genhedlaeth nesaf o wasanaethau symudol. Roeddem hefyd wedi cynghori'r Llywodraeth ynghylch sut mae cyflawni darpariaeth symudol gyffredinol, a fyddai'n galw am gyllid cyhoeddus.

Roeddem wedi cymryd camau breision ymlaen o ran gweithredu cynllun y Llywodraeth i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at fand eang teilwng. O'r flwyddyn nesaf ymlaen, bydd pobl yn cael yr hawl i ofyn am gysylltiad band eang 10 Mbit yr eiliad, a fydd yn helpu'r 2% o eiddo nad ydynt yn cael y cyflymder yma ar hyn o bryd.

Roedd ein gwaith i hybu buddsoddiad mewn rhagor o rwydweithiau gwibgyswllt dibynadwy wedi golygu ei fod bellach ar gael i 53% o eiddo, ac mae 7% o gartrefi a swyddfeydd yn gallu cael band eang 'ffeibr-llawn', sydd wedi codi o 4%. Mae'r mwyafrif helaeth o gartrefi (95%) nawr yn gallu cael gafael ar fand eang cyflym iawn, sy'n cynnig cyflymder o 30Mbit yr eiliad a mwy.

Mae gan nifer o gwmnïau gynlluniau i fuddsoddi'n sylweddol mewn band eang gwibgyswllt, fel Virgin Media, CityFibre a Vodafone, Openreach, Gigaclear, Hyperoptic, KCOM a TalkTalk.

Mae'r cwmnïau'n amlwg yn ddigon hyderus i fuddsoddi, yn dilyn gwahanu Openreach yn gyfreithiol oddi wrth BT a gwblhawyd ym mis Hydref 2018. Mae mwy o annibyniaeth i Openreach yn helpu i ddarparu eglurder a hyder i gwmnïau eraill, i fuddsoddwyr ac i'r sector ehangach.

## Sicrhau'r gwasanaeth post cyffredinol

Rydym yn rheoleiddiwr y gwasanaethau post a'n nod yw sicrhau bod pobl yn elwa o wasanaeth post cyffredinol, sy'n darparu gwasanaethau da am brisiau fforddiadwy. Rydym yn monitro iechyd y gwasanaeth cyffredinol yn ofalus ac mae'n bwysig bod y Post Brenhinol yn gallu ymateb i newidiadau yn amodau'r farchnad. Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi gorffen adolygu cap diogelu ar stampiau Ail Ddosbarth i sicrhau eu bod yn dal yn fforddiadwy, ar yr un pryd â rhoi hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol..

## Cefnogi'r cyfryngau a darlledu yn y DU

Roedd hi'n flwyddyn brysur mewn darlledu. Daeth ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y BBC i'r casgliad bod y Gorfforaeth yn cyflawni ei chylch gwaith yn gyffredinol, ond tynnodd sylw at bedwar maes y dylid canolbwyntio arnynt: bod yn fwy tryloyw ac atebol; gwneud rhaglenni sy'n unigryw i'r DU; denu cynulleidfaoedd iau; a chynrychioli a phortreadu cymdeithas y DU yn ei chyfanrwydd..

Un o ddyletswyddau Ofcom yw adolygu effaith cynlluniau'r BBC ar y cwmnïau sy'n cystadlu yn y farchnad cyfryngau. Roeddem wedi cwblhau adolygiad o'r sianel BBC Scotland, ac rydym yn asesu cynlluniau'r BBC i newid yr iPlayer a'r cyfle i greu gwasanaeth ffrydio newydd gydag ITV. Rydym yn gweithio mewn nifer o feysydd i gefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael gwasanaeth da.

Roeddem wedi addasu canllawiau i helpu i hyrwyddo cynhyrchu rhaglenni teledu yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU, er mwyn i fanteision economaidd a diwylliannol teledu gael eu rhannu ar draws y wlad.

Roeddem wedi gofyn i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddweud wrthym sut byddant yn denu cynulleidfaoedd iau yn wyneb cystadleuaeth gan gwmnïau fel YouTube. Roeddem hefyd wedi cynghori'r Llywodraeth ynghylch sut gellid newid deddfwriaeth i'w gwneud hi'n haws dod o hyd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau digidol.

Roeddem hefyd wedi parhau â'n gwaith pwysig ar wella amrywiaeth mewn darlledu. Roedd ein hail adroddiad ar gyfansoddiad y diwydiant teledu wedi dod i'r casgliad bod darlledwyr yn y DU yn casglu mwy o wybodaeth am eu gweithluoedd nag erioed o'r blaen. Mae hyn yn gam ymlaen i ddeall a rhoi sylw i dangynrychiolaeth ar draws y diwydiant. Ond nid da lle gellir gwell, felly mae'n dal yn ffocws mawr i Ofcom – yn yr un modd â'n hamrywiaeth ein hunain – ac mae'n flaenoriaeth bersonol i mi.

## Ar-lein

Mae Ofcom yn bodoli i ddiogelu cynulleidfaoedd rhaglenni teledu, radio ac ar-alw, ac mae mwy a mwy o'r cynulleidfaoedd hynny'n symud ar-lein.

Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi helpu i roi gwybodaeth i bobl am fanteision a pheryglon cyfathrebu digidol fel rhan o'n dyletswyddau i hybu llythrennedd yn y cyfryngau. Cafodd ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau ei lansio eleni, a'i nod yw helpu i godi ymwybyddiaeth o niwed ar-lein drwy ein hymchwil ymysg defnyddwyr.

Mae'r dystiolaeth hon yn gallu helpu i roi gwybodaeth i'r Llywodraeth a llunwyr polisïau eraill sy'n ystyried cynlluniau i reoleiddio mathau penodol o niwed ar y rhyngrwyd. Roeddem hefyd wedi cyfrannu at y ddadl honno drwy bapur trafod a oedd yn defnyddio ein profiad fel rheoleiddiwr safonau darlledu i ddiogelu cynulleidfaoedd. Rydym yn disgwyl am benderfyniadau'r Llywodraeth ynghylch hyn a byddwn yn darparu unrhyw gefnogaeth angenrheidiol.

## Pobl Ofcom

Mae arnaf eisiau diolch i gydweithwyr Ofcom am eu gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein rhaglen newid, O Nerth i Nerth, yn helpu i wreiddio gwerthoedd Ofcom sef cydweithio, rhagoriaeth, ystwyther a grymuso er mwyn i ni allu cyflawni'n effeithiol ar ran defnyddwyr.

Ar ôl bron i bum mlynedd, byddaf yn rhoi'r gorau i fod yn Brif Weithredwr ac yn ymuno â Phartneriaeth John Lewis ar ddechrau'r flwyddyn. Mae arwain Ofcom wedi bod yn fraint anhygoel, ac rwy'n ffyddiog y bydd y sefydliad yn parhau i ffynnu, diolch i allu ac ymroddiad ei bobl.

# Adolygu Perfformiad

## Y cynnydd sydd wedi'i wneud yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol

Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Blynyddol bob mis Mawrth. Mae hwn yn nodi'r gwaith rydym yn bwriadu ei gyflawni dros y flwyddyn nesaf i gyflawni ein diben sef sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb, ar draws y DU a'i gwledydd. Mae'r Cynllun Blynyddol hefyd yn amlinellu ein gwaith ehangach i gefnogi ein nodau strategol.

Dyma oedd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19:

- gweithio gyda'r diwydiant i gefnogi buddsoddi mewn seilwaith uwch sy'n cystadlu. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddi ar y cyd, a buddsoddiad ychwanegol gan Openreach o ganlyniad i reoleiddio a gwahanu cyfreithiol. Monitro ac adrodd ar y cynnydd ar y trefniadau i wahanu Openreach a BT yn gyfreithiol;
- cwblhau'r broses o ymgorffori ein cyfrifoldebau newydd ar gyfer rheoleiddio'r BBC, gan gynnwys Adolygiad Blynyddol cyntaf ar y BBC, asesiad cystadleuaeth cyntaf o gynigion y BBC ar gyfer gwasanaeth teledu i'r Alban, ac adolygiad thematig cyntaf o'r BBC;
- paratoi ar gyfer dyfarniadau sbectrwm yn y dyfodol wrth iddynt gael eu clirio a'u rhyddhau, er mwyn helpu i gwrdd â'r galw cynyddol am gapasiti ac wrth baratoi ar gyfer gwasanaethau 5G newydd;
- ymestyn argaeledd gwasanaethau, yn benodol drwy ddechrau gweithredu rhwymedigaethau gwasanaethau band eang cyffredinol a chyflwyno rhwymedigaethau darpariaeth newydd ar gyfer sbectrwm symudol.

Mae'r adran hon yn nodi'r hyn rydym wedi'i gyflawni yn ystod 2018/19 i gyflawni'r meysydd blaenoriaeth hyn, a'r hyn maen nhw'n ei olygu i bobl ac i fusnesau.

## Adeiladu dyfodol ffeibr-llawn

**Rydym mewn chwyldro cyfathrebu. Mae pobl yn dibynnu ar ffonau clyfar, band eang a radio ar y rhyngrwyd, ac mae band eang cyflym yn hanfodol ar gyfer busnes, bancio, siopa, adloniant a chymdeithasu.**


### Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae angen mwy o gapasiti band eang ar gartrefi ac ar fusnesau bob blwyddyn ac mae disgwyliadau pobl o ran ansawdd eu gwasanaeth yn uwch. Mae'n ymddangos bod y tueddiadau hyn yn parhau.

Band eang 'ffeibr-llawn' yw'r dyfodol: rhwydweithiau ffeibr optig gwibgyswllt sy'n cynnig cyflymder sydd hyd at 30 gwaith yn gyflymach na'r cyfartaledd ar hyn o bryd. Mae'n golygu mwy na chyflymder. Mae ffeibr-llawn yn well ac yn fwy dibynadwy o lawer na rhwydweithiau copr oes Fictoria'r DU.




Mae ffeibr-llawn yn cynnig amrywiaeth o fanteision:



CYFLYM

cyflymder o gigabeit yr eiliad neu fwy



DIBYNADWY

pum gwaith yn llai o namau na chysylltiadau copr




PERFFORMIAD

mae'r cyflymder go iawn yn agosach o lawer at y cyflymder sy'n cael ei hysbysebu

### Yr hyn mae Ofcom wedi'i wneud

Bydd galluogi cystadleuaeth yn helpu i ysgogi buddsoddiad mewn telegyfathrebiadau. Bydd pwysau cystadleuol yn gwthio BT naill ai i uwchraddio ei rwydwaith, neu i weld cwmnïau sy'n cystadlu ag ef yn cael mantais.

Rôl Ofcom yw creu'r amodau cystadleuol iawn er mwyn i gwmnïau fuddsoddi. Roedd ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebu Digidol yn 2016 yn cynnwys cynlluniau i hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr-llawn, a chreu Openreach sy'n fwy annibynnol, braich rhwydwaith BT.



## _ Roedd ein hadolygiad yn cryfhau'r rheolau i fynnu bod BT yn cynnig ei dwneli tanddaearol a'i bolion telegraff er mwyn i weithredwyr eraill allu gosod eu rhwydweithiau ffeibr eu hunain.

Yn dilyn datganiad ym mis Mawrth 2018, roeddem wedi rhoi rheolau newydd ar waith. Roedd y rheolau'n deillio o'n hadolygiad o'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol (WLA), a oedd yn amlinellu ffyrdd o ddiogelu cymhellion buddsoddi i Openreach ac i adeiladwyr rhwydweithiau eraill.

Roedd yr adolygiad yn edrych ar y cysylltiadau o'r gyfnewidfa ffôn leol i gartrefi ac i fusnesau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu band eang a gwasanaethau eraill ar lefel adwerthu. Roedd yn cyflwyno rheolaeth prisiau cyfanwerthol a reoleiddir ar gyfer cynnyrch mwyaf poblogaidd Openreach sef band eang cyflym iawn 40 Mbit yr eiliad. Mae hyn yn golygu bod cwmnïau'n gallu cynnig gwasanaeth cyflym iawn fforddiadwy ar gyfradd gystadleuol, gan helpu i greu sylfaen adwerthu sy'n barod i fudo i rwydweithiau ffeibr-llawn sy'n cystadlu ar ôl iddynt gael eu hadeiladu.

Yn bwysig, roeddem wedi cadw'r hyblygrwydd i Openreach osod prisiau ar gyfer ei gynnyrch band eang cyflym iawn cyfanwerthol cyflymaf, gan gynnwys ffeibr-llawn.

Roedd ein hadolygiad hefyd yn cryfhau'r rheolau i fynnu bod BT yn cynnig ei dwneli tanddaearol a'i bolion telegraff er mwyn i weithredwyr eraill allu gosod eu rhwydweithiau ffeibr eu hunain. Enw'r broses hon yw 'mynediad i bolion a phibellau' (DPA). Mae BT yn berchen ar rwydwaith eang o'r pibellau hyn ledled y wlad ac mae tua 90% ohonynt â lle i osod ceblau ffeibr optig newydd.

Bydd hyn yn helpu i drawsnewid economeg buddsoddi mewn ffeibr-llawn, a fydd yn ei gwneud hi'n gyflymach, yn haws ac yn rhatach i gystadleuwyr BT gyflwyno'r gwasanaeth. Rydym yn credu y gallai haneru cost cychwynnol adeiladu rhwydwaith ffeibr ac mae'r gystadleuaeth sydd wedi deillio o hynny eisoes wedi helpu i uwchraddio'r rhwydweithiau yn Sbaen a Phortiwgal yn sylweddol.

Dechreuodd y broses i wahanu Openreach yn gyfreithiol ym mis Mawrth 2017 a daeth i ben ym mis Hydref 2018. Drwy reoli ei rwydwaith yn annibynnol, bydd Openreach yn helpu i ddarparu eglurder a hyder i gwmnïau eraill, i fuddsoddwyr ac i'r sector ehangach.

Y llynedd roeddem wedi sefydlu Uned Monitro Openreach (OMU) arbennig i helpu i asesu a yw Openreach yn gweithredu'n fwy annibynnol ar BT, yn gwneud ei benderfyniadau ei hun, ac yn trin ei holl gwsmeriaid yn deg.

Roedd adroddiad interim ym mis Tachwedd 2018 wedi dangos ein bod yn fodlon â'r cynnydd yn gyffredinol. Ond bydd angen amser i'r newidiadau wreiddio, a bydd angen ymrwymiad parhaus gan Openreach a BT. Roeddem wedi ymgysylltu'n agos â BT, Openreach a'r diwydiant i asesu'r cynnydd pellach drwy gydol gweddill y flwyddyn. Ym mis Mehefin 2019 rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad cydymffurfiad llawn a fydd yn berthnasol i'r cyfnod o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019. Mae gwaith Uned Monitro Openreach hefyd yn bwydo i waith ehangach Ofcom er mwyn asesu a ydy'r trefniadau newydd yn cyflawni'r canlyniadau iawn i fusnesau ac i ddefnyddwyr.

Gan adeiladu ar ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol, ym mis Gorffennaf 2018 roeddem wedi nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cefnogi buddsoddiad mewn ffeibr-llawn yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys:

- cynlluniau i edrych ar farchnadoedd busnes a phreswyl drwy un adolygiad i'w gynnal erbyn mis Ebrill 2021. Bydd hyn yn disodli adolygiadau gwahanol blaenorol a oedd yn cynnwys yr WLA;
- newid i ddefnyddio dulliau rheoleiddio gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r wlad;
- ymestyn hyd rheoleiddio o dair i bum mlynedd neu fwy, er mwyn helpu i roi sicrwydd mwy hirdymor i fuddsoddwyr;
- cadarnhad bod Ofcom yn bwriadu parhau i ddilyn yr egwyddor 'menter deg' ar gyfer buddsoddiadau Openreach mewn ffeibr-llawn. Mae'r egwyddor honno'n cydnabod bod angen i gwmnïau wneud elw teg ar fuddsoddiadau hirdymor sydd â risgiau; a
- rheoli trosglwyddo'n ddidrafferth o'r hen rwydweithiau copr i dechnoleg ffeibr.


Yn yr un modd â'n hasesiad ein hunain, canfu Adolygiad y Llywodraeth o Seilwaith Telegyfathrebiadau'r Dyfodol mai cystadleuaeth yw'r ffordd orau o hybu buddsoddiad. Bydd ein cynlluniau'n gymorth i gefnogi uchelgais y Llywodraeth i 15 miliwn o gartrefi gael mynediad at fand eang ffeibr-llawn erbyn 2025.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth ar y ffordd orau o sicrhau bod rhwydweithiau digidol y DU yn addas ar gyfer y dyfodol. Ym mis Ebrill 2018, roedd Ofcom a'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi cynnal cynhadledd ar y cyd gyda nifer o arweinwyr a buddsoddwyr o'r diwygiant i drafod heriau a chyfleoedd adeiladu dyfodol ffeibr-llawn yn y DU.

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

Mae gan nifer o ddarparwyr cyfathrebiadau nawr gynlluniau i fuddsoddi'n sylweddol mewn band eang gwibgyswllt: Mae'r rhain yn cynnwys Virgin Media, CityFibre mewn partneriaeth â Vodafone, Openreach, Gigaclear, Hyperoptic, KCOM a TalkTalk.

Dros y ddwy flynedd nesaf, mae'r darparwyr hyn yn gobeithio cynyddu nifer y cartrefi a busnesau sy'n gallu elwa o ffeibr-llawn o 1.8 miliwn heddiw i 6 miliwn. Mae hynny'n un rhan o bump o'r cartrefi a busnesau ar draws y DU.



Er gwaethaf y momentwm cynnar addawol hwn, gyda ffeibr-llawn ar gael i 20% byddai'r DU yn dal i fod ymhell y tu ôl i wledydd eraill. Mae angen gwneud mwy i gyflawni ein huchelgais tymor hir o sicrhau darpariaeth ar draws y wlad.

Mae Ofcom yn gweithio'n galed i sicrhau bod economeg ffeibr yn ddeniadol. Mae rhoi mynediad i dwneli a pholion yn gallu lleihau'r gost o gyflwyno rhwydweithiau ffeibr-llawn yn sylweddol. Mae treialon graddfa wedi dechrau. Mae Sbaen a Phortiwgal wedi defnyddio'r dull gweithredu hwn yn effeithiol, ac mae fersiwn o roi mynediad i dwneli a pholion wedi helpu i gyflawni darpariaeth ffeibr-llawn o 79% a 70% yn y drefn honno.

Ochr yn ochr â'r cynlluniau hyn, mae diwygio Openreach yn sylweddol yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Rydym eisoes wedi gweld Openreach yn cymryd camau calonogol i weithredu er budd ei holl gwsmeriaid, gan gynnwys ymgynghoriad ar draws y diwydiant ar sut i wneud band eang ffeibr-llawn yn ymarferol ar raddfa fawr, gan ystyried cyfleoedd i fuddsoddi ar y cyd a rhannu risgiau. Rydym eisiau gweld yr ymateb i geisiadau gan gystadleuwyr i ddefnyddio pibellau a pholion Openreach ar gyfer cyflwyno ffeibr.

Hefyd, fis Gorffennaf diwethaf dechreuodd Openreach gynnig disgowntiau am symiau penodol ar gyfraddau cyfanwerthu i gystadleuwyr sy'n barod i ymrwymo i ddefnyddio gwasanaethau ffeibr cyflymach. Dylai hyn helpu i adeiladu graddfa a'r diddordeb mewn cynnyrch cyflymach.

Rydym nawr hefyd yn edrych ymlaen at sut gall ein gwaith rheoleiddio gefnogi buddsoddiad tymor hir. Erbyn mis Ebrill 2021, rydym yn bwriadu cael dull newydd o reoleiddio, a fydd yn berthnasol i fynediad cyfanwerthol at rwydweithiau band eang, sy'n amrywio yn ôl ardal ddaearyddol. Bydd y rheoleiddio newydd hyn ar waith am bum mlynedd o leiaf, gan ddarparu sicrwydd tymor hirach i ddarparwyr. Byddwn yn cynnal cyfres o ymgyngoriadau yn y cyfnod hyd at fis Ebrill 2021, gan barhau â phroses a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2018.

_ Rydym eisoes wedi gweld Openreach yn cymryd camau i weithredu er budd ei holl gwsmeriaid

## Adolygu Cost Galwadau

**Mae pobl wedi bod yn gwario llai ar alwadau ffonau symudol a ffonau cartref dros y blynyddoedd diwethaf, ac ar y cyfan mae dewis eang o becynnau galwadau a gwasanaethau ffôn ar gael i gwsmeriaid.**

**Fodd bynnag, roeddem yn poeni am gostau cynyddol ffonio rhai rhifau gwasanaeth ffôn. Roedd y rhain yn cynnwys rhifau ymholiadau rhifau ffôn, sy'n dechrau gydag 118; a rhifau sy'n dechrau gyda 070.**

### Yr effaith ar ddefnyddwyr

Roedd y farchnad ymholiadau rhifau ffôn yn arfer cael ei rhedeg yn llwyr gan BT, ond yn 2003 cafodd ei hagor i gystadleuaeth a chafodd gwasanaethau 118 gwahanol eu lansio a oedd yn cystadlu â'i gilydd. Tyfodd y farchnad i dros 400 o wasanaethau a oedd yn cynnig amrywiaeth o opsiynau a phrisiau, gyda chostau galwadau'n amrywio o 35c yr alwad i £9 a mwy.

Cafodd rhifau 070 eu cyflwyno yn 1995. Maen nhw wedi cael eu dylunio ar gyfer gwasanaethau 'personol' neu 'dilynwch fi'. Mae hyn yn golygu bod modd ailgyfeirio galwadau o un rhif ffôn i un arall, er mwyn i rywun allu cadw ei rif ffôn ei hun yn breifat ond bod modd cysylltu â nhw ar unrhyw ffôn mewn unrhyw le. Mae busnesau bach a masnachwyr unigol yn aml yn eu defnyddio.

Fodd bynnag, roeddem yn poeni y gellid drysu rhwng rhifau 070 a rhifau ffôn symudol, gan fod y rheini hefyd yn dechrau â '07'. Roedd tystiolaeth hefyd o sgamiau sy'n ceisio gwneud i ddefnyddwyr gredu eu bod yn galw rhif ffôn symudol. Pan roedd pobl yn ffonio'r rhif 070 yn ôl, roedden nhw mewn gwirionedd yn deialu gwasanaeth heb wybod am y gost.

## Yr hyn mae Ofcom wedi'i wneud

Oherwydd cost gynyddol ffonio'r rhifau gwasanaeth yma, lansiodd Ofcom Adolygiad o Gost Galwadau er mwyn sicrhau bod y prisiau'n dryloyw ac yn deg i ddefnyddwyr. Dechreuwyd yr adolygiad yn 2017 ac roedd yn ystyried hyd a lled y niwed a oedd yn cael ei achosi i ddefnyddwyr drwy gamymddwyn bwriadol neu fethiant yn y farchnad, a'r camau roedd angen eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

Roedd y dystiolaeth a gafodd ei choladu gennym mewn perthynas â rhifau '070' yn tynnu sylw at nifer o faterion.

- At ei gilydd nid yw defnyddwyr yn gwahaniaethu rhwng rhifau 070 a rhifau ffôn symudol. Mae hynny'n golygu bod cwsmeriaid, wrth ffonio rhifau 070, yn aml yn credu'n anghywir eu bod yn ffonio rhif ffôn symudol, ac felly'n talu'r ffi i ffonio rhif ffôn symudol, neu fod yr alwad wedi'i chynnwys yn eu bwndel galwadau, er nad yw hynny'n wir. Roedd darparwyr ffonau wedi codi prisiau adwerthu ar ddefnyddwyr, rhwng 45c a £1 y funud am ffonio'r rhifau hyn, a arweiniodd at 'sioc biliau' i ddefnyddwyr nad oeddent yn gwybod am gost yr alwad. **Roedd 2.6 miliwn o alwadau i rifau 070 y llynedd.**
- Roedd yr ystod rhifau 070 wedi bod yn destun mwy a mwy o dwyll. Daethom o hyd i dystiolaeth o sgamiau, fel galwadau a gollwyd a hysbysebion swyddi ffug. **Amcangyfrifir bod o leiaf 20% o alwadau 070 y llynedd wedi cynnwys rhyw fath o weithgarwch twyllodrus.**

Ar ôl casglu tystiolaeth o niwed, roeddem wedi cyhoeddi cynigion ym mis Rhagfyr 2017 a datganiad terfynol ym mis Hydref 2018.

Er mwyn helpu i ddiogelu pobl rhag twyll a chostau galwadau annisgwyl, roeddem wedi penderfynu rhoi cap ar y gost gyfanwerthol y caiff darparwyr gwasanaeth 070 ei chodi ar ddarparwyr ffonau i gysylltu galwadau 070 i'r defnyddiwr.


Roeddem wedi gwneud i'r cap gyd-fynd â'r cap presennol sydd wedi cael ei bennu gan Ofcom ar gyfer galwadau i rifau symudol – tua 0.5c y funud.

Mae hyn yn ostyngiad sylweddol ar ffioedd cysylltu cyfanwerthol blaenorol, a oedd yn gymaint â 39c y funud.

2013 oedd y tro diwethaf inni adolygu gwasanaethau ymholiadau rhifau ffôn (118) a dealltwriaeth defnyddwyr o'r prisiau ar gyfer y gwasanaethau hyn. Adeg honno, roeddem wedi penderfynu newid strwythur y prisiau adwerthu a mynnu bod darparwyr yn cyhoeddi eu prisiau pryd bynnag roeddent yn hysbysebu eu gwasanaethau.

Fodd bynnag, roedd adolygiad pellach yn 2017 wedi datgelu sawl maes a oedd yn peri pryder.

- Roedd prisiau wedi codi'n sylweddol ers 2013. Roedd pris y gwasanaeth mwyaf poblogaidd, 118 118, wedi codi fwy na phedair gwaith mewn termau real. Mae ffonio 118 118 am funud yn costio £8.98, ac roedd rhai darparwyr eraill wedi codi cymaint â £15.98 yr alwad.
- Roedd niferoedd y galwadau wedi gostwng tua 40% bob blwyddyn rhwng 2013 a 2017. Ond roedd 2% o oedolion y DU yn dal yn eu defnyddio yn y flwyddyn ddiwethaf, gan godi i 4% ymysg pobl dros 65 oed, sy'n golygu bod y gwasanaethau hyn yn dal yn bwysig i rai pobl.
- Roedd dealltwriaeth defnyddwyr o'r prisiau presennol am ffonio gwasanaethau ymholiadau rhifau ffôn yn wael iawn. Ar gyfartaledd, roedd defnyddwyr y gwasanaethau a'r rheini nad ydynt yn eu defnyddio yn rhoi amcangyfrif rhy isel o lawer o gost galwad sy'n para fymryn yn llai na munud.
- Roedd ychydig o dan 40% o ddefnyddwyr wedi cael biliau annisgwyl o uchel mewn perthynas ag o leiaf un alwad ymholiadau rhifau ffôn yn ystod y 12 mis blaenorol.



Ac ystyried lefelau'r prisiau, tryloywder gwael o ran y prisiau a'r ffaith nad ydy pobl yn tueddu i chwilio am y fargen orau, ym mis Mehefin roeddem wedi ymgynghori ynghylch gosod cap ar y pris caiff darparwyr ei godi am wasanaethau ymholiadau rhifau ffôn.

Roedd ein datganiad ym mis Tachwedd yn rhoi cap o £3.65 fesul 90 eiliad ar y swm uchaf y byddai gwasanaeth ymholiadau rhifau ffôn yn cael ei godi. Daeth y cap prisiau i rym ar 1 Ebrill 2019. Mae hyn wedi torri costau nifer o alwadau'n sylweddol ac wedi dod â nhw'n ôl i lefelau 2012.

### Y canlyniadau a'r camau nesaf


O ganlyniad i'n gwaith, bydd defnyddwyr ffonau'n cael eu diogelu rhag ffioedd uchel am ffonio rhifau '070' a rhifau 118, gan osgoi sioc biliau a gwella hyder y cyhoedd yn yr ystodau rhifau hyn.

Mae'r cap ar rifau 070 yn cyfyngu ar y niwed posibl i bobl nad ydynt yn gwybod nad rhifau symudol ydy'r rhain, ac mae hefyd yn cael gwared â'r cymhelliant dros sgamio drwy dorri'r refeniw sydd ar gael drwy eu defnyddio'n sylweddol. Mae'r cap hefyd yn clirio'r ffordd i gwmnïau ffôn gynnwys rhifau 070 mewn lwfansau munudau am ddim, fel maen nhw'n ei wneud gyda galwadau i ffonau symudol ar hyn o bryd.

Roeddem wedi pennu cyfnod gweithredu o 12 mis (Hydref 2019) er mwyn rhoi cyfle i ddarparwyr rhifau 070 newid y ffordd maen nhw'n rhedeg eu busnesau a chydymffurfio â'r rheolau newydd.

Rydym yn parhau i fonitro a ydy defnyddwyr yn wynebu newid o ganlyniad i ddefnyddio ystodau penodol o rifau a byddwn yn camu i mewn pan fydd angen.

Canfu ein gwaith ymchwil:



## Ymgysylltiad defnyddwyr

**Mae nifer o bobl yn elwa o'r ystod eang o wasanaethau sydd ar gael drwy ymgysylltu â'r farchnad, ond mae nifer sylweddol o bobl nad ydynt yn gwneud hynny.**

**Efallai nad ydynt yn gwybod pryd i adolygu eu cytundeb cyfredol, efallai nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth neu hyder i ddod o hyd i'r fargen orau ar gyfer eu hanghenion nhw, neu eu bod yn cael eu rhwystro rhag manteisio ar y bargeinion hyn.**

### Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod cyfran y cwsmeriaid sy'n 'ymgysylltu' – sef y rheini sydd wedi newid darparwyr, siopa o gwmpas neu wedi negodi â'u darparwr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf – yn amrywio'n sylweddol ar draws y marchnadoedd cyfathrebu.

Mae defnyddwyr nad ydynt yn chwilio am y fargen orau ar ddiwedd cyfnod sylfaenol eu contract fel arfer yn talu prisiau uwch na defnyddwyr sydd wedi ymgysylltu, gan fod darparwyr yn aml yn targedu eu cynigion a'u disgowntiau gorau at y rheini sy'n negodi neu'n newid darparwr.

Canfu ein hymchwil fod dros 20 miliwn o gwsmeriaid wedi gorffen cyfnod sylfaenol eu contract, ac mae dros 10 miliwn wedi ymrwymo i gynigion lle mae'r pris yn cynyddu'n awtomatig ar ddiwedd y contract. O ganlyniad, gallai miliynau fod yn talu mwy na sydd raid. Er enghraifft, mae cwsmeriaid sy'n bwndelu eu gwasanaethau llinell dir a'u band eang yn talu 20% yn fwy ar gyfartaledd pan fyddant y tu allan i gontract.

### Yr hyn mae Ofcom wedi'i wneud

Mae'r marchnadoedd cyfathrebiadau yn cynnig mwy a mwy o gynnyrch a gwasanaethau. Rydym eisiau helpu cwsmeriaid telegyfathrebiadau a theledu i fanteisio i'r eithaf ar y dewis sydd ar gael, siopa o gwmpas yn hyderus, ac yn y pen draw sicrhau'r bargeinion gorau ar gyfer eu hanghenion – p'un ai a yw hynny'n golygu negodi bargen newydd gyda'u darparwr presennol neu symud at ddarparwr newydd.

Roeddem wedi dechrau ar raglen waith ac ymchwil yn 2017 er mwyn deall yn well pam bod rhai defnyddwyr yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â marchnadoedd cyfathrebiadau, ac er mwyn ein helpu ni i ddod o hyd i atebion

Roedd yr ymchwil yn dangos bod nifer o bobl yn ansicr ynghylch a oedden nhw'n dal yng nghyfnod sylfaenol eu contract, a phryd roedd eu contract yn dod i ben. Roedd hefyd yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol cael hysbysiad ynghylch y dyddiad y daw eu contract i ben.

Nid oedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn atgoffa eu cwsmeriaid pan roedd cyfnod sylfaenol eu contract yn dod i ben, nac yn egluro beth fyddai'n digwydd ar ôl i'r contract ddod i ben

Ym mis Gorffennaf, roeddem wedi gosod cynigion newydd a oedd yn golygu ei bod yn rhaid i ddarparwyr roi gwybod i gwsmeriaid preswyl a busnesau bach sy'n defnyddio gwasanaethau gan gynnwys llinell dir, band eang, teledu drwy dalu a ffonau symudol (ar eu pen eu hunain neu mewn bwndel) pryd bydd eu contract yn dod i ben. Rhaid i'r hysbysiad roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau i'w pris neu i'w gwasanaethau a nodi beth yw eu hopsiynau, gan gynnwys rhoi gwybod iddynt y gallent arbed arian. Mae'n rhaid i ddarparwyr hefyd anfon neges 'y tu allan i gontract' untro at yr holl gwsmeriaid y mae cyfnod sylfaenol eu contract wedi dod i ben, ac na roddwyd yr holl wybodaeth yma iddynt bryd hynny.

Cafodd y cynigion eu hymestyn ymhellach ym mis Rhagfyr a oedd yn golygu ei bod hefyd yn rhaid i ddarparwyr roi gwybod i gwsmeriaid am y fargen neu'r tariff gorau maen nhw'n gallu ei gynnig. Rhaid iddynt wneud hyn pan fydd unrhyw fargen ddisgownt sydd gan gwsmeriaid yn dod i ben, a hefyd bob blwyddyn i gwsmeriaid sydd wedi aros efo nhw ers tro.

Roeddem wedi cyhoeddi datganiad terfynol ym mis Mai 2019 yn cadarnhau'r gofynion newydd, a ddaw i rym ym mis Chwefror 2020.

## Costau'r ffôn

Roeddem wedi gweithio rhagor ar ymgysylltiad defnyddwyr gydag ymgynghoriad ynghylch costau'r ffôn ym mis Medi. Er bod y rhan fwyaf o gwsmeriaid yn cael gwerth da am arian, rydym yn poeni bod lleiafrif sylweddol yn parhau i dalu'r un pris ar ôl diwedd cyfnod sylfaenol eu contract.

Rydym yn amcangyfrif bod 1.5 miliwn o ddefnyddwyr yn y sefyllfa hon, ac yn dal i dalu rhandaliadau tuag at ffôn mae nifer wedi talu amdano'n barod.

Pan fydd cwsmer ffôn symudol yn ymrwymo i gontract wedi'i fwndelu, rydym yn poeni hefyd nad yw darparwyr yn dryloyw am briod gostau'r ffôn ei hun a'r amser ar yr awyr – felly ni all cwsmeriaid ddweud faint maent yn ei dalu am yr elfennau gwahanol o'u contract

Mae hyn yn annerbyniol. Dylai cwsmeriaid allu adnabod yn glir y nwyddau a'r gwasanaethau maent yn talu amdanynt, er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch beth i'w brynu - a beth i'w wneud pan fydd cyfnod sylfaenol eu contract yn dod i ben.

Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu dau ateb posibl:

- mwy o dryloywder ynghylch gwahanol rannau o'r pecyn ffôn symudol mae cwsmer yn ei brynu, a pha wybodaeth arall dylid ei darparu pan fydd cyfnod sylfaenol y contract yn dod i ben; a
- gofyniad i ddarparwyr gyflwyno tariffau tecach yn awtomatig ar ddiwedd cyfnod sylfaenol y contract, gyda chwsmeriaid yn talu am amser sgwrsio yn unig i bob pwrpas.

Ym mis Rhagfyr roeddem wedi cyhoeddi cynlluniau i adolygu arferion prisio cwmnïau band eang – rydym yn poeni bod rhai cwsmeriaid yn talu mwy na rhai eraill am wasanaethau tebyg neu waeth, yn enwedig pan fydd cynigion cychwynnol wedi dod i ben. Bydd yr adolygiad yn edrych sut mae cwmnïau'n newid prisiau i gwsmeriaid dros amser, ac ar bwy mae hyn yn effeithio fwyaf. Os byddwn yn dod o hyd i dystiolaeth o niwed, byddwn yn gweithredu i ddiogelu defnyddwyr – yn enwedig y rheini a allai gael trafferth ymgysylltu â'r farchnad.

Roeddem hefyd wedi lansio ymgyrch a gwefan bwysig newydd, o'r enw Y Gorau o'ch Gwesanaeth. Mae ffigurau Ofcom yn dangos bod 94% o gartrefi a swyddfeydd yn y DU yn gallu cael band eang cyflym iawn erbyn hyn, ond llai na hanner sydd wedi manteisio arno. Ar ben hynny, mae tua phedair miliwn o gartrefi sydd â band eang sylfaenol hen ffasiwn wedi gorffen cyfnod cychwynnol eu contract, a gallen nhw symud i fand eang cyflym iawn am yr un faint – neu lai – o arian na'r hyn maent yn ei dalu ar hyn o bryd. Mae'r ymgyrch yn defnyddio data Ofcom i ddweud wrth bobl pa fand eang sydd ar gael yn eu hardal, ac mae'n cynnig cyngor diduedd ar ddod o hyd i'r fargen orau ar gyfer eu hanghenion.

Mae'r mesurau hyn yn dilyn ein gwaith diweddar i sicrhau bargen well i gwsmeriaid telegyfathrebiadau. Mae hyn yn cynnwys iawndal awtomatig o 1 Ebrill 2019 ymlaen pan fydd pethau'n mynd o chwith; symleiddio prosesau newid rhwng darparwyr symudol ac ar y rhwydwaith Openreach; a darparu gwybodaeth well an ansawdd gwasanaethau a gwybodaeth gywir am gyflymder band eang pan fydd pobl yn chwilio am fargeinion neu'n trefnu contract.

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

Ein nod yw sicrhau bod cwsmeriaid, yn gyffredinol, yn cael y fargen orau bosibl ac nad ydynt yn talu dim mwy nag sydd ei angen.

Mae'r datganiad a wnaethom ym mis Mai 2019 ar hysbysiadau diwedd contract a'r tariff gorau yn golygu y bydd defnyddwyr yn cael neges yn awtomatig i ystyried ailnegodi â'u darparwr presennol neu newid i ddarparwr arall.

Byddwn yn ymgynghori ynghylch cynigion prisiau ffonau a band eang yn nes ymlaen eleni gyda'r nod o weithredu'r rheolau newydd yn 2020.

At ei gilydd, bydd y cynlluniau hyn yn arbed cannoedd o filiynau o bunnoedd i filiynau o gwsmeriaid bob blwyddyn.

Mae'r wefan Y Gorau o'ch Gwesanaeth wedi cael bron i 300,000 o ymweliadau ers ei lansio, gyda bron i 75,000 o ddefnyddwyr, ac ar gyfartaledd mae tua dau funud a hanner yn cael ei dreulio ar y safle.

O 1 Ebrill 2019 ymlaen mae ein darpariaethau iawndal awtomatig newydd yn golygu y bydd pob cwsmer llinell dir a band eang sy'n dioddef gwaith atgyweirio araf, oedi gyda gosod gwasanaeth neu beirianwyr yn methu apwyntiadau, yn derbyn iawndal digonol yn gyflym ac yn awtomatig.

Gallai'r newidiadau olygu cyfanswm o £142m o daliadau i ddefnyddwyr, tua naw gwaith yn fwy na'r lefelau blaenorol.




Yr haf yma bydd ein rheolau newydd ar newid darparwr gwasanaeth symudol yn dod i rym. Bydd y rhain yn golygu bod cwsmeriaid yn gallu newid darparwr heb orfod siarad â'u darparwr presennol, dim ond drwy anfon neges destun am ddim. Mae'r rheolau hefyd yn cynnwys gwahardd darparwyr rhag codi tâl am gyfnodau rhybudd sy'n rhedeg ar ôl y dyddiad newid.



At ei gilydd, dylai hyn arbed tua £10m y flwyddyn i gwsmeriaid symudol y DU.

Byddwn yn parhau i weithio ar sicrhau mwy o degwch a thryloywder i gwsmeriaid, a gyda chyrff eraill fel yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, sy'n ystyried cwyn fawr gan Cyngor ar Bopeth ynghylch y prisiau uchel sy'n cael eu talu gan ddefnyddwyr anweithgar ar draws nifer o sectorau diwydiant, y 'gosb ffyddlondeb'.


## Gwella darpariaeth gwasanaethau cyfathrebu


**Mae cysylltiadau o ansawdd uchel yn bwysicach nag erioed o'r blaen i bobl ac i fusnesau.**

### Yr effaith ar ddefnyddwyr

Yn ôl ein hymchwil, mae darpariaeth rhwydweithiau sefydlog a symudol yn parhau i wella – ond mae gormod o bobl yn dal yn methu cael y cysylltiad sydd ei angen arnynt. Er enghraifft:

Mae oddeutu **700,000** o gartrefi a busnesau bach neu **2%** o eiddo yn dal yn methu cael band eang **10** Mbit yr eiliad



Mae'r broblem yn fwy amlwg mewn **ardaloedd gwledig**



lle mae'r ffigur yn **12%** o eiddo o'i gymharu â **1%** ardaloedd trefol

Dyma'r ffigurau ar gyfer cyfanswm yr eiddo sy'n methu cael gwasanaeth o'r fath yn y gwledydd:



| | |
|---|---|
| Gogledd Iwerddon | 5% |
| Yr Alban | 4% |
| Cymru | 3% |
| Lloegr | 2% |

Er bod 91% yn y DU yn cael signal rhyngrwyd symudol 4G da gan o leiaf un gweithredwr, dim ond dwy ran o dair o arwyneb y tir sy'n cael darpariaeth 4G lawn gan y pedwar. Ar yr un pryd, mae gormod o ardaloedd gwledig sy'n cael signal symudol annibynadwy neu afreolaidd.

Er enghraifft, mae gan 83% o gartrefi a swyddfeydd trefol ddarpariaeth 4G gyflawn, ond mae'r ffigur yn llai na hanner hynny (41%) ar gyfer eiddo gwledig. Nid oes dim darpariaeth o gwbl mewn rhai ardaloedd anghysbell o'r wlad.

Rydym yn amcangyfrif bod 97% o eiddo yn gallu cael signal symudol a sefydlog teilwng. Fodd bynnag, mae 0.1% o eiddo yn y DU yn methu cael y naill na'r llall, ffigur sy'n codi i 3% o eiddo gwledig yn yr Alban a 2% o eiddo gwledig yng Nghymru.

### Yr hyn mae Ofcom wedi'i wneud

Yn 2013, roeddem wedi gosod rheolau sy'n mynnu bod 98% o gartrefi a swyddfeydd yn cael signal 4G dan do gan o leiaf un gweithredwr. Yn 2014, cytunodd cwmnïau symudol â'r Llywodraeth i sicrhau bod 90% o'r DU yn cael darpariaeth ar gyfer galwadau ffôn a negeseuon testun. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar gydymffurfiad llwyddiannus y cwmnïau symudol â'r rhwymedigaethau hyn, a byddwn yn sicrhau eu bod yn parhau.

Rydym yn parhau i gymryd camau pellach i wella darpariaeth gwasanaethau symudol.

Wrth i ni ryddhau tonnau awyr newydd ar gyfer gwasanaethau symudol, rydym yn cynllunio rheolau a fyddai'n ymestyn darpariaeth symudol i lle mae ei angen. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cymunedau gwledig yn cael y math o ddarpariaeth symudol y mae pobl yn ei disgwyl mewn trefi a dinasoedd.

Rydym yn bwriadu gosod rhwymedigaethau darpariaeth heriol ar y tonnau awyr symudol yn y dyfodol agos – edrychwch ar dudalen 26. Byddwn yn ysgrifennu'r gofynion hyn yn nhrwyddedau'r gweithredwyr sy'n eu hennill yn yr arwerthiant sydd ar y gweill. Byddai'r rhwymedigaethau'n berthnasol i ddau weithredwr ac yn gwthio'r ddarpariaeth ymhellach na'r rhwymedigaethau a oedd ynghlwm wrth sbectrwm 4G yn 2013 – gan ymestyn darpariaeth data da yn yr awyr agored gan y gweithredwyr hynny i o leiaf 90% o holl arwyneb tir y DU o fewn pedair blynedd i'r dyfarniad llwyddiannus. Mae'r dyfarniad wedi cael ei gynllunio ar gyfer dechrau 2020, ac mae bwriad i ddefnyddio'r band 700MHz erbyn canol 2020.

Mae ein rheolau arfaethedig yn cynnwys darpariaethau i helpu i wella rhwydweithiau symudol yn y Gwledydd lle mae'r argaeledd yn wan ar hyn o bryd. Byddai darpariaeth ar gyfer gweithredwr cyfartalog yn codi wyth pwynt canran yng Nghymru, a deg pwynt canran yn yr Alban, a byddai Gogledd Iwerddon yn cael yr un ddarpariaeth arwynebedd tir sylfaenol o 90% â'r DU drwyddi draw.

Roeddem hefyd wedi cyflwyno cynlluniau i ganiatáu i rai sbectra gael eu rhannu gan wahanol ddefnyddwyr, i gefnogi arloesedd a chynlluniau darpariaeth leol ar draws y DU. Mae'r cynlluniau'n cynnwys caniatáu i eraill ddefnyddio sbectrwm sydd wedi'i drwyddedu i weithredwyr rhwydwaith symudol ar hyn o bryd, ond ddim yn cael ei ddefnyddio ganddynt mewn ardaloedd penodol.

Gallai rhai o'r bandiau sbectrwm hyn gynnal ystod gynyddol o ddefnydd o bob math yn y dyfodol, mewn ardaloedd fel logisteg, mwyngloddio, amaethyddiaeth a dyfeisiau wedi'u cysylltu a fydd yn ffurfio'r 'Rhyngrwyd Pethau'.

Gallai sefydliadau a grwpiau sydd â diddordeb mewn adeiladu a gweithredu eu rhwydweithiau symudol eu hunain ddefnyddio'r bandiau eraill.


Gallai'r bandiau sbectrwm rydym ni'n bwriadu eu hagor i'w rhannu hefyd gael eu defnyddio at ddiben darparu band eang di-wifr sefydlog, yn hytrach na darpariaeth symudol. Gallai hyn helpu i gysylltu cartrefi a busnesau mewn ardaloedd lle mae'n arbennig o anodd rhoi ceblau yn y ddaear.




Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio ar nifer o brosiectau eraill i helpu i wella'r ddarpariaeth symudol, fel:



- **Cefnogi diwygiadau cynllunio.** Rydym wedi helpu i roi deddfau cynllunio newydd ar waith sy'n ei gwneud hi'n rhatach ac yn haws i gwmnïau symudol wella'r ddarpariaeth drwy rannu a gosod offer, fel mastiau symudol ar dir preifat a chyhoeddus.




- **Ymestyn y defnydd o gyfarpar cryfhau signal.** Ym mis Ebrill 2018, roeddem wedi cyflwyno rheolau newydd sy'n caniatáu i bobl ddefnyddio mathau penodol o offer mwyhau ffonau symudol, heb fod angen cael trwydded, er mwyn helpu i roi hwb i signalau symudol gartref.




- **Helpu i wella'r ddarpariaeth ar drenau.** Roeddem wedi rhoi cyngor i Lywodraeth y DU ynghylch y galw am wasanaethau data nawr ac yn y dyfodol ymysg teithwyr ar y prif reilffyrdd; y bandiau sbectrwm a allai ddiwallu'r gofynion hyn, ac y gellid eu defnyddio ar gyfer cysylltedd o'r cledrau i'r cerbyd; a sut, mewn egwyddor, gallem ni awdurdodi defnyddio sbectrwm ar gyfer cysylltedd ar drenau.

Ar ben hynny, ym mis Medi roeddem wedi cynghori'r Llywodraeth ar ddewisiadau eraill i helpu i roi hwb i ddarpariaeth symudol, gan gynnwys dewisiadau sy'n ymwneud â chymhorthdal cyhoeddus i dalu am ddarpariaeth a chytundebau newydd rhwng gweithredwyr i rannu eu seilwaith symudol a/neu sefydlu trefniadau crwydro mewn ardaloedd gwledig.

Ym mis Mawrth 2018, gosododd y Llywodraeth fanylion Rhwymedigaeth Gwasanaeth band eang Cyffredinol (USO) mewn is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn rhoi'r hawl gyfreithiol i bawb yn y DU wneud cais am gysylltiad band eang teilwng - sy'n cael ei ddiffinio fel cyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad o leiaf, a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad o leiaf.




Er ein bod yn credu y bydd angen cynyddu manyleb yr USO dros amser, mae'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o gartrefi ar hyn o bryd.



Ym mis Mehefin 2018, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad, gan wahodd datganiadau o ddiddordeb i fod yn Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol. Cafwyd wyth datganiad o ddiddordeb ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaethom gynnig y dylid dynodi BT a KCOM yn Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol a'n bod ni'n disgwyl y bydd pobl yn gallu gofyn am y cysylltiadau hyn o 2020 ymlaen.

Rydym yn gweithio i helpu i gyflwyno'r gwasanaeth cyffredinol mor gyflym ag sy'n bosibl.

Mae ein gwaith i wella darpariaeth gwasanaethau cyfathrebu ar draws y DU yn adlewyrchu dyheadau'r Llywodraeth a nodwyd yn yr Adolygiad o Seilwaith Telegyfathrebiadau ar gyfer y Dyfodol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018.

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

Blaenoriaeth Ofcom yw gweithio tuag at sicrhau bod band eang cyffredinol – a darpariaeth symudol ar draws y wlad – yn realiti i filoedd o bobl sy'n methu cael cysylltiad teilwng heddiw.

Er bod ein hymchwil yn dangos bod y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau sefydlog a symudol ar draws y DU wedi gwella, a bod mwy o ddarpariaeth ar gael, mae angen rhagor o waith, yn enwedig yn y gwledydd ac yn ardaloedd gwledig Lloegr.

Dylai ein gwaith i wella'r ddarpariaeth sefydlog a symudol, drwy'r USO band eang a'r rhwymedigaethau darpariaeth symudol arwain at ostyngiad yn nifer yr eiddo nad ydynt yn gallu cael gwasanaeth symudol da na sefydlog teilwng. Dylai'r naill fenter a'r llall helpu i wella rhagolygon darpariaeth ar gyfer defnyddwyr o 2020 ymlaen.

Mae darpariaeth gynhwysfawr yn nod uchelgeisiol, ond yn un y dylai'r wlad ymdrechu i'w chyflawni. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion yn y maes yma i sicrhau bod pawb yn gallu cael cysylltiad a pharhau i fod â chysylltiad.

# Gwaith paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 700 MHz a 3.6-3.8 GHz

**Mae darparwyr gwasanaethau symudol angen mwy o donnau awyr i gefnogi'r galw am wasanaethau rhyngrwyd ar y ffordd, wrth i fwy a mwy ddefnyddio ffonau clyfar a dyfeisiau tabled.**

## Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae Strategaeth Data Symudol Ofcom yn esbonio sut rydym yn bwriadu cynllunio er mwyn galluogi rhagor o fanteision tymor hir i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion yn sgil defnyddio mwy o wasanaethau data symudol dros y ddau ddegawd nesaf.

5G yw'r genhedlaeth nesaf o dechnoleg symudol. Mae disgwyl y bydd yn darparu band eang cyflymach a gwell, a bydd modd ei ddefnyddio'n eang mewn sectorau fel gweithgynhyrchu, trafnidiaeth a gofal iechyd.


Rydym am weld y DU yn arwain y byd ym maes technoleg 5G, a fydd o fudd i'n pobl, i'n busnesau ac i'r economi ehangach. Rydym yn ceisio sicrhau nad yw sbectrwm yn rhwystro'r gwaith o gyflwyno 5G yn gynnar. Byddwn yn rhyddhau gwahanol fathau o fandiau sbectrwm ar gyfer 5G cyn gynted ag sy'n bosibl i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar y sbectrwm maent ei angen.

## Yr hyn mae Ofcom wedi'i wneud

Eleni roeddem wedi dechrau gweithio ar ryddhau 200 MHz o sbectrwm newydd ar draws y bandiau 700 MHz (80 MHz) a 3.6-3.8 GHz (120 MHz). Byddai'r tonnau awyr hyn yn caniatáu i weithredwyr rhwydweithiau symudol gynyddu capasiti data, gan alluogi eu cwsmeriaid i fwynhau pori'r rhyngrwyd mewn ffordd fwy dibynadwy. Mae faint o sbectrwm a fydd yn cael ei ddyfarnu drwy arwerthiant yn cyfateb i 22% o'r sbectrwm sy'n cael ei ddefnyddio gan weithredwyr ffonau symudol ar hyn o bryd.


Mae'r cyfuniad o sbectrwm amledd isel ac uchel yn creu'r potensial i wasanaethau band eang symudol 5G fod ar gael yn eang ar draws y DU, ar yr un pryd â chynnig y capasiti i ymdopi â llawer iawn o alw mewn canolfannau trefol.

700 MHz



- Mae tonnau awyr yn y band 700 MHz yn addas iawn ar gyfer darparu signal symudol o ansawdd da, dan do ac ar draws ardaloedd eang iawn – gan gynnwys yng nghefn gwlad.

3.6-3.8 GHz



- Mae'r sbectrwm 'amledd canol' ar draws y band 3.6-3.8 GHz yn addas ar gyfer cynnal llawer o gysylltiadau sy'n llyncu llawer o ddata mewn ardaloedd prysur iawn.


Ym mis Rhagfyr roeddem wedi ymgynghori ynghylch sut roedd defnyddio'r sbectrwm hwn yn debygol o effeithio ar gystadleuaeth yn y dyfodol yn y marchnadoedd telegyfathrebiadau symudol ac sut rydym yn bwriadu defnyddio'r dyfarniad i helpu i wella darpariaeth symudol ar draws y wlad. Roeddem wedi amlinellu cynigion ynghylch sut dylid arwerthu'r sbectrwm.

Rydym yn bwriadu cynnwys rheolau rhwymol o ran darpariaeth gyda'r sbectrwm. Byddai'r rhain yn golygu y byddai'n rhaid i hyd at ddau ymgeisydd llwyddiannus, wneud y canlynol o fewn pedair blynedd:







- ymestyn darpariaeth data dda yn yr awyr agored i o leiaf 90% o holl arwynebedd tir y DU o fewn pedair blynedd i'r cynnig llwyddiannus;




- gwella darpariaeth ar gyfer o leiaf 140,000 o gartrefi a swyddfeydd nad ydynt eisoes yn darparu ar eu cyfer; a




- rhoi darpariaeth o 500 o orsafoedd mast symudol newydd, o leiaf, mewn ardaloedd gwledig.

Rydym yn bwriadu cynnig disgownt i'r cwmnïau sy'n bidio yn yr arwerthiant ar y sbectrwm sy'n gysylltiedig â'r rhwymedigaethau darpariaeth hyn – i adlewyrchu'r buddsoddiad sylweddol fydd ei angen i'w cyflawni, a'r manteision cymdeithasol y byddant yn helpu i'w cyflawni.

Mae'r DU yn elwa o bedwar cwmni rhwydwaith symudol cenedlaethol, yn ogystal â nifer o 'rith' gwmnïau sy'n cynnig gwasanaethau drwy gludo eu gwasanaeth ar seilwaith y cwmnïau cenedlaethol. Mae'r gystadleuaeth hon yn helpu i sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel, prisiau cystadleuol, dewis ac arloesedd.

Mae dyluniad arfaethedig ein harwerthiant yn sicrhau y bydd defnyddwyr gwasanaethau symudol yn parhau i elwa o gystadleuaeth gref. Mae'r rheolau drafft yn rhoi cap ar y sbectrwm y caiff unrhyw un gweithredwr ei ddal, er mwyn diogelu cystadleuaeth yn y farchnad. Mae'r cap yn cyd-fynd â'r polisi a fabwysiadwyd gennym mewn arwerthiannau sbectrwm blaenorol.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a'r dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â dadansoddiad pellach gan Ofcom, yn ein helpu i ddatblygu'r rheolau terfynol ar gyfer yr arwerthiant. Rydym yn bwriadu cynnal y dyfarniad ddechrau 2020.

Cyn i weithredwyr ffonau symudol allu defnyddio'r sbectrwm 700 MHz, rhaid ei glirio o'r defnyddwyr presennol. Mae'r band yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan deledu daearol digidol a chan offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) megis meicroffonau di-wifr.

Mae teledu daearol digidol yn dal i gyflawni rôl allweddol drwy ddarparu mynediad am gost isel ac i bawb bron at sianeli teledu gwasanaeth cyhoeddus ar Freeview. Rydym yn gweithio i sicrhau cyn lleied â phosibl o amhariad ar wylwyr teledu daearol digidol. Y cyfan y bydd angen i'r rhan fwyaf ei wneud ydy ail-diwnio eu hoffer presennol.

Rydym hefyd wedi nodi nifer o fandiau amledd y gall meicroffonau di-wifr eu defnyddio. Gan weithio'n agos gyda'r gymuned PMSE, ein nod yw cyfyngu ar unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â symud i'r bandiau newydd hyn. Fel rhan o'i chyllid ar gyfer rhaglen clirio'r band 700MHz, mae'r Llywodraeth wedi cytuno i ariannu cynllun grant sy'n cael ei weinyddu gan Ofcom i gefnogi defnyddwyr PMSE a fydd yn gorfod symud oddi ar y band 700 MHz ac yn cael costau o ganlyniad i hynny. Agorwyd y gofrestr i gyflwyno hawliadau cymwys ym mis Chwefror eleni.

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

Wrth i'r DU symud i'r genhedlaeth nesaf o gyfathrebu symudol, amcanion Ofcom yw hybu cystadleuaeth effeithiol ac ysgogi buddsoddiad ac arloesedd. Mae'r DU yn elwa o fod yn un o'r marchnadoedd ffonau symudol mwyaf cystadleuol yn Ewrop, yn ôl ein hymchwil. Mae hyn yn golygu bod defnyddwyr y DU yn talu llai am wasanaethau symudol a'u bod yn gallu chwilio a chymharu i ddod o hyd i'r pecynnau sydd fwyaf addas iddyn nhw.

Rydym wedi cwblhau'r cam cyntaf i baratoi ar gyfer rhyddhau llawer iawn o sbectrwm newydd yn y DU. Mae ein cynigion yn dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau 5G i ddefnyddwyr ar gyfer y degawd nesaf a'r tu hwnt ac yn helpu i gynnal cystadleuaeth symudol yn y DU.

Mae'r gwaith i glirio'r band 700MHz yn ystod 2018 wedi mynd rhagddo yn unol â'r bwriad, ac mae'r rhaglen ar y trywydd iawn i gael ei chwblhau erbyn mis Ebrill 2020.

Mae hyn yn golygu y gallai defnyddwyr fod yn elwa cyn bo hir ar lawer iawn mwy o gapasiti band eang symudol. Mae rhyddhau'r sbectrwm newydd hwn yn adeiladu ar ddyfarnu 190 MHz ar draws 2.3 a 3.4-3.6 GHz a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2018. Mae hyn eisoes wedi golygu bod cynnydd wedi'i weld yn syth yn y capasiti band eang symudol ar gyfer cwsmeriaid Telefónica; bod sbectrwm yn gyffredinol wedi'i ddosbarthu'n fwy cyfartal rhwng y pedwar cwmni rhwydwaith symudol sy'n cystadlu â'i gilydd; a man cychwyn da i alluogi'r pedwar i ddatblygu gwasanaethau 5G yn y dyfodol.

Mae cynnwys rhwymedigaethau darpariaeth fel rhan o'r dyfarniad yn golygu y dylai signalau symudol gyrraedd ymhellach o lawer yn y DU. Dyma newyddion da i rannau o'r wlad lle nad oes digon o wasanaeth band eang symudol ar hyn o bryd, ac mae'n golygu y dylai holl boblogaeth y DU bron allu cael gwasanaethau symudol o fewn pedair blynedd i'r arwerthiant.



## Sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn parhau i gael ei ddarparu

**Mae'r sector post yn hanfodol i economi'r DU. Mae miliynau o bobl a busnesau ledled gwledydd y DU, ac mewn ardaloedd gwledig, yn dibynnu ar y gwasanaeth post cyffredinol. Mae'n mynnu bod y Post Brenhinol yn casglu ac yn dosbarthu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos (a pharseli pum niwrnod yr wythnos), am bris fforddiadwy ac unffurf yn ddaearyddol i bob cyfeiriad yn y DU.**

Rydym yn rheoleiddiwr y gwasanaethau post a'n nod yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau post yn elwa o wasanaeth post cyffredinol, sy'n arloesi ac yn lleihau prisiau. Rhaid cael cydbwysedd rhwng sicrhau'r gwasanaeth cyffredinol a'r angen i'r Post Brenhinol, sef y cwmni sy'n ei ddarparu, fod yn gynaliadwy yn ariannol.

### Cap diogelu ar gyfer stampiau ail ddosbarth

Yn 2012, cyflwynodd Ofcom gap diogelu ar gyfer cynnyrch ail ddosbarth i sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol sylfaenol a fforddiadwy ar gael i bob defnyddiwr ac er mwyn eu diogelu rhag codiadau cyson mewn prisiau.

Yn 2017, fel rhan o'r adolygiad o'r gwaith o reoleiddio'r Post Brenhinol, fe ddaethom i'r casgliad y dylai'r capiau aros mewn lle ond y dylid eu hadolygu yn ystod 2018/19, cyn iddynt ddod i ben ar 31 Mawrth 2019.

Roeddem wedi cwblhau'r adolygiad hwn ym mis Ionawr 2019, gan benderfynu cynyddu cap llythyr safonol ail ddosbarth o 60p i 65.2p ym mis Ebrill 2019, wedi'i ddilyn gan godiadau blynyddol sy'n gysylltiedig â chwyddiant tan 31 Mawrth 2024. Mae cynnydd yn y cap yn sicrhau bod stampiau ail ddosbarth yn aros yn fforddiadwy, ar yr un pryd â rhoi lefel briodol o hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol.

### Monitro

Rydym yn monitro perfformiad y Post Brenhinol yn gyson o ran effeithlonrwydd, ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol, datblygiadau yn y farchnad a chystadleuaeth mewn parseli a llythyrau. Rydym hefyd yn monitro profiadau defnyddwyr yn y sector post.

Rydym yn monitro perfformiad y Post Brenhinol yn gyson o ran effeithlonrwydd, ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol, datblygiadau yn y farchnad a chystadleuaeth mewn parseli a llythyrau. Rydym hefyd yn monitro profiadau defnyddwyr yn y sector post.

Fodd bynnag, gwnaethom hefyd ganfod bod maint elw'r Post Brenhinol yn y busnes a reoleiddir 20 pwynt sylfaen yn llai, i 4.4% yn 2017/18; mae hyn yn is na'r ystod o 5% i 10% rydym yn ystyried ei bod yn cynrychioli cyfradd enillion masnachol resymol o ran gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol yn y tymor canolig i'r tymor hir. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y gwasanaeth cyffredinol yn debygol o barhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol yn y dyfodol agos. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu ein dealltwriaeth o'r costau a wynebir gan y Post Brenhinol a sut mae newidiadau yn y farchnad yn effeithio arnynt. Roeddem hefyd wedi adolygu rheolau ynghylch adennill y costau sy'n ymwneud â cyrff eiriolaeth defnyddwyr mewn perthynas â gwasanaethau post.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn adolygu effeithlonrwydd y Post Brenhinol i roi syniad gwell i ni o gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn cynnal ymchwil marchnad ac yn dadansoddi i asesu anghenion cyfredol defnyddwyr post yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad, yn enwedig y cynnydd mewn siopa ar-lein a'r gostyngiad parhaus mewn llythyrau.

Mae ein trefn fonitro gynhwysfawr yn helpu i ddiogelu'r gwasanaeth cyffredinol. Os gwelwn fod bygythiad, mae gennym bwerau i gamu i mewn i ddiogelu anghenion defnyddwyr post y DU.



## Casgliad yr ymchwiliad

Eleni roeddem wedi rhoi dirwy o £50m i'r Post Brenhinol am achos difrifol o dorri cyfraith cystadleuaeth, ar ôl i'r cwmni gamddefnyddio ei safle cryf drwy wahaniaethu yn erbyn ei unig brif gystadleuydd o ran dosbarthu llythyrau.

_ Eleni roeddem wedi rhoi dirwy o £50m i'r Post Brenhinol am ymddygiad gwrth-gystadleuol tuag at gwsmeriaid cyfanwerthol.

Roedd y gosb o ganlyniad i ymchwiliad i gŵyn, a wnaed i Ofcom gan Whistl, un o gwsmeriaid cyfanwerthol y Post Brenhinol. Roedd y gŵyn yn ymwneud â'r newidiadau a wnaeth y Post Brenhinol i gontractau ei gwsmeriaid cyfanwerthol ddechrau 2014, yn cynnwys y cynnydd i'w brisiau cyfanwerthol.

Canfu ein hymchwiliad ei bod hi'n debygol resymol y byddai ymddygiad y Post Brenhinol yn golygu anfantais gystadleuol i gwmnïau eraill ac yn cyfyngu ar gystadleuaeth, drwy gyfyngu ar yr elw sydd ar gael i gwmnïau sydd eisiau ymuno â'r farchnad ddosbarthu mewn cystadleuaeth uniongyrchol i'r Post Brenhinol.

Roedd y ddirwy yn adlewyrchu ein canfyddiad bod gweithredoedd y Post Brenhinol yn rhan o ymateb strategol bwriadol i fygythiad cystadleuaeth gan Whistl.

# Cefnogi arloesedd di-wifr

**Mae sbectrwm yn darparu'r tonnau awyr sy'n cynnal gwasanaethau di-wifr, gan gynnwys ffonau symudol, a ddefnyddir gan bobl a busnesau bob dydd. Ofcom sy'n rheoli'r defnydd o sbectrwm yn y DU. Ein huchelgais yw gweld darpariaeth symudol gynhwysfawr ar gyfer pobl ble bynnag y bônt, a chreu cyfleoedd ar gyfer arloesi ledled economi'r DU.**

## Rhannu sbectrwm

Ym mis Rhagfyr, roeddem wedi cyhoeddi cynlluniau i ganiatáu i rai sbectra penodol gael eu rhannu gan wahanol ddefnyddwyr, i gefnogi arloesedd a chynlluniau darpariaeth leol ar draws economi'r DU.

Roeddem wedi cynnig darparu sbectrwm ar gyfer defnydd sy'n cael ei rannu yn y bandiau 1800 MHz a 2300 MHz, y gellir eu defnyddio gan ffonau symudol presennol. Rydym hefyd wedi datguddio cynlluniau i alluogi trydydd partïon i ddefnyddio tonnau awyr sydd wedi'u trwyddedu i weithredwyr symudol, ond ddim yn cael eu defnyddio ganddynt.

## Cefnogi arloesedd di-wifr

Gallai technoleg ddi-wifr helpu busnesau i gynhyrchu mwy, i leihau costau, i arloesi ac i wella ansawdd eu gwasanaethau. Mae diwydiannau fel amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu a logisteg eisoes yn defnyddio cysylltiadau di-wifr i wella eu gwasanaethau. Er enghraifft, drwy gyflwyno awtomeiddio mewn llinellau cynhyrchu ffatrïoedd neu ddefnyddio data amser real i fonitro cnydau o bell.

Ym mis Chwefror, roeddem wedi cyhoeddi papur trafod yn edrych ar sut mae cysylltiadau di-wifr yn ysgogi arloesedd ar draws sectorau gwahanol. Roedd y papur hefyd yn edrych ar y materion mae angen i fusnesau eu hystyried wrth gyflwyno technoleg ddi-wifr, a'r dulliau technegol gwahanol y gallant eu rhoi ar waith pan fyddant yn gwneud hynny.

Rydym yn awyddus i weithio gydag unrhyw fusnesau neu sefydliadau sydd â diddordeb mewn defnyddio cysylltiadau di-wifr yn well. Yn ystod y gwanwyn 2019, roeddem wedi cynnal cyfres o weithdai diwydiant i drafod yn fanylach y cyfleoedd sydd ar gael.

## Gwasanaeth di-wifr sefydlog

Mae cysylltiadau di-wifr sefydlog yn darparu cysylltiadau di-wifr at ddibenion fel ôl-gludo symudol, gwasanaethau cyfleustodau, darlledu a rhwydweithiau ariannol, a hynny drwy ystod o fandiau sbectrwm.

Rydym wedi bod yn gweithio er mwyn gallu defnyddio dolenni di-wifr sefydlog at fwy o ddibenion. Gan y bydd y gofynion o ran capasiti yn cynyddu'n sylweddol – yn enwedig wrth i rwydweithiau a thechnolegau newydd ddatblygu a symud tuag at 5G – mae mwy o ffocws yn cael ei roi yn awr ar y bandiau tonfedd uwch i allu sicrhau'r capasiti hwn.

Er mwyn helpu i ddiwallu'r galw am wasanaethau di-wifr yn y dyfodol, roeddem wedi sefydlu rheoliadau newydd sy'n cael gwared â'r amodau technegol caeth dros y band 57-66 GHz i helpu i gynyddu'r defnydd ar draws y bandiau hyn.

Mae'r band 66-71 GHz wrthi'n cael ei astudio ar gyfer defnydd posibl o 5G. Mae ein gweithredoedd wedi golygu bod 14 GHz o sbectrwm sydd wedi'i eithrio o drwydded ar gael ar draws yr ystod 57-71 GHz, rhywbeth a ddylai gefnogi datblygu gwasanaethau 5G yn y DU.



## Paratoi ar gyfer Brexit

**Wrth i'r Llywodraeth drafod telerau'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, rydym wedi parhau i wneud paratoadau priodol ar gyfer sut gallai canlyniadau posibl gwahanol effeithio ar Ofcom a'r diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio.**

Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor annibynnol i'r Llywodraeth ar faterion sy'n flaenoriaethau i'n sectorau, er mwyn cyfrannu at ei gwaith yn gosod y fframweithiau cyfreithiol a fydd mewn lle ar ôl Brexit.

At ei gilydd bydd y fframweithiau hyn yn aros yr un fath ar ôl Brexit ar gyfer nifer o'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio. Fodd bynnag, bydd rhai newidiadau, fel sut rydym yn trwyddedu darlledwyr. Mae pobl yn anhebygol o weld newidiadau mawr i'r rheolau o ran sut byddant yn defnyddio eu gwasanaethau cyfathrebu, er y bydd rhai rheolau – fel crwydro symudol wrth deithio yn yr UE – yn newid.

Yn ôl yr angen rydym wedi ymgynghori ynghylch y newidiadau technegol y bydd angen i ni eu gwneud i'n rheolau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd a fydd yn berthnasol ar ôl i'r DU adael yr UE. Rydym hefyd wedi cyhoeddi cyngor i'r diwydiant, fel ein canllawiau i ddarlledwyr ar sut bydd deddfwriaeth newydd y Llywodraeth yn effeithio arnynt ar ôl Brexit.

Rydym mewn cysylltiad agos â'r cwmnïau a grwpiau defnyddwyr sy'n gweithio yn ein sectorau er mwyn sicrhau ein bod yn gwbl ymwybodol o unrhyw faterion a allai effeithio ar bobl ac ar fusnesau.

Byddwn yn darparu amgylchedd rheoleiddio sefydlog i fusnesau sy'n cefnogi buddsoddiad, yn hyrwyddo cystadleuaeth ac yn diogelu defnyddwyr.

## Trwyddedau darlledu

Ers mis Ebrill 2018, mae 23 o orsafoedd radio cymunedol analog newydd wedi dechrau darlledu. Maent yn gwasanaethu ardaloedd ar draws y DU, gan gynnwys Bounce FM yng Ngogledd Iwerddon, Radio Saltire yn yr Alban, Rhondda Radio yng Nghymru, Radio Newquay yng Nghernyw, Great Driffield Radio yn Swydd Efrog, Radio Seerah yng Nghanolbarth Lloegr, a Flex FM yn Llundain Fwyaf. Maent hefyd yn gwasanaethu amrywiaeth eang o gymunedau, gyda rhai gwasanaethau cerddoriaeth sy'n apelio at bobl ifanc neu gynulleidfaoedd hŷn, eraill yn cyrraedd cynulleidfaoedd LGBT a rhai gwasanaethau'n canolbwyntio ar gymunedau ffydd.

Ar ôl gofyn i'r rheini sydd eisoes yn dal trwyddedau radio cymunedol wneud cais i wella neu i ymestyn yr ardal y maent wedi'u trwyddedu i'w gwasanaethu, rydym wrthi'n gweithio drwy 60 o geisiadau i wella darpariaeth, a chyn bo hir byddwn yn troi ein sylw at 60 o geisiadau i ymestyn darpariaeth.

Rydym hefyd wedi trwyddedu 12 o wasanaethau radio cymunedol newydd, a fydd yn cael eu lansio dros y misoedd nesaf, a phob un yn darparu amrywiaeth ehangach o raglenni i gynulleidfaoedd yn eu hardal.

Cawsom 59 o geisiadau am drwydded gan wasanaethau teledu yn ystod y flwyddyn.

Bydd y rhain yn cynnig mwy o ddewis i wylwyr ar draws llwyfannau digidol a thalu-i-wylio. Cafodd un o'r trwyddedau hyn ei rhoi i Amazon, a oedd eisiau trwydded i ddarlledu twrnamaint Tenis Agored yr UDA ar ei wasanaeth ffrydio, Amazon Prime.

Dros y flwyddyn rydym hefyd wedi adnewyddu 42 ac wedi ail drwyddedu 16 o wasanaethau radio masnachol mewn dros 40 o ardaloedd ar draws y DU. Mae hyn yn galluogi pobl i fwynhau ystod o wasanaethau radio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Roeddem hefyd wedi trwyddedu dros 130 o wasanaethau radio tymor byr i ddarlledu. Mae'r gwasanaethau hyn yn darlledu am hyd at fis, ac yn berthnasol i ddigwyddiadau ar draws y DU, fel gwyliau cerddoriaeth, cynadleddau a digwyddiadau crefyddol.

Mae ein rhaglen gorfodi yn sicrhau bod y rheini sy'n dal trwyddedau teledu a radio yn bodloni eu rhwymedigaethau, gan gynnwys cydymffurfio â gofynion eu gwasanaeth sy'n sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau teledu a radio.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Llywodraeth ynghylch deddfwriaeth newydd a allai olygu bod cannoedd yn fwy o orsafoedd radio digidol ar gael ledled y DU. Mae darlledu sain digidol (DAB) ar raddfa fach yn dechnoleg arloesol sydd wedi cael ei dylunio i ganiatáu i orsafoedd radio lleol drawsyrru'n llwyddiannus ar radio digidol yn fforddiadwy. Fel rhan o dreial parhaus mewn deg lleoliad ar draws y DU, mae pobl wedi gallu gwrando ar hyd at 20 o orsafoedd radio newydd sy'n cynnig amrywiaeth o gynnwys.



**23**
**gorsaf radio**
gymunedol analog newydd



mae pobl yn y **DU**
wedi gallu gwrando ar **hyd at**
**20** o orsafoedd radio **newydd**



wedi cael **59** cais am
**drwydded** gan
wasanaethau **Teledu**



adnewyddu **42**
ac wedi **ail drwyddedu**
**16** o wasanaethau
**radio masnachol**



dros **130**
o wasanaethau radio
**tymor byr**



**12 o orsafoedd radio**
cymunedol **newydd**

## Safonau darlledu

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i ddiogelu gwylwyr a gwrandawyr drwy orfodi'r Cod Darlledu.

Rydym wedi rhoi sancsiynau am dorri amodau'r Cod yn ddifrifol. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2018 roeddem wedi rhoi dirwy o £10,000 i Radio Ikhlas Limited, gorsaf radio gymunedol sydd wedi'i hanelu at y gymuned Asiaidd (Pacistanaidd gan fwyaf) a chymunedau ethnig llai eraill yn ardal Normanton Derby. Roedd yr orsaf wedi methu â diogelu gwrandawyr drwy ddarlledu pobl yn lleisio casineb ac ymdriniaeth ddifrïol o'r gymuned Ahmadiyya.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried rhoi sancsiynau am achosion eraill o dorri rheolau'n ddifrifol. Mae'r rhain yn cynnwys: lleisio casineb dros gyfnod yn erbyn y gymuned Ahmadiyya heb gyfiawnhad yn y cyd-destun (a ddarlledwyd ar Channel 44); dangos delwedd gwrth-Semitaidd dramgwyddus iawn mewn cynnwys tele-siopa (ar Starz); a methu â rhoi digon o ddiogelwch i wylwyr rhag deunydd a oedd yn peri risg sylweddol i'w hiechyd (ar BEN TV).

Mae Ofcom hefyd wedi cynnal ymchwiliadau sy'n ymwneud â didueddrwydd dyladwy.

Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2018 gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniadau ar 10 rhaglen a ddarlledwyd gan y gwasanaeth teledu RT (Russia Today gynt). Gwelsom fod 7 o'r rhaglenni hyn, a ddarlledwyd rhwng 17 Mawrth 2018 a 26 Ebrill 2018, wedi torri ein rheolau ar ddidueddrwydd dyladwy. Mae'r cwmni sy'n dal y drwydded ar gyfer RT, TV Novosti, wedi cael rhybudd bod yr achosion hyn o dorri rheolau yn cael eu hystyried ar gyfer sancsiynau statudol.

Hefyd o ran didueddrwydd dyladwy, ym mis Chwefror 2019 fe wnaethom gymryd y cam anarferol o gyhoeddi manylion ein hasesiad o gŵyn ar y cyd[1] am lawer iawn o gynnwys a oedd wedi cael ei ddarlledu rhwng mis Hydref 2017 a mis Mawrth 2018 ar BBC Radio 4 am Brexit. Yn ein barn ni, roedd amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol ar Brexit wedi cael eu cynnwys ym mhob un o'r rhaglenni, ac ar draws rhaglenni amserol a oedd yn amlwg yn gysylltiedig o fewn pob dilyniant. Nid oeddem felly'n credu bod y rhaglenni'n codi materion sylweddol a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach o dan y Cod Darlledu.

Yn ogystal ag asesu cwynion gan wylwyr a gwrandawyr, rydym hefyd yn ystyried cwynion gan bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg gan ddarlledwyr neu fod darlledwyr wedi tarfu ar eu preifatrwydd, er enghraifft mewn rhaglenni maent wedi ymddangos ynddynt. Yn 2018, roeddem wedi cadarnhau cwynion yn erbyn Channel 5 gan bobl a oedd wedi ymddangos mewn penodau o *Can't Pay? We'll Take It Away!* Mae'r gyfres yn dilyn asiantau gorfodi'r uchel lys wrth iddynt geisio datrys anghydfodau dyled drwy setliadau wedi'u negodi a drwy atafaelu asedau. Ym mhob un o'r pedwar achos roeddem wedi'u cadarnhau, canfu Ofcom ymyrraeth sylweddol â hawl y sawl a oedd yn cwyno i gael preifatrwydd, ac nad oedd cyfiawnhad dros ddarlledu'r darn o ffilm o'r rheini a oedd yn cwyno (a'u plant mewn rhai achosion) drwy ffilmio dirgel.

[1] Dyma'r rhai a oedd yn cwyno: Arglwydd Pearson o Rannoch, Philip Davies AS, Philip Hollobone AS, Kate Hoey AS, Ian Paisley AS, Kelvin Hopkins AS, Graham Stringer AS, Is-iarll Ridley, William Cash AS a David Keighley.

## Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC, adroddiad perfformiad Ofcom ar y BBC, a chynrychioli a phortreadu ar Deledu'r BBC

Ym mis Hydref 2018, roeddem wedi cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y BBC, sy'n berthnasol i'r cyfnod o fis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018. Mae'r Siarter Brenhinol yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut rydym wedi cyflawni ein swyddogaethau fel rheoleiddiwr annibynnol y BBC, ac mae'n asesu a yw'r BBC wedi cydymffurfio â gofynion y fframwaith gweithredu, y drwydded weithredu a'r dogfennau cysylltiedig.

Mae'r BBC yn sefydliad unigryw ac mae'r Senedd Brydeinig wedi rhoi cylch gwaith eang iddo i hysbysu, i addysgu ac i ddiddanu'r cyhoedd ac i gefnogi'r economi greadigol ar draws y DU.

Er mai Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, rôl Ofcom ydy dal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd drwy reoleiddio yn gadarn, yn deg ac yn annibynnol.

Yn yr adroddiad, rydym yn cynnwys asesiad o sut mae'r BBC wedi perfformio yn yr amgylchedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym iawn. Rydym wedi nodi'r camau rydym wedi'u cymryd i asesu sut mae'n cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, ei effaith ar gystadleuaeth a sut mae'n sicrhau ei safonau golygyddol.

Roeddem hefyd wedi cyhoeddi ein hasesiad o sut mae'r BBC wedi cydymffurfio â chytundeb y BBC, yn ogystal ag adroddiad sy'n mesur perfformiad y BBC ar draws ei holl wasanaethau a'i allbwn ac mae'n rhoi safbwynt cyffredinol ar sut mae'n cyflawni i gynulleidfaoedd.




Canfu ein hadroddiad blynyddol ar y BBC, er bod y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith ar gyfer cynulleidfaoedd yn gyffredinol a bod lefel eu bodlonrwydd yn gymharol uchel, dylai fynd ymhellach mewn pedwar maes:



- **Tryloywder.** Gan fod y BBC yn sefydliad sy'n cael arian cyhoeddus, ac sydd â statws breintiedig yn sector darlledu'r DU, mae'n rhaid iddo fod yn fwy tryloyw ac atebol, yn fwyaf penodol ym maes cystadleuaeth. Mae arferion gweithio tryloyw o fudd i'r choedd, cystadleuwyr y BBC a'r BBC ei hun. Dylai Bwrdd y BBC sicrhau gwelliannau yma, yn enwedig o ran y newidiadau sydd wedi cael eu cynllunio i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a llywodraethu gweithgareddau masnachol y BBC.



- **Rhaglenni gwreiddiol o'r DU.** Er mwyn parhau i fod yn unigryw yng nghanol cystadleuaeth gref am gynulleidfaoedd, dylai'r BBC gynnal ei ymrwymiad i raglenni gwreiddiol sy'n adlewyrchu lleisiau, bywydau a phrofiadau o'r DU. Yng ngoleuni'r setliad ariannu ar gyfer y cyfnod yma o'r siarter, bydd angen iddo fod yn fwy arloesol a chymryd mwy o risgiau – o ran y math o gynnwys o'r DU y mae'n ei gomisiynu, ond hefyd o ran sut mae'n cael ei wneud, a gyda phwy.




- **Cynrychioli a phortreadu cymdeithas y DU.** Ochr yn ochr â'n hadroddiad blynyddol ar y BBC, roeddem wedi cyhoeddi casgliadau adolygiad o gynrychiolaeth a phortreadu ar Deledu'r BBC. Roeddem wedi siarad â phobl o gefndiroedd amrywiol, ar hyd a lled y wlad, i ddeall i ba raddau roeddent yn teimlo bod y BBC yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU. Er bod gwylwyr wedi dweud wrthym fod y BBC – a theledu yn gyffredinol – yn cynrychioli cymysgedd ehangach o bobl nag oedd yn arfer ei wneud, mae rhai pobl yn dal i deimlo'n llai amlwg, neu'n cael eu portreadu mewn ffyrdd sy'n gul neu'n annilys.



- **Denu pobl ifanc.** Fel y mae'r BBC ei hun yn ei gydnabod, nid yw'n gwneud digon ar hyn o bryd i ennyn diddordeb pobl ifanc, sy'n hanfodol i'w lwyddiant yn y dyfodol. Mae angen iddo fynd i'r afael â'r mater hwn er mwyn sicrhau ei fod yn darparu cynnwys sy'n apelio at bobl ifanc sy'n adlewyrchu eu harferion gwylio a gwrando.

Yn nes ymlaen eleni, byddwn yn cyhoeddi ail adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adolygiad o allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC. Bydd hwn yn edrych ar sut mae'r BBC yn addasu i'r newidiadau mewn amgylchedd newyddion i sicrhau ei fod yn dal yn ffynhonnell ddibynadwy i gynulleidfaoedd.

Byddwn yn edrych ar sut mae'n ceisio darparu amrywiaeth o gynnwys a dadansoddiadau manwl ar draws ei lwyfannau teledu, radio ac ar-lein. Bydd hefyd yn edrych ar sut mae'r BBC yn bod yn ddiduedd, gan gynnwys asesu'r adnoddau a'r technegau y mae'n eu defnyddio i sicrhau didueddrwydd.

## Ymateb Ofcom i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau Blynyddol Corfforaeth Channel 4

Mae'r Channel 4 Corporation (C4C) yn berchen i'r cyhoedd ond yn cael ei ariannu'n fasnachol, ac mae'n gweithredu model dim-er-elw. O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i C4C baratoi Datganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol. Mae'r datganiad yn nodi sut mae C4C wedi cyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar Channel 4 yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2010. Mae C4C yn gallu cyflawni'r dyletswyddau olaf hyn ar draws ei holl wasanaethau (felly, gan gynnwys E4, More4, 4Seven, 4Music, Film4 a'i wasanaeth ar-alw All 4).

O dan ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus, mae'n rhaid i Channel 4 ddangos rhaglenni unigryw, amrywiol ac o ansawdd uchel sy'n arloesol, yn arbrofol ac yn greadigol. Dylai'r rhaglenni hyn apelio at gymdeithas sy'n amrywiol yn ddiwylliannol a dylent gynnwys rhaglenni addysgol. Mae dyletswyddau cynnwys cyfryngau eraill C4C yn cynnwys dangos cynnwys newyddion a materion cyfoes a chynnwys sy'n apelio at blant hŷn ac oedolion ifanc; buddsoddi mewn ffilmiau o ansawdd uchel, gan gynnwys ffilmiau o'r DU; hybu safbwyntiau gwahanol; ac ysgogi dadl. Rhaid i C4C hefyd gefnogi datblygu pobl sydd â doniau creadigol ar ac oddi ar y sgrin.

Wrth baratoi ei ddatganiad, rhaid i C4C ymgynghori ag Ofcom ac ystyried ein canllawiau. Byddwn yn cyhoeddi ymateb bob blwyddyn hefyd, a fydd yn nodi ein safbwyntiau ynghylch i ba raddau y mae C4C wedi cyflawni ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hwn yn fecanwaith pwysig er mwyn sicrhau bod C4C yn cael ei ddal i gyfrif am ei berfformiad.

Roeddem wedi cyhoeddi ein hymateb i ddatganiad C4C ar gyfer 2017/18 ym mis Mehefin 2018. Daethom i'r casgliad, yn gyffredinol, bod C4C wedi perfformio'n dda o ran cyflawni ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau yn 2017 mewn tirwedd sy'n mynd yn fwy ac yn fwy heriol, gyda chyfoeth o ddewisiadau ynghylch sut a phryd caiff cynnwys ei wylio.

Fodd bynnag, roeddem wedi nodi rhai cyfleoedd lle gall C4C wneud mwy:

- roedd rhai o raglenni craidd Channel 4 yn colli gwylwyr a bydd hi'n bwysig i C4C barhau i arloesi a chomisiynu teitlau newydd i helpu i lunio amserlen ar gyfer y dyfodol;
- er bod mwy a mwy yn defnyddio All 4, efallai nad ydy'r twf yma'n cyd-fynd â newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd na thwf ei gystadleuwyr ar-lein, er bod hynny o sylfaen is;
- dylai C4C barhau i arbrofi gyda theitlau addysgol i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed;
- disgynnodd nifer y cynhyrchwyr a oedd yn newydd i C4C yn 2017, a bydd hi'n bwysig ei fod yn parhau i gefnogi nifer ehangach o gynhyrchwyr yn y farchnad; ac
- mae cynulleidfaoedd yn dal i gredu y gallai C4C wneud mwy i gynrychioli ac i bortreadu gwledydd a rhanbarthau'r DU ar y sgrin. Bydd rhoi cynlluniau 4 All the UK C4C ar waith yn llwyddiannus, a fydd yn golygu symud rhai gweithrediadau o Lundain i Leeds, Glasgow a Bryste, yn arbennig o bwysig a gall hyn hefyd helpu i fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn ymysg cynulleidfaoedd.

Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i ddatganiad C4C ar gyfer 2018/19 ym mis Mehefin 2019. Yn yr un modd ag arfer, byddwn yn ystyried sut mae C4C wedi cyflawni ym meysydd amlycaf ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau ac, ar gyfer yr adolygiad hwn, byddwn yn ystyried dyletswyddau C4C yn benodol mewn perthynas â gwneud ffilmiau a chefnogi'r diwydiant ffilmiau yn y DU.

## Adolygiad o'r canllawiau ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol

**Dylai hybu cynhyrchu rhaglenni teledu y tu allan i Lundain helpu i gefnogi ac i ysgogi'r economïau creadigol ar draws y DU.**

Mae hyn yn lledaenu ac yn ysgogi buddsoddiadau a chyfleoedd swyddi i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd hyn. I helpu i hyrwyddo cynyrchiadau teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, mae Ofcom wedi gosod cwotâu ar y BBC, Sianel 3, Channel 4 a Channel 5 i sicrhau bod cyfran addas o'u rhaglenni yn cael eu gwneud yn y DU y tu allan i'r M25 ('cynyrchiadau rhanbarthol').


I'w helpu i gyflawni eu rhwymedigaethau mewn ffordd gyson, rydym wedi cyhoeddi canllawiau, sy'n cynnwys ein diffiniad o gynhyrchiad rhanbarthol. Mae'r meini prawf sy'n diffinio cynhyrchiad rhanbarthol yn seiliedig ar dair elfen graidd wahanol unrhyw gynhyrchiad; lleoliad y cynhyrchiad; cyllideb y cynhyrchiad; a'r talentau oddi ar y sgrin sy'n gweithio ar y cynhyrchiad.

3 elfen graidd unrhyw gynhyrchiad:


LLEOLIAD



CYLLIDEB


TALENT

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi adolygu'r canllawiau i sicrhau eu bod yn effeithiol mewn teledu a thirwedd cynhyrchu sy'n esblygu'n gyflym. Fel rhan o'r adolygiad roeddem wedi cyhoeddi cais am dystiolaeth ym mis Mawrth 2018, a oedd yn chwilio am safbwyntiau ynghylch sut mae'r canllawiau wedi bod yn gweithio. Roeddem hefyd wedi comisiynu gwaith i ddeall perfformiad y sector cynhyrchu yn well yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac roeddem wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy amrywiaeth o gyfarfodydd a gweithdai a gynhaliwyd ar draws y DU.

Canfu'r adolygiad, er bod cefnogaeth gyffredinol yn y diwydiant i ddefnyddio'r canllawiau a sylwedd y tri maen prawf sy'n diffinio cynhyrchiad rhanbarthol, roedd rhai pryderon am sut mae'r canllawiau yn cael eu dehongli ac a ydy arferion yn cyflawni amcan y polisi cyffredinol. Roedd nifer o'r ymatebwyr wedi galw am fwy o eglurder yn y canllawiau i helpu i sicrhau eu bod yn cael eu dehongli a'u defnyddio'n fwy cyson. Roedd ar nifer o randdeiliaid hefyd eisiau gweld mwy o oruchwyliaeth gan y darlledwyr a gan Ofcom i sicrhau bod rhaglenni'n diwallu'r diffiniad yn gywir.

Gan gofio hyn, roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2018 ar newidiadau arfaethedig i'r canllawiau, a'r drefn ehangach. Rydym yn credu y bydd y newidiadau hyn yn cynnig rhagor o gefnogaeth i'r economïau creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae hyn yn cynnwys newidiadau arfaethedig i'r canllawiau a'r meini prawf, ochr yn ochr â gwneud newidiadau i'n prosesau mewnol ein hunain – fel cyflwyno archwiliadau yn y fan a'r lle a chyhoeddi rhagor o wybodaeth am ein proses gwyno. Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth i ni lunio fersiwn terfynol yr adolygiad a'n nod ydy cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol yn 2019.



## Amrywiaeth

Roeddem wedi parhau i ehangu ein rhaglen gynhwysfawr Amrywiaeth mewn Darlledu i gynnwys monitro'r diwydiant radio am y tro cyntaf.

Roeddem wedi cyhoeddi ein hadroddiad Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal yn y Diwydiant Radio cyntaf ym mis Mehefin 2018 ar ôl siarad â rhanddeiliaid y byd radio. Roedd yr adroddiad hwn yn amlygu sut hwyl y mae diwydiant radio'r DU yn ei chael arni hi o ran amrywiaeth yn gyffredinol, a sut mae'n hyrwyddo cynhwysiant yn ei weithlu, a lle mae angen gwneud rhagor o waith. Gwelsom fod angen i ddarlledwyr radio, ac eithrio'r BBC, fonitro eu gweithluoedd yn fwy effeithiol er mwyn dod o hyd i fylchau a gweithredu cynlluniau i sicrhau newid.

Fe wnaethom ysgrifennu at y darlledwyr i asesu eu trefniadau cyfle cyfartal ac i gynnig arweiniad ynghylch lle byddai modd cyflwyno gwelliannau. Nodwyd yn glir gennym y byddwn yn adolygu trefniadau'r darlledwyr yn flynyddol ac yn eu hasesu gan ddefnyddio'r canllawiau rydym wedi'u cyhoeddi. Roeddem hefyd wedi cynnal sesiynau dilynol gyda'r tri phrif ddarlledwr radio a oedd yn rhan o'r adroddiad.

Ym mis Tachwedd 2018 roeddem wedi cynnal ein fforwm Amrywiaeth mewn Radio cyntaf, er mwyn rhannu'r arferion gorau a thrafod heriau wrth sicrhau newid. Roeddem hefyd wedi gweithio gyda sefydliadau fel Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, Radiocentre a'r Radio Academy.

Roeddem hefyd wedi cynyddu ein gwaith monitro ar y diwydiant darlledu teledu.

Ym Mis Mawrth 2018, roeddem wedi cynnal digwyddiad trafod ynghylch symudedd cymdeithasol ar gyfer y pum prif ddarlledwr i hwyluso cydweithio ar symudedd cymdeithasol.

Er nad ydynt yn nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae cyfansoddiad cymdeithasol a chefndir economaidd y gweithlu teledu yn ystyriaethau pwysig ar gyfer ei amrywiaeth. Roedd y sesiwn yn annog y darlledwyr i rannu gwybodaeth am yr hyn y mae eu sefydliadau'n ei wneud am symudedd cymdeithasol ac amrywiaeth, ynghyd â'r hyn sydd ar waith neu ar y gweill o ran ceisio cofnodi a mesur symudedd cymdeithasol eu gweithwyr.

Yn dilyn y sesiwn, fe wnaethom gytuno â'r pum prif ddarlledwr ar gwestiwn[1] y gallai'r diwygiant ofyn i'w weithlu er mwyn mesur yr wybodaeth hon, a byddwn yn monitro hyn yn ein trydydd adroddiad ar deledu.

Rydym yn gweithio gyda'r grŵp polisi elusennol The Bridge Group i gefnogi darlledwyr gyda'u gwaith ar symudedd cymdeithasol ac rydym yn bwriadu cefnogi rhagor o drafodaethau ar hyn cyn cyhoeddi ein trydydd adroddiad.

Er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn cynnal y momentwm i wella ei amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant, roeddem wedi cynnal cyfarfod â phenaethiaid y prif ddarlledwyr yn y DU, a gadeiriwyd gan ein Prif Weithredwr, Sharon White, er mwyn rhannu syniadau a phrofiadau ar y gwaith maent yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater.

[1] Mae'r cwestiwn yn gofyn i'r unigolyn beth oedd swydd ei rieni pan oedd yn 14 oed.

Ym mis Medi 2018, cyhoeddasom ein hail adroddiad Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal yn y Diwydiant Teledu, a oedd yn edrych ar sut mae darlledwyr teledu yn perfformio ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyffredinol. Mae'r canfyddiadau'n taflu goleuni clir ar y cynnydd sydd wedi cael ei wneud ac ar raddfa a natur yr her amrywiaeth, gan ddatgelu pa grwpiau nad ydynt yn dal i gael eu cynrychioli'n ddigonol ar draws darlledwyr teledu mawr.

Roeddem wedi edrych ar wneuthuriad gweithluoedd ar draws rolau gwahanol, y camau sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo cyfle cyfartal a rhai o'r nifer o'r strategaethau sydd wedi cael eu hanelu at wella amrywiaeth.

Gwnaethom ddiweddaru ein canllawiau ar sail canfyddiadau'r adroddiad i helpu darlledwyr i hyrwyddo cyfle cyfartal yn eu sefydliadau. Roedd yr adroddiad yn cydnabod cynnydd darlledwyr o ran dechrau lleihau'r bwlch data ar amrywiaeth, ac yn eu hannog i wella ansawdd eu data a rhoi mwy o ffocws ar feysydd fel cynrychiolaeth gweithwyr anabl.

Roeddem wedi adolygu cyfle cyfartal pob darlledwr ac wedi rhoi asesiad unigol a chanllawiau iddynt am yr hyn yr oedd ei angen i wella'u trefniadau. Nodwyd yn glir gennym ein bod yn disgwyl gweld cynnydd yn nhrefniadau darlledwyr bob blwyddyn ac y byddwn yn parhau i'w hasesu gan ddefnyddio'n canllawiau newydd. Roeddem hefyd wedi cynnal sesiynau yn Birmingham ac yn Llundain i ddarlledwyr a oedd eisiau rhagor o gefnogaeth i wella eu gwaith ar amrywiaeth a chynhwysiant.

Cyn y trydydd adroddiad teledu, sydd i'w gyhoeddi yn 2019, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant a sefydliadau eraill i gael adborth, i rannu arferion gorau ac i drafod mesurau darlledwyr i hyrwyddo cyfle cyfartal ymysg eu gweithwyr. Roeddem wedi cynnal sesiwn i'r pum prif ddarlledwr a chynrychiolwyr o'r diwydiant fel y Ffederasiwn Undebau Adloniant a Directors' UK i drafod sut gellid monitro a chefnogi gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y diwydiant yn well, ar y sgrin ac y tu ôl i'r sgrin.

Rydym am weld y talent gorau a disgleiriaf yn cael gyrfaoedd llwyddiannus yn ein sector creadigol, ni waeth beth yw eu cefndir.

Drwy gyhoeddi ein hadroddiad monitro blynyddol, rydym yn annog darlledwyr i asesu ac i wella'u trefniadau cyfle cyfartal yn rheolaidd.

A thrwy wella'u hamrywiaeth, gall darlledwyr ddarparu cynnwys o'r radd flaenaf a fydd yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU yn well.

_ Rydym am weld y talent gorau a disgleiriaf yn cael gyrfaoedd llwyddiannus yn ein sector creadigol, ni waeth beth yw eu cefndir.

## Adolygiad o'r cynnwys i blant

Mae adolygiad Ofcom o gynnwys i blant yn canolbwyntio ar sut mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU yn darparu amrywiaeth o raglenni i blant ar adeg pan mae mwy a mwy o blant yn gwylio teledu ar-alw ac ar-lein.

Mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni'r dibenion cyhoeddus a bennwyd gan y Senedd Brydeinig, gan gynnwys darparu nifer ac amrywiaeth addas o raglenni gwreiddiol ac o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc.

Roeddem wedi lansio'r adolygiad ym mis Tachwedd 2017, gyda chrynodeb o'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i gynulleidfaoedd iau, ochr yn ochr â sut caiff y cynnwys hwn ei weld a'i werthfawrogi. Roedd hyn yn cyfrannu at ein safbwynt ar ddarpariaeth gyfredol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Ym mis Gorffennaf 2018 roeddem wedi cyhoeddi ein barn a'r camau nesaf. Daethom o hyd i dri maes penodol a oedd yn peri pryder yng nghyswllt lefel y ddarpariaeth rhaglenni i blant ar hyn o bryd, sef:

- diffyg rhaglenni gwreiddiol o ansawdd uchel sy'n cael eu gwneud yn benodol ar gyfer plant hŷn ar draws pob genre rhaglen;
- ystod gyfyngedig o raglenni i blant sy'n helpu plant i ddeall y byd o'u cwmpas; ac
- ystod gyfyngedig o raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel ar gyfer plant sy'n adlewyrchu holl amrywiaeth bywydau plant y DU ar y sgrin.

Roeddem wedi dweud bod angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus adfywio eu dulliau o ran yn hyn maen nhw'n ei gynnig i gynulleidfaoedd ifanc a sut maent yn gwneud hynny. Mae hyn yn golygu creu mwy o raglenni gwreiddiol o'r DU y mae plant yn eu gwerthfawrogi, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r bylchau roeddem wedi'u nodi. Mae darlledwyr mewn safle da i allu ymchwilio i ffyrdd newydd ac arloesol o gyrraedd plant, gan fanteisio ar gyfleoedd gwasanaethau ar y rhyngrwyd, i ddarparu cynnwys maen nhw ei eisiau a'i angen.

Roeddem wedi ysgrifennu at ITV, Channel 4 a Channel 5, yn gofyn iddynt ddatblygu a rhannu eu cynlluniau i fynd i'r afael â'n pryderon. Rydym yn disgwyl iddynt nodi sut byddant yn gwella eu darpariaeth i blant o ran uchelgais creadigol, buddsoddiad a chymysgedd o genres ar draws eu hystod lawn o wasanaethau a llwyfannau, ac yn enwedig nodi sut byddant yn defnyddio'r rhyngrwyd i wneud hyn.

Roeddem hefyd wedi comisiynu ymchwil ansoddol a manwl i lwyfannau ar-lein, gan gynnwys sut mae plant yn dewis rhwng ffynonellau cynnwys, yn ogystal â sut maent yn defnyddio cynnwys ac yn gwneud penderfyniadau yn ei gylch wrth ddefnyddio'r ffynonellau hyn. Roeddem wedi cyhoeddi'r ymchwil yma ym mis Ionawr 2019 ochr yn ochr â'n hadroddiadau blynyddol ar sut mae plant yn gwneud synnwyr o'r cyfryngau. Bydd yr ymchwil newydd yma yn cyfrannu at ein gwaith parhaus, ein trafodaethau gyda darlledwyr, yn ogystal â'n rhaglen ehangach i wneud synnwyr o'r cyfryngau.

Rydym yn parhau ein trafodaethau gyda'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol ac rydym nawr wedi cael eu cynlluniau. Byddwn wedyn yn adrodd ar y cynlluniau hyn ochr yn ochr â'n hadroddiad Cyfryngau'r Genedl nesaf, a gyhoeddir yn ystod haf 2019. Byddwn yn parhau i adolygu cynnwys plant fel rhan o'n dyletswyddau parhaus ac fel rhan o'r broses nesaf o ail drwyddedu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

## BBC Scotland

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd y BBC gynlluniau ar gyfer sianel deledu newydd i'r Alban. Byddai'r sianel yn cynnwys amrywiaeth o raglenni a fyddai'n adlewyrchu bywyd yn yr Alban, gan gynnwys rhaglenni comedi a drama newydd, yn ogystal â rhaglen newyddion awr o hyd bob nos a fyddai'n rhoi sylw i straeon rhyngwladol, o'r DU ac o'r Alban.

Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, gallai newidiadau i wasanaethau'r BBC effeithio'n sylweddol ar y farchnad cyfryngau ehangach. Cyn i'r BBC allu bwrw ymlaen â newid sylweddol i'w wasanaethau, fel lansio sianel newydd, rhaid i Ofcom fod yn fodlon bod y gwerth cyhoeddus arfaethedig a fydd yn cael ei greu yn cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol bosibl ar gystadleuaeth. Roeddem wedi penderfynu ar hyn drwy Asesiad Cystadleuaeth y BBC (BCA).

Yn Asesiad Cystadleuaeth y BBC ar gyfer BBC Scotland, roeddem wedi edrych ar fanteision a risgiau posibl y cynlluniau. Ymysg pethau eraill, mae'r BBC wedi nodi manteision i wylwyr drwy raglenni a darpariaeth newyddion ehangach ar gyfer yr Alban, yn ogystal â'r potensial i wella sector creadigol yr Alban drwy gomisiynau newydd. Roedd ein hasesiad yn ystyried na fyddai'r gwasanaeth a oedd yn cael ei gynnig gan y BBC yn bodoli ar ei ben ei hun. Er y gallai'r BBC gynhyrchu gwerth cyhoeddus mewn rhai meysydd, gallai hefyd ostwng gwerth cyhoeddus mewn eraill – er enghraifft, drwy dynnu gwylwyr neu fuddsoddiad oddi wrth gynnwys a gwasanaethau pwysig eraill.

Roeddem hefyd wedi asesu effaith bosibl cynlluniau'r BBC ar gystadleuaeth. Roeddem wedi edrych ar amrywiaeth o ffactorau fel rhan o hyn. Roedd y rhain yn cynnwys yr effaith y gallai'r sianel ei chael ar ddarlledwyr masnachol cyfredol yn yr Alban, er enghraifft drwy ei gwneud hi'n anoddach neu'n ddrutach iddynt brynu hawliau cynnwys. Roeddem hefyd wedi edrych ar effeithiau posibl cynnig y BBC i gyflogi newyddiadurwyr newydd ac ymestyn y ddarpariaeth newyddion ar bapurau newydd yn yr Alban sydd eisoes yn cystadlu am sylw pobl yn yr Alban.




Er mwyn dod i benderfyniad, roeddem wedi cwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid i ddeall eu pryderon, roeddem wedi comisiynu ymchwil ymysg defnyddwyr ar agweddau tuag at gynigion y BBC, ac roeddem wedi cynnal gwaith modelu manwl i asesu'r effaith bosibl. Roeddem hefyd wedi archwilio ystod o dystiolaeth a gyflwynwyd gan y BBC ac eraill.

Ar ôl yr ymgynghoriad, ym mis Mehefin 2018, cliriodd Ofcom BBC Scotland i'w lansio. Roeddem hefyd wedi cynnig newidiadau i brosesau'r BBC ar gyfer cynigion yn y dyfodol sydd wedi'u dylunio i gynnal hyder a sicrhau tryloywder.

Yn dilyn casgliad ein hasesiad, roeddem wedi cyflwyno cynigion i ddiwygio trwydded weithredu'r BBC er mwyn ystyried y sianel newydd. Ar ôl ymgynghori, gwnaethom gyhoeddi nifer o newidiadau yn nodi sut y byddai rhaglenni ar BBC Scotland a BBC Alba yn cael eu hystyried mewn perthynas â gofynion ehangach y drwydded weithredu. Dechreuodd BBC Scotland ddarlledu ym mis Chwefror 2019.




## Amlygrwydd ar Gyfeirydd Rhaglenni Electronig (EPG) a diweddaru'r cod EPG

Mae'r Senedd Brydeinig yn mynnu y dylai sianeli gwasanaeth cyhoeddus dynodedig gael amlygrwydd priodol yn y 'cyfeiryddion rhaglenni electronig' ar deledu, neu EPGs. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n hawdd i gynulleidfaoedd ddod o hyd i'r gwasanaethau hyn, sy'n hybu rhagor o wylio a mwy o fanteision cyhoeddus. O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n rhaid i Ofcom sefydlu cod ymarfer i ddarparwyr EPG sy'n cynnwys adran ar ganllawiau ar gyfer darparwyr EPG ar amlygrwydd priodol.

Roedd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cyflwyno dyletswydd newydd i ni adrodd ar amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus llinol a gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus fideo ar-alw, ac adolygu ein cod erbyn mis Rhagfyr 2020. Roeddem wedi cyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus llinol a gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2018. Ochr yn ochr â hyn, gwnaethom ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r adran sy'n berthnasol i amlygrwydd o fewn ein Cod EPG.

Gwelsom fod y farchnad yn newid yn gyflym, ac nad ydy gwylwyr yn rhwym wrth yr amserlen teledu llinol mwyach. Roeddem wedi yn gofyn am farn ynghylch yr egwyddorion a'r syniadau a allai fod yn sail i unrhyw newidiadau yn y dyfodol y gallai'r Senedd Brydeinig eu gwneud i'r drefn statudol, er mwyn cynnal amlygrwydd cynnwys a gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn byd ar-lein. Rydym yn bwriadu cyhoeddi canlyniad ein hymgynghoriad ar adran amlygrwydd y Cod EPG ac amlygrwydd mewn byd ar-lein yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.

Mae'r cod EPG hefyd yn cynnwys adran ar hygyrchedd. Ym mis Mehefin 2018, roeddem wedi diwygio'r cod i fynnu bod nodweddion a gwybodaeth yr oedd eu hangen ar gyfer EPGs ar gael i'w defnyddio gan bobl sydd ag anableddau clyw neu olwg.

# Prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd

Mae'r fframwaith ar gyfer sut rydym yn rheoli risgiau ar gael ar dudalennau 81 i 82. Mae wedi cael ei ddylunio i sicrhau bod risgiau'n cael eu cydnabod ar draws y sefydliad a, maes o law, er mwyn cefnogi penderfyniadau effeithlon ac effeithiol ar draws gwaith Ofcom.

Mae polisi rheoli risg Ofcom yn ceisio:

- cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Ofcom drwy gyfrannu gwybodaeth at y broses o wneud penderfyniadau;
- egluro egwyddorion Rheoli Risg yn Ofcom;
- diogelu arian cyhoeddus ac asedau adrannol y mae Ofcom yn gyfrifol amdanynt;
- hyrwyddo diwylliant lle mae derbyn risg priodol yn cael ei annog; a
- gwreiddio rheoli risg ym mhrosesau busnes eraill Ofcom fel sail ar gyfer llywodraethu corfforaethol da.

Mae ein cofrestr risg strategol yn cofnodi'r risgiau a allai roi amcanion Ofcom yn y fantol.

Caiff y gofrestr risg ei threfnu o amgylch pum maes risg, ac mae'r rheini'n cael eu crynhoi yn y tabl canlynol.

| ▪ Prif Risgiau | Camau lliniaru |
|---|---|
| **Caiff y gwaith rheoleiddio ei weld fel rhywbeth sy'n annibynnol, yn ddiduedd ac yn gyson**<br><br>Y risg bod canfyddiad nad ydy Ofcom yn annibynnol, neu nad ydy Ofcom yn dilyn ei gyfarwyddyd ei hun mewn perthynas â'i weithrediadau, amrywiaeth neu ymddygiad cydweithwyr. | - Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â Seneddwyr ar draws y DU, a gyda rhanddeiliaid eraill, er mwyn deall eu sefyllfa a nodi manteision rheoleiddio annibynnol;<br><br>- Rydym yn monitro deddfwriaeth newydd ac yn gweithio gyda'r Llywodraeth i wella cynigion deddfwriaethol a chyflwyno'r achos dros newidiadau lle rydym yn teimlo bod angen gwneud hyn;<br><br>- Rydym yn chwilio am gefnogaeth gan y diwydiant yn gyson o ran gwerth ein hannibyniaeth; |

| Prif Risgiau | Camau lliniaru |
|---|---|
| **Gwell darpariaeth symudol a band eang**<br><br>Y risg nad yw Ofcom yn sicrhau darpariaeth symudol a band eang well i ddefnyddwyr. | - O ran rhwymedigaethau gwasanaeth band eang cyffredinol, rydym wedi dysgu gwersi o brosiectau tebyg;<br>- Rydym yn defnyddio arbenigedd perthnasol ar bob cam o'n proses datblygu polisïau;<br>- I gyd-fynd â strategaeth y Llywodraeth i ddarparu band eang cyflym iawn a rhwydweithiau ffeibr-llawn lleol, rydym yn parhau i siarad â Building Digital UK (BDUK), rhan o'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS); rhaglenni cyflwyno ffeibr y gwledydd gwahanol; a'r Adolygiad o Seilwaith Telegyfathrebiadau ar gyfer y Dyfodol (FTIR) fel rhan o Strategaeth Ddiwydiannol y Llywodraeth; |
| **Tegwch i gwsmeriaid**<br><br>Y risg nad yw Ofcom yn sicrhau tegwch i gwsmeriaid. | - Rydym wedi ymgynghori ynghylch atebion i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael bargen deg am eu gwasanaethau cyfathrebu a'r cyngor gorau ynghylch prisiau ac rydym yn parhau i weithio ar yr atebion hynny. Mae'r rhain wedi cael eu dylunio i gael yr effaith fwyaf a mwyaf effeithiol i ddefnyddwyr;<br>- Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) a chyrff perthnasol eraill sy'n agos at y maes hwn, gan gynnwys y Llywodraeth a grwpiau defnyddwyr. |

| Prif Risgiau | Camau lliniaru |
|---|---|
| **Rhaglenni mawr**<br><br>Y risg nad yw Ofcom yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr, yn defnyddio sbectrwm radio'n effeithlon neu 'n sicrhau rhaglenni o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd teledu a radio. | - Rydym yn mynd ati'n weithredol ac yn fanwl i fonitro cydymffurfiad BT ac Openreach i ddarparu rhwydwaith gwell gyda gwell gwasanaeth i gwsmeriaid;<br><br>- Rydym wedi parhau i ymgynghori â rhanddeiliaid i ddeall eu pryderon, ac i gynnal ymchwil i'r farchnad a llunio rhagolygon i asesu'r patrymau a datblygiadau'r farchnad;<br><br>- Yn dilyn ymgynghoriad ynghylch polisi'r arwerthiant ar gyfer dyfarnu 700MHz a 3.6-3.8GHz, rydym yn adolygu'r cynllun cyflawni ac ymatebion rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod penderfyniadau polisi yn cyd-fynd ac er mwyn symud ymlaen â sicrhau bod sbectrwm ar gael;<br><br>- Yn ystod y flwyddyn, roeddem wedi rhyddhau nifer o ymgyngoriadau, datganiadau a chyfathrebiadau eraill a oedd yn ymwneud â'n gwaith gyda'r BBC, ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid a'r diwydiant. Rydym yn defnyddio ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth er mwyn deall cynlluniau'r BBC a'i goblygiadau strategol;<br><br>- Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth, gan ddarparu cyngor technegol i helpu i sicrhau bod fframwaith deddfwriaethol domestig a chydlynol ynghylch Brexit. Roeddem hefyd wedi cwblhau'r paratoadau angenrheidiol i sicrhau parhad busnes mewnol mewn sefyllfaoedd gwahanol. |
| **Pobl**<br><br>Y risg na all Ofcom recriwtio a dal gafael ar bobl ddawnus i gyflawni ar draws briff eang. | - Rydym yn datblygu Strategaeth Pobl a chynllun Gweithlu Strategol i gydnabod gofynion y sefydliad wrth symud ymlaen.<br><br>- Mae adolygiad mewnol yn cael ei gynnal o'n sgiliau a'n doniau strategol ar hyn o bryd, ac rydym yn datblygu cynllun datblygu sgiliau arbenigol. |

# Gwaith yn y gwledydd a'n hymgysylltiad rhyngwladol



## Ein gwaith yng ngwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig

Rydym yn gweithio i sicrhau bod pobl ar draws y DU yn cael y gorau gan eu gwasanaethau cyfathrebu a'u bod yn cael eu diogelu rhag arferion busnes a allai achosi niwed iddynt, ar yr un pryd â galluogi cystadleuaeth ac arloesedd i ffynnu. Er mwyn gwneud hyn yn dda, mae'n rhaid i ni ystyried bod y DU yn cynnwys gwledydd, diwylliannau, dwyseddau poblogaeth a thirweddau gwahanol.

Er enghraifft, rydym yn cydnabod bod darparu gwasanaethau band eang sefydlog, symudol a phost sy'n diwallu anghenion pobl mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn dal yn sialens. Mae gan Gymru, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a rhai o ranbarthau Lloegr gyfran uchel o'r ardaloedd anghysbell hyn. Mewn rhan arall o waith Ofcom, mae angen i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus adlewyrchu diwylliannau gwahanol, ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae safbwyntiau, diddordebau ac anghenion pobl ledled y DU yn bwysig i ni. Mae ein swyddfeydd ym mhob un o wledydd y DU yn caniatáu i ni ymgysylltu'n uniongyrchol â llywodraethau, cynrychiolwyr etholedig a rhanddeiliaid lleol. Mae gennym Bwyllgorau Cynghori statudol ar gyfer pob gwlad, ac mae aelodau'r Bwrdd ar gyfer Cymru a'r Alban wedi cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn y drefn honno, mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd Gwladol y DU. Rydym yn gobeithio penodi aelod Bwrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon maes o law. Mae ein Bwrdd Cynnwys a'n Paneli Defnyddwyr hefyd yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli pob gwlad.

Er bod llawer o waith Ofcom yn effeithio ar bobl ar draws y DU, mae'r adran hon yn cyfeirio at waith penodol rydym wedi'i wneud ymhob un o wledydd y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal â'r gweithgarwch a nodir yma, rydym wedi cyhoeddi adroddiadau *Cyfryngau'r Gwledydd* a *Chysylltu'r Gwledydd* arbennig.

## Gogledd Iwerddon

Mae ffin Gogledd Iwerddon â Gweriniaeth Iwerddon yn peri heriau unigryw, gyda nifer o wasanaethau ar gael yn y naill awdurdodaeth a'r llall. Wrth i'r DU baratoi i adael yr UE, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon, ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon, yn ogystal â gyda'r Llywodraeth a phrif gwmnïau'r diwydiant. Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ddiogelu gwasanaethau ar draws y ffin a diogelu defnyddwyr rhag niwed. Ar y pwynt cyntaf, rydym yn gweithio i sicrhau bod sianeli teledu Gweriniaeth Iwerddon yn dal ar gael yn eang yng Ngogledd Iwerddon. Ar yr ail bwynt, rydym yn gweithio i atal y posibilrwydd y gallai crwydro symudol anfwriadol effeithio ar bobl sy'n byw neu'n gweithio'n agos at y ffin.

Roeddem wedi croesawu penderfyniad BT Group (Awst 2018) i ail frandio ei gangen rhwydwaith yng Ngogledd Iwerddon fel Openreach Northern Ireland, a'i symud o dan adain Openreach ar yr un pryd â pharhau i reoli'r rhwydwaith yn lleol. Rydym yn credu bod hyn wedi helpu i fynd i'r afael â phryderon yn y diwydiant yn lleol ac y bydd yn caniatáu i Ogledd Iwerddon elwa'n llawn o fuddsoddiadau mewn ffeibr-llawn yn y dyfodol.

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi cynnig cyngor rheoleiddiol a thechnegol i Adran Economi Gogledd Iwerddon, yn enwedig i gefnogi ei fwriad i fuddsoddi arian cyhoeddus mewn band eang cyflym iawn a gwibgyswllt o dan y broses caffael 'Project Stratum'.

## Yr Alban

Mae ein swyddfa yng Nghaeredin wedi parhau i dyfu, ac mae bellach yn cynnwys 39 o gydweithwyr o bob rhan o Grwpiau a disgyblaethau Ofcom. Mae ein presenoldeb yno bellach oddeutu bedair gwaith yn fwy nag ydoedd adeg creu Ofcom. Mae hyn wedi cynyddu ein gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac wedi helpu i sicrhau bod amrywiaeth ddaearyddol y DU yn cael ei hadlewyrchu yn ein gweithlu a'n rhaglen waith.

Gyda golwg ar ddarlledu (ac fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn) rydym wedi cymeradwyo lansio sianel deledu BBC newydd ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban, ar ôl ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliai. Yn ystod 2018 a dechrau 2019, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ynghylch ein Hadolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol ar gyfer y Teledu i gydnabod bod cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau'n rhan hollbwysig o'r sector cynhyrchu yn y DU, gan gyfri am bron i hanner yr holl oriau cymwys gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Ym mis Tachwedd 2018, roeddem wedi cyhoeddi penodi Allan MacDonald yn Gadeirydd newydd MG ALBA, y corff sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhaglenni teledu o ansawdd uchel mewn Gaeleg ar gael i bobl yn yr Alban. Cafodd y penodiad ei gymeradwyo gan Weinidogion yr Alban ar ôl proses recriwtio agored.

Gyda golwg ar delegyfathrebiadau, rydym wedi ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth yr Alban ynghylch ein meysydd gwaith blaenoriaeth fel mesurau i wella darpariaeth symudol wledig a gweithredu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Band Eang Cyffredinol. Mae hyn wedi cynnwys darparu cyngor technegol a rheoleiddiol, yn ogystal â data am ddarpariaeth (pan fo'n briodol) i helpu Llywodraeth yr Alban gyda'i chynlluniau ei hun sydd wedi'u hanelu at roi hwb i gysylltedd gwledig; Rhaglen Mewnlenwi 4G yr Alban a'r rhaglen Reaching 100%.

Drwy gydol y flwyddyn roeddem hefyd wedi gweithio yn ôl naws a geiriad ein *Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban*, gan roi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i Bwyllgor Materion yr Alban Senedd y DU a phwyllgorau Economi Wledig a Chysylltedd a Diwylliant, Twristiaeth, Materion Ewropeaidd ac Allanol Senedd yr Alban ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â thelegyfathrebiadau a darlledu. Rydym hefyd wedi parhau i weithredu fel Ysgrifennydd Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Gyfranogiad Digidol.

## Cymru

Mae tîm Ofcom yng Nghymru wedi parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid gwleidyddol a rhanddeiliaid yn y diwydiant ac mae wedi cynnal ei berthynas barhaus â Llywodraeth Cymru, gan ddarparu cyngor a gwybodaeth ddiweddar ar yr holl feysydd pwnc perthnasol.

Cafodd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ofcom, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ei lofnodi ym mis Gorffennaf 2018, ac roedd yn braenaru'r tir ar gyfer penodi David Jones yn Aelod Bwrdd cyntaf Ofcom ar gyfer Cymru. Roedd Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau'r penodiad ar 9 Ebrill 2019, ar ôl ymgynghori ag Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Rydym wedi bod mewn cysylltiad â S4C ynghylch gweithredu argymhelliad Adolygiad Annibynnol Llywodraeth y DU o *S4C 'Creu S4C ar gyfer y Dyfodol'*, ar egluro ein cyfrifoldebau rheoleiddio perthnasol yn well i randdeiliaid. Roedd S4C a ninnau'n cytuno y byddem yn cyhoeddi testun ar ein gwefannau i nodi'r cyfrifoldebau rheoleiddio dros S4C sydd gan Ofcom o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, a Deddf Darlledu 1990. Roeddem wedi ysgrifennu at S4C ddechrau mis Mai a bydd y llythyr hefyd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefannau.

Roeddem wedi cyflwyno ein hadroddiad blynyddol cyntaf i Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd. Roedd yr adroddiad yn atgyfnerthu ymrwymiad Ofcom i'r Gymraeg ac yn tynnu sylw at ein ffordd greadigol o weithio drwy'r Gymraeg a gyda'r Gymraeg bob dydd.

## Lloegr

Roedd ein hadolygiad o gynrychiolaeth a phortreadu ar Deledu'r BBC, a ddisgrifiwyd yn gynhyarach yn yr adroddiad hwn, yn edrych i ba raddau roedd pobl yn teimlo bod y BBC yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU, gan gynnwys nifer o gymunedau gwahanol ar draws Lloegr. Wrth gynnal yr ymchwil a oedd yn cyfrannu at yr adolygiad hwn, roeddem wedi siarad â phobl o gefndiroedd gwahanol ar hyd a lled y wlad. Cafodd grwpiau ffocws eu cynnal yn Birmingham, Bryste, Caerwysg, Caerlŷr, Lerpwl, Llundain, Nottingham a Wetherby gan Kantar Media, asiantaeth ymchwil marchnad annibynnol. Roeddent wedi siarad â phobl o amrywiaeth o gymunedau trefol a gwledig. Fe glywsom fod barn gyffredinol bod y BBC yn canolbwyntio ar Lundain a De Ddwyrain Lloegr ar draul ardaloedd eraill o'r DU, a bod rhai pobl yn teimlo bod darlledwyr fel y BBC yn anwybyddu nifer o ranbarthau Lloegr ac yn tangynrychioli rhai ardaloedd mawr fel Canolbarth Lloegr, gan ganolbwyntio ar Lundain.

Rydym wedi bod yn adolygu sut mae trefn Ofcom i gryfhau ac i gefnogi cynyrchiadau rhanbarthol – sy'n cael ei galw yn Gwnaed y Tu Allan i Lundain – yn gweithio'n ymarferol.

Mae cynhyrchu rhaglenni teledu y tu allan i Lundain yn rhan hollbwysig o'r sector cynhyrchu teledu yn y DU. Mae'n helpu i wasgaru ac i ysgogi buddsoddiadau a chyfleoedd swyddi yn y sector ar draws y DU. Mae hefyd o fudd i wylwyr drwy sicrhau amrywiaeth eang o raglenni a safbwyntiau golygyddol. Fel rhan o'r adolygiad, rydym wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws Lloegr i ddeall mwy am gyflwr y sector cynhyrchu rhanbarthol, a sut gallwn sicrhau bod y drefn yn gweithio'n effeithiol. Yn ogystal â chyfarfodydd ad-hoc, rydym wedi cynnal rhagor o weithdai yn Llundain a Manceinion gyda chynhyrchwyr, gweithwyr llawrydd, grwpiau o'r diwydiant a darlledwyr. Yn y cyfarfodydd hyn, roeddem wedi edrych yn fanylach ar rai o'r materion a nodwyd mewn ymatebion i'r cais am dystiolaeth.

Cyhoeddodd Corfforaeth Channel 4 (C4C) ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol ar gyfer 2017/18. Gwnaethom gyhoeddi ein hymateb i hwn ym mis Mehefin 2018. Mae cynulleidfaoedd yn dal i gredu y gallai C4C wneud mwy i gynrychioli ac i bortreadu gwledydd a rhanbarthau'r DU ar y sgrin. Bydd rhoi cynlluniau 4 All the UK C4C ar waith yn llwyddiannus, a fydd yn golygu symud rhai gweithrediadau o Lundain i Leeds, i Glasgow

ac i Fryste, yn arbennig o bwysig a gall hefyd helpu i fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn ymysg cynulleidfaoedd.

Bydd ein gwaith ar gysylltedd o fudd i nifer sylweddol o ddefnyddwyr sy'n byw yn ardaloedd gwledig Lloegr. Yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd ar gyfer Lloegr, roeddem yn nodi bod bron i hanner miliwn o eiddo yn Lloegr sy'n dal heb fynediad at fand eang teilwng a bod 18,000 eiddo nad oes ganddynt naill ai fand eang sefydlog teilwng neu ddarpariaeth symudol 4G dan do. Roedd darlun mwy lleol ar gael drwy'r data rhyngweithiol sydd ar gael ar ein gwefan ac mae modd ei lwytho i lawr oddi yno, gan gynnwys yn ôl awdurdod lleol ac etholaeth.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, y llynedd, gosododd y Llywodraeth ddeddfwriaeth a oedd yn rhoi'r hawl gyfreithiol i bawb yn y DU ofyn am gysylltiad band eang teilwng. Yn dilyn hyn, fe wnaethom gynnig y dylid dynodi BT a KCOM yn Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol a'n bod ni'n disgwyl y bydd pobl yn gallu gofyn am y cysylltiadau band eang hyn o 2020 ymlaen. Rydym yn gweithio i helpu i gyflwyno'r gwasanaeth cyffredinol mor gyflym ag sy'n bosibl. Yn y cyfamser, mae'r ymgyrch Y Gorau o'ch Gwesanaeth a lansiwyd ym mis Rhagfyr yn annog defnyddwyr i wirio os ydynt ar y fargen band eang orau – a gweld a allent gael mwy allan o'u band eang am bris is. Cafodd yr ymgyrch hon lawer o gyhoeddusrwydd ar deledu lleol ac ar radio lleol, yn ogystal ag ar y cyfryngau cymdeithasol. Mewn digwyddiad rhyngweithiol yn y Senedd Brydeinig, roeddem wedi darparu gwybodaeth am yr ymgyrch i ASau, gan gynnwys data penodol am eu hetholaethau.

## Ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol

Mae Ofcom yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu rhyngwladol er mwyn helpu i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb yn y DU. Rydym bob amser wedi ceisio cyfrannu at ddadleuon rhyngwladol ar bolisi a deddfwriaeth, a chael deialog reolaidd â'n cymheiriaid, yn ogystal ag â sefydliadau Ewropeaidd a rhyngwladol.

Rydym hefyd yn ceisio dysgu oddi wrth ein cymheiriaid dramor, er mwyn rhannu profiadau rheoleiddio ac arferion da â nhw, ac er mwyn monitro datblygiadau rhyngwladol i helpu i gyfrannu at ein gwaith polisi. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn mynychu cyfarfodydd rheoleiddio a rhynglywodraethol yn ogystal â digwyddiadau rhyngwladol. Rydym hefyd yn croesawu dirprwyaethau o bob rhan o'r byd er mwyn gallu cyfnewid barn am bynciau sy'n amrywio o werthu sbectrwm i reoleiddio cynnwys ar-lein, a hyrwyddo buddsoddiad mewn seilwaith telegyfathrebu.

Eleni, rydym wedi parhau â'n gwaith yn cefnogi'r Llywodraeth i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr a dinasyddion yn y DU yn parhau wrth galon newidiadau deddfwriaethol, yn benodol yng nghyd-destun yr adolygiadau o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD) a'r Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig (sydd wedi cael ei ailenwi yn Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd neu EECC).

Rydym yn cymryd rhan weithredol mewn amrywiol ddadleuon yn ystod trafodaethau'r EECC. Mae'r rhain yn cynnwys hybu cystadleuaeth a buddsoddiad, ymgorffori chwaraewyr 'drwy fand eang' newydd yn y fframwaith rheoleiddio, a'r dull gweithredu ar gyfer cydlynu'r gwaith o reoli sbectrwm yn Ewropeaidd. Cafodd testun terfynol yr EECC ei fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r Llywodraeth nawr wedi dechrau ar y broses o drawsosod ei darpariaethau i gyfraith y DU. Yn ystod y broses hon, rydym yn disgwyl y byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth ar feysydd sy'n berthnasol i waith Ofcom, ac yn ystyried yr angen i ni ddiweddaru ein Hamodau Cyffredinol. Cyhyd ag y bo'n briodol, byddwn yn dal yn ymwneud â gwaith y Corff ar gyfer Rheoleiddwyr Cyfathrebu Electronig Ewrop (BEREC), gan gynnwys datblygu ei Ganllawiau ar ddarpariaethau'r EECC a'u rhoi ar waith. Yn ystod y flwyddyn galendr 2018, roeddem hefyd wedi cyd-gadeirio Gweithgor Arbenigol (EWG) Atebion BEREC.

Roeddem yn chwarae rhan debyg yn ystod y trafodaethau AVMSD. Roeddem wedi cadeirio gweithgor o'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol (ERGA) yn cynghori ynghylch cynigion y Comisiwn. Yn y rôl hon, roeddem wedi cefnogi dadleuon ar gyfer rheoleiddio cymesur ac ymarferol sy'n helpu i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol ar yr un pryd â pharhau i hybu'r gwaith o gynhyrchu cynnwys arloesol o ansawdd uchel. A'r Gyfarwyddeb newydd bellach wedi cael ei mabwysiadu, byddwn yn parhau cyhyd ag sy'n briodol i gynnig mewnbwn uniongyrchol ar lefel yr UE ynghylch gweithredu.

Y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd, roeddem wedi cymryd rhan mewn nifer o gynadleddau rhyngwladol ar luosogrwydd yn y cyfryngau, rhyddid o'r cyfryngau, a gwneud synnwyr o'r cyfryngau, ac mewn gweithgor Cyngor Ewrop ar gynaliadwyedd newyddiaduraeth o ansawdd. Ym mis Mai 2018, cafodd Ofcom ei ethol ar Fwrdd y Llwyfan Ewropeaidd o Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA), sy'n dod â 53 o reoleiddwyr darlledu Ewropeaidd at ei gilydd.

Mae Ofcom hefyd yn cymryd rhan yng ngwaith Cyfarwyddiaeth Gwyddoniaeth, Technoleg a Diwydiant y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac mae'n is-Gadeirydd ar y Pwyllgor Polisi Gwasanaethau, Cyfathrebu a Seilwaith (CISP). Mae gan y Pwyllgor hwn fandad eang, gan gynnwys datblygiadau ac effeithiau economaidd yn y sector cyfathrebu byd-eang, a datblygiadau technolegol fel 5G a niwtraliaeth y rhyngrwyd. Eleni roeddem hefyd wedi cyfrannu at astudiaeth a gomisiynwyd gan y Llywodraeth gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ynghylch sut mae rheoleiddwyr yn cydweithredu yn rhyngwladol.

Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU ar nifer o bwyllgorau Ewropeaidd a rhyngwladol sy'n rhoi sylw i bolisi sbectrwm. Mae hyn yn cynnwys Grŵp Polisi Sbectrwm Radio'r UE (RSPG), lle'r ydym wedi bod yn cyd-arwain y gwaith ar ddatblygu Strategaeth Sbectrwm Ewropeaidd, ac ar rannu profiadau a'r arferion gorau drwy adolygu dyfarnu sbectrwm unigol gan gymheiriaid.

Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU ym Mhwyllgor Sbectrwm Radio'r UE (RSC), sydd wedi cynhyrchu amodau technegol i alluogi defnyddio sbectrwm yn gyson ar gyfer gwasanaethau a rhaglenni ar draws Ewrop, gan gynnwys ar gyfer band eang symudol a chynnyrch a dyfeisiau eraill defnyddwyr. Mae'r penderfyniadau technegol hyn yn seiliedig ar waith sydd wedi cael ei wneud yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu (CEPT), y mae Ofcom yn cymryd rhan weithredol ynddi, a lle'r ydym yn cymryd rhan yn y paratoadau Ewropeaidd ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd a gynhelir ym mis Hydref/Tachwedd 2019. Mae Ofcom yn cadeirio nifer o grwpiau a phwyllgorau CEPT, gan gynnwys y Pwyllgor Cyfathrebiadau Electronig (ECC), ac rydym wedi bod yn cadeirio'r pwyllgor hwn ers mis Hydref 2018.

Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU yn yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU), sy'n gweithio i ddarparu fframwaith byd-eang ar gyfer telegyfathrebiadau (gan gynnwys safoni a datblygu) a defnyddio sbectrwm. Roeddem wedi chwarae rhan fawr yn y ddirprwyaeth o'r DU a arweiniwyd gan y Llywodraeth ac a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid o'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill, yng Nghynhadledd Plenipotenswyr yr ITU ym mis Hydref / Tachwedd 2018. Yma roedd y DU wedi sicrhau bod Malcolm Johnson wedi cael ei ail-ethol yn Ddirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol yr ITU, a chyflawnodd nifer o ganlyniadau polisi llwyddiannus.

Gwnaethom gyfrannu hefyd at gyrff post Ewropeaidd a rhyngwladol, a gweithio'n agos gyda chyd reoleiddwyr, yn fwyaf diweddar ar faterion yn ymwneud â dosbarthu parseli ar draws ffiniau a chyfrifyddu costau.

## Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Wrth i'r DU baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd, byddwn yn parhau i gynghori'r Llywodraeth ynghylch y goblygiadau i'r sector cyfathrebiadau. Byddwn hefyd yn ceisio parhau â'n gwaith yn ymgysylltu â sefydliadau Ewropeaidd a rhyngwladol.

# Sut rydym yn gweithio a chyda phwy rydym yn gweithio

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

### Defnyddwyr a dinasyddion

Mae deall diddordebau ac ymddygiad defnyddwyr a dinasyddion yn hanfodol i'n gwaith. Mae Ofcom yn defnyddio ymchwil marchnad yn helaeth i ddeall tueddiadau sy'n ymwneud â'r nifer sy'n prynu ac yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ac ymddygiad a phryderon defnyddwyr. Mae ein hadroddiad blynyddol ar y Farchnad Gyfathrebiadau a'r adroddiadau ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, yn benodol, yn dangos ac yn dadansoddi'r tueddiadau hyn.

Derbyniodd Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom oddeutu 96,000 o alwadau, ffurflenni gwe, negeseuon e-bost a llythyrau yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr yn 2018/19, ac mae'r wybodaeth a gawn gan ddefnyddwyr yn ein helpu i dargedu ein polisïau a'n gwaith gorfodi. Mae defnyddwyr hefyd yn cysylltu â ni drwy ein gwefan. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telegyfathrebu, rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Ond, rydym yn delio â chwynion am raglenni teledu a radio.

Mae ein swyddfeydd ymhob gwlad yn y DU yn rhoi gwybodaeth fanwl ac arbenigol i Ofcom am yr heriau penodol a wynebir gan ddinasyddion a defnyddwyr yng ngwahanol ardaloedd y DU. Mae ein pwyllgorau cynghori ar gyfer pob un o wledydd y DU yn cynnig gwybodaeth a chyngor i Ofcom ar agweddau ar ei waith, a chyfathrebiadau yn gyffredinol, sydd o bwysigrwydd penodol i bob gwlad. Mae buddiannau cenedlaethol hefyd yn cael eu cynrychioli gan Aelodau Bwrdd Cynnwys a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom. Mae'r Fforwm Defnyddwyr ar Gyfathrebiadau, sy'n cynnwys dros 50 o aelodau o gyrff defnyddwyr, yn cwrdd bob chwarter ag Ofcom i drafod testunau polisi sy'n berthnasol i ddefnyddwyr. Rydym hefyd yn cael cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda sefydliadau rhanddeiliaid a defnyddwyr, yn ogystal â chyfarfodydd ymgynghori ar destunau penodol.

### Diwydiant a'r Llywodraeth

Mae Ofcom yn ymwneud ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a chyrff y diwydiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, grwpiau defnyddwyr a defnyddwyr, Llywodraeth y DU a'r sefydliadau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn aelodau o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU a Rhwydwaith Cystadleuaeth y DU, ac rydym mewn cysylltiad ag amryw o gyrff rheoleiddio a chyrff rhyngwladol.

Mae gennym ddyletswydd statudol i sicrhau bod ei benderfyniadau'n ystyried safbwyntiau a buddiannau'r rheini sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae ein gweithrediadau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan uwch gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Llundain, Caeredin a Belfast. Maent yn gweithio i sicrhau bod barn, anghenion ac amgylchiadau arbennig y gwledydd yn cael sylw uniongyrchol gan Ofcom. Mae ein pwyllgorau cynghori ar gyfer pob un o'r gwledydd hefyd yn darparu cyngor am ddiddordebau a safbwyntiau'r gwledydd a'r rhanbarthau am yr holl faterion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau.

## Cyd-reoleiddwyr a chyrff eraill

Mae gan Ofcom bartneriaeth gyd-reoleiddio gyda'r ASA (Awdurdod Safonau Hysbysebu), a ffurfiwyd yn 2004. Mae'n delio â darlledwyr a hysbysebu ar wasanaethau fideo ar-alw. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r codau hysbysebu o dan eu trwyddedau darlledu a roddir gan Ofcom. Pan fydd yr ASA yn dyfarnu ar hysbyseb, bydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r penderfyniadau ar unwaith o dan amodau eu trwyddedau. Pan fydd angen, mae'r ASA yn gallu cyfeirio trwyddedeion at Ofcom.

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm, sy'n galluogi defnyddwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau drwy godi'r gost ar eu biliau ffôn a'u cyfrifon talu ymlaen llaw. Yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffon (y PSA) sy'n rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm o ddydd i ddydd ar ran Ofcom drwy ei waith yn gorfodi cod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom.

Mae gan y CMA (yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) bwerau cydredol o dan ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr benodol ac o fewn fframwaith y gyfraith cystadleuaeth ar gyfer y sector cyfathrebiadau. Rydym yn gweithio gyda'r CMA i sicrhau y gweithredir yn gyson ac yn gydgysylltiedig mewn perthynas â'r materion lle mae gennym bwerau cydredol ac rydym yn trafod pa gorff sydd yn y sefyllfa orau i arwain ymhob achos.

## Pryd byddwn yn rheoleiddio

Yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 mae'n rhaid inni ystyried egwyddorion rheoleiddio gwell: y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson a dim ond wedi ei dargedu at achosion lle mae angen gweithredu yn eu cylch. Pan sefydlwyd Ofcom, buom yn ehangu'r egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion rheoleiddio a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Am fod y sector cyfathrebu'n newid mor gyflym mae'n bwysig iawn fod gennym egwyddorion clir i'n tywys.

## Egwyddorion rheoleiddio Ofcom

### Pryd byddwn yn rheoleiddio

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen. Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

### Sut rydym yn rheoleiddio

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ei amcanion. Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw wrth eu hystyried ac o ran canlyniadau. Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fydd wedi'i fynegi'n glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus, ynghyd ag amcanion penodedig.

### Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio

Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol. Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

## Lleihau rheoleiddio

Mae Ofcom yn canolbwyntio ar leihau rheoleiddio lle bo hynny'n briodol. Rydym yn credu bod 'rheoleiddio gwell' yn golygu sicrhau bod rheolau'n cael eu targedu'n briodol, ac nad ydynt yn gosod beichiau gormodol ar randdeiliaid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig, ond roedd nifer y dogfennau a gafodd eu cyhoeddi yn weddol debyg. Mae Ffigur [3] yn rhoi trosolwg o'r ffordd y newidiodd y baich rheoleiddio ar randdeiliaid o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn 2018/19.

**Ffigur 1: Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid: 2018/19**

O'r 40 Prif Ddatganiad a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn:

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd | 7 | 18% |
| Cymysg/dim newid/parhaus | 24 | 60% |
| Llai o reoleiddio | 5 | 13% |
| Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | 4 | 10% |

Mae trosolwg o'r datganiadau a'r penderfyniadau allweddol rydym wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ar gael yn yr Atodiad ar dudalennau  144 i 147.

## Ymgynghoriadau

Drwy ymgyngoriadau cyhoeddus, mae rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau ar ein cynigion, ac ymateb iddynt,  cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau terfynol.

Os bydd cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghoriad, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth hyn. Yn gyffredinol, ceir tri chategori o ymgynghoriad:

- **Categori 1:** ymgyngoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi o bwys a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o randdeiliaid (yn enwedig y rheini y bydd angen mwy o amser arnynt efallai ar gyfer ymateb); yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am ddeg wythnos.
- **Categori 2:** ymgyngoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig ond a fydd o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o randdeiliaid a fydd yn ymwybodol o'r materion; yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am chwe wythnos.
- **Categori 3:** ymgyngoriadau sy'n dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol, gyda'r cyfnod arferol ar gyfer ymgynghori yn fis:
    - materion technegol;
    - lle bydd angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle mae gofyn cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;
    - lle mae'r mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad;
    - lle na chaiff y cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu
    - lle nad yw'r cynnig ond yn fân newid i bolisi neu reoliad sy'n bodoli eisoes.

Mae ffigur 2 yn cynnwys dadansoddiad o hyd ein hymgyngoriadau fesul sector fel y pennwyd gan ein categorïau o ymgynghoriadau.

Ffigur 2: Dadansoddiad o hyd ymgyngoriadau: 2018/19

**DADANSODDIAD O HYD YMGYNGORIADAU 2018/19**

| | Cyfnod ymgynghori o leiaf 10 wythnos o hyd | Cyfnod ymgynghori llai na 10 wythnos (gan gynnwys ymgyngoriadau categori 2 a chategori 3) |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 6 | 7 |
| Darlledu | 3 | 15 |
| Sbectrwm | 5 | 7 |
| Post | 2 | 0 |
| **Cyfanswm** | 16 | 29 |
| | **(=36%)** | **(=64%)** |
| | **(Yn 2017/18 22%)** | **(Yn 2017/18 78%)** |

## Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben. Yn 2018/19, cyhoeddwyd dros 87% o'n penderfyniadau cyn pen ugain wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad, y rhan fwyaf ohonynt cyn pen deg wythnos.

## Asesiadau effaith

Mae asesiadau effaith yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnal asesiad effaith pan rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Mae asesiadau effaith yn sicrhau, ymysg pethau eraill, ac yng nghyswllt ein penderfyniadau:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posibl pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus; a
- bod y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ddewisir.

Rhaid i ni gyhoeddi rhestr o'r asesiadau effaith sydd wedi cael eu cynnal gennym yn ystod y flwyddyn. Mae hon yn ymddangos yn yr Atodiad ar dudalennau 146 a 147.

Ffigur 3: Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd

**Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd**

| Nifer y dogfennau ymgynghori | Cyfanswm | Asesiad Effaith yn rhan o'r ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 13 | 8 |
| Darlledu | 18 | 9 |
| Sbectrwm | 12 | 8 |
| Post | 2 | 2 |
| Arall | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **45** | **27 (60%)** |

Ym mis Gorffennaf 2005, gwnaethom gyhoeddi'r canllawiau: *Arferion gorau wrth lunio polisïau: dull Ofcom o asesu effaith*, a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses llunio polisïau gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal asesiadau effaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi.

Dengys Ffigur 3 fod 60% o ymgyngoriadau yn 2018/19 wedi cynnal asesiad effaith, a oedd wedi'i osod mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori. Dan rai amgylchiadau efallai na fydd cynnal asesiad effaith yn ofynnol, neu efallai na fydd yn briodol, neu efallai ei fod yn ymhlyg yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.

# Adolygiad Ariannol

**Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian**

Roeddem wedi pennu cyllideb o £124.2m yn 2018/19 (i fyny o £121.4m yn 2017/18 i adlewyrchu ein cylch gwaith cynyddol ar y rhwymedigaeth gwasanaeth band eang cyffredinol (USO) a dechrau ein gwaith i weithredu'r Rheoliadau Rhwydweithiau a Systemau Gwybodaeth (NIS). Ar sail debyg am debyg mae'r gyllideb hon yn parhau i adeiladu ar enw da Ofcom am gyflawni arbedion effeithlonrwydd.

Mae Ofcom bellach wedi sicrhau arbedion cyllidebol am 14 mlynedd yn olynol mewn termau real, ac rydym yn parhau i gymryd camau pendant i leihau ein gorbenion gweinyddol a sefydlog i 2019/20 a'r tu hwnt.

Drwy fabwysiadu ffordd ystwyth o weithio, roeddem wedi gallu lleihau 25% ar ein gofod swyddfa yn Llundain yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r brydles newydd ar ein swyddfa yn Llundain yn gosod y costau am gyfnod y brydles tan 2030, sy'n lleihau anwadalrwydd ymhellach ac yn lliniaru'r risg ariannol o ran rhent yn y dyfodol.

Wrth edrych ymlaen, mae cyllideb 2019/20 sef £124.2m yn cyd-fynd â 2018/19; bydd unrhyw bwysau o ran chwyddiant yn cael eu llyncu drwy barhau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar draws y sefydliad.

## Fframwaith ariannol

Dan Baragraff 8(1) o'r Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae gofyn i Ofcom gydbwyso ei wariant â'i incwm ym mhob blwyddyn ariannol.

Mae Adran 38 ac Adran 347 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Atodlen 4 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm gan bob un o'r sectorau y mae'n ei reoleiddio i dalu'r costau a ddaw i ran Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw.

Rhaid i Ofcom hefyd rannu ei gostau gweithredol cyffredinol (y rheini nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw sector penodol) mewn modd cymesur ar draws pob un o'r sectorau hynny.

## Ariannu Ofcom

Bydd Ofcom yn codi ei arian o'r ffynonellau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Arian rhanddeiliaid sectorau** | ▪ Ffioedd trwyddedau darlledu ar gyfer:<br>- teledu<br>- radio<br>- Gwasanaeth rhaglenni ar-alw<br><br>▪ Taliadau gweinyddol am:<br>- wasanaethau a rhwydweithiau electronig a darparu cyfleusterau cysylltiedig<br>- rheoleiddio'r gwasanaethau post |
| **Cymorth grant** | ▪ Costau clirio a dyfarnu sbectrwm, gan gynnwys grantiau effeithlonrwydd sbectrwm |
| **Cadw derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006** | ▪ I dalu costau gweithredu Ofcom wrth reoli sbectrwm<br><br>▪ Ar gyfer y swyddogaethau a'r dyletswyddau statudol hynny y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni ond nad oes llif refeniw cyfatebol ar eu cyfer. |



Ym mis Rhagfyr 2017, yn dilyn deddfu'r Bil Economi Ddigidol, mae Ofcom yn cadw symiau o ffioedd trwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 i dalu am ei waith rheoli sbectrwm a'r costau hynny na all eu hadennill fel arall drwy osod ffioedd a chostau. Mae'r Datganiad sy'n rhoi manylion yr egwyddorion ar gyfer cadw'r cronfeydd hyn ar gael drwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/107702/statement-principles-wta.pdf

Mae Ofcom yn parhau i gael cymorth grant i ddarparu prosiectau mawr i'r Llywodraeth, gan gynnwys y rhaglen glirio 700 MHz.

Bydd Ofcom hefyd yn cael incwm rhent o isosod ystafelloedd gwag mewn swyddfeydd, o log ar gyfrifon banc ac o incwm o wasanaethau sy'n ychwanegol at ddyletswyddau statudol Ofcom.

## Perfformiad ariannol 2018/19

Roeddem wedi cwblhau'r flwyddyn gydag alldro gweithredol gwirioneddol o £123.9m. Roedd hyn £0.3m o fewn ein cyllideb o £124.2m. Roeddem wedi llywio'r sefyllfa ariannol i'r gyllideb drwy ddefnyddio gwaith modelu senarios a drwy gynnal adolygiad cynhwysfawr o'n gwariant, gan ail lunio'r rhagolygon drwy gydol y flwyddyn.

Mae Nodyn 2 yn y cyfrifon yn Adran C yn cysoni cyfanswm y gwariant gweithredol fel y cyflwynir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i alldro gweithredol gwirioneddol Ofcom. Mae'r nodyn hefyd yn cysoni'r incwm ar yr un sail ac yn cyflwyno gwir alldro gweithredol ac incwm Ofcom fesul sector. Mae'r alldro gweithredol gwirioneddol yn cynrychioli'r costau sy'n seiliedig ar groniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol ac nid yw'n cynnwys eitemau anariannol fel dibrisiant, amorteiddiad a darpariaethau.

Mae Ofcom yn cynnwys llinellau ar wahân yn ein cyfrifon i wahaniaethu rhwng costau gwaith sy'n ymwneud â chlirio a dyfarnu Sbectrwm a chostau gweithredu craidd Ofcom er mwyn bod yn fwy tryloyw. Mae hyn yn cael ei nodi ar dudalen 59.

Yn ogystal â chanlyniadau ariannol craidd Ofcom rydym hefyd yn gyfrifol am gasglu a throsglwyddo ffioedd trwydded a gesglir o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, rhifau ffôn daearyddol, taliadau ychwanegol oddi wrth drwyddedeion darlledu a drwy roi dirwyon a chosbau ar randdeiliaid. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno mewn cyfrifon ar wahân sydd wedi cael eu paratoi o dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r uchafbwyntiau ariannol yn cael eu cynnwys yn yr atodiad. Ym mis Ebrill 2018, gwnaethom gwblhau'r arwerthiant o'r sbectrwm 2.3 a 3.4 GHz, gan drosglwyddo derbyniadau'r arwerthiant sef £1.3 biliwn i Drysorlys EM yr un mis. Gan gynnwys derbyniadau'r arwerthiant, roedd y cyfanswm a drosglwyddwyd i Drysorlys EM ar gyfer y flwyddyn yn £1.6 biliwn (2017/18 £326.7m). Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn nes ymlaen yn yr adolygiad hwn.

## Incwm Gweithredol

Roedd incwm gweithredol 2018/19 sy'n berthnasol i gyfrifoldebau craidd Ofcom (heb gynnwys clirio a dyfarnu Sbectrwm) yn £124.3m (2017/18: £122.4m). I raddau helaeth mae hyn oherwydd dyletswyddau newydd ac estynedig, a arweiniodd at gostau gweinyddol Rhwydwaith a Gwasanaethau uwch.

## Gwariant gweithredol

Roedd gwariant gweithredol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau craidd Ofcom yn 2018/19 wedi disgyn £2.0m i £46.0m (2017/18 £48.0m), heb gynnwys costau staff. Priodolir y gwahaniaethau sylweddol yn y gwariant ers y flwyddyn flaenorol i'r canlynol:

- roedd costau staff dros dro a recriwtio wedi disgyn £0.8m gan ein bod wedi cyflogi llai o staff dros dro yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ar ben hynny, rydym yn parhau i recriwtio rhagor o staff yn uniongyrchol a dibynnu llai ar gwmnïau recriwtio;
- at ei gilydd roedd ffioedd proffesiynol a chostau ymchwil wedi disgyn £0.7m yn 2018/19 sy'n adlewyrchu rhaglenni gwaith amgen eleni
- roedd costau eiddo wedi disgyn £0.5m, wrth gymharu â 2017/18. Mae hyn yn ymwneud â llai o rhent a chostau meddiannu yn Riverside House gan ein bod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio un llawr fel rhan o'r gwaith o foderneiddio ein swyddfa. Ar ben hyn, roedd y flwyddyn ariannol flaenorol wedi cynnwys ffioedd un-tro gan asiantau mewn perthynas â'n prydles swyddfa newydd.

Er mwyn cefnogi ein cylch gwaith parhaus mewn perthynas â'r BBC, a'r cynnydd yn ein cylch gwaith ar yr USO band eang a gweithredu'r Rheoliadau NIS, roeddem wedi cynyddu ein lefelau staff yn 2018/19 ac roedd nifer y staff ar gyfartaledd yn 902 cyfwerth ag amser llawn (FTE) (2017/18 868 FTE). O ganlyniad, roedd cyfanswm y costau staff wedi codi £4.2m i £76.8m. Yn gyffredinol mae'r costau ailstrwythuro yn debyg i rai'r llynedd gan fod llawer o ad-drefnu wedi cael ei wneud ar draws y sefydliad.

## Darpariaeth

Ar 31 Mawrth 2019, roedd Ofcom yn ymwneud ag ymgyfreitha parhaus ynghylch adfer ffioedd trwydded blynyddol yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl ym mis Tachwedd 2017 i ddileu rheoliadau roedd Ofcom wedi'u gwneud ym mis Medi 2015 i adolygu'r ffioedd ar gyfer defnyddio'r bandiau sbectrwm 900/1800 MHz. Roedd y Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol wedi cyflwyno hawliadau yn erbyn Ofcom yn ceisio iawn am y cynnydd mewn ffioedd a dalwyd rhwng mis Medi 2015 a mis Tachwedd 2017. Cafodd yr achos adfer ei wrando yn yr Uchel Lys ym mis Mai 2019 a dyfarnwyd blaid y Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol. Gorchmynnodd y llys ei bod yn rhaid ad-dalu'r cynnydd mewn ffioedd a oedd wedi cael eu casglu o dan Reoliadau 2015. Rhoddodd yr Uchel Lys hawl i Ofcom apelio. Cyflwynodd Ofcom apêl gyda'r llys ar 7 Mehefin 2019. O ganlyniad, mae costau ad-daliadau'r ffi trwydded flynyddol, llog a chostau cyfreithiol cysylltiedig wedi cael eu cynnwys fel darpariaeth yn y datganiadau ariannol hyn sef £232m.

Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Thrysorlys EM wedi cytuno y caiff cyllid ychwanegol i ad-dalu'r ffioedd trwydded blynyddol a chostau llog cysylltiedig a oedd yn deillio o ddyfarniad yr Uchel Lys ym mis Mai 2019 eu darparu yn ôl yr angen.

## Clirio a dyfarnu sbectrwm

Mae clirio'r band 700 MHz yn dal yn rhaglen waith fawr i Ofcom. Mae'r band yn cael ei glirio er mwyn sicrhau bod y sbectrwm ar gael ar gyfer data symudol. Bydd y rheini sy'n defnyddio'r band 700MHz ar hyn o bryd, teledu daearol digidol (DTT) a dyfeisiau gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE), yn symud i amleddau eraill.

Mae'r cyllid cymorth grant ar gyfer clirio a dyfarnu Sbectrwm yn cefnogi'r newidiadau sydd eu hangen ee i'r seilwaith DTT, sy'n angenrheidiol i glirio'r band sbectrwm. Mae'r Llywodraeth wedi darparu arian ar gyfer cynllun grantiau i ddosbarthu grantiau i hwyluso'r gwaith clirio.

Dylai'r gwaith clirio ddod i ben ym mis Ebrill 2020. Cafodd llawer o waith seilwaith ei wneud ar draws y DU yn 2018/19 ac mae tua 50% o'r gwaith o glirio teledu daearol digidol wedi cael ei gwblhau.

Mae darparu gwerth am arian wrth galon ein gwaith ar y cynllun grant. I'r perwyl hwn, mae gennym fframwaith sicrwydd cadarn ar waith i wneud yn siŵr mai dim ond costau clirio cynyddrannol effeithlon sy'n cael arian cyhoeddus. Fel rhan o'r fframwaith sicrwydd hwn bydd arbenigwyr technegol a phanel cynghori anweithredol annibynnol yn craffu'n fanwl ar geisiadau am grant.

Yn fwy cyffredinol, un rhan o'n gwaith y byddwn yn canolbwyntio arni yw sicrhau y byddwn yn cwblhau'r rhaglen ar gyfer clirio'r band 700 MHz mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddion mwyaf posibl i economi'r DU yn ehangach.

Roedd y gwariant ar glirio a dyfarnu Sbectrwm yn £72.5m yn 2018/19 (2017/18: £82.1m), sy'n cynnwys £70.7m o grantiau sydd wedi cael eu talu i'r rheini sy'n cymryd rhan yn y cynllun grantiau.

Cawsom gyfanswm o £72.1m o incwm (2017/18: £85.4m). Bydd y diffyg o £0.3m yn cael ei adennill fel rhan o gymorth grant 2019/20.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae'r costau sy'n ymwneud â chlirio a dyfarnu Sbectrwm wedi cael eu gwahanu oddi wrth gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol er mwyn bod yn dryloyw.

## Gwarged/diffyg am y flwyddyn ariannol

### Gwarged neu ddiffyg cyllido

Bydd y refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau a chyflawni ei raglen waith ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail datganiad egwyddorion codi ffioedd Ofcom. Mae'r dull gweithredu hwn yn pennu'r arian gwirioneddol y mae angen ei gasglu i dalu rhwymedigaethau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben a geir o ganlyniad i arbedion cyllidebol a sicrheir yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid drwy leihau'r tariffau blynyddol a godir yn y ddwy flynedd ariannol olynol.

Mae'r gwarged cyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei nodi yn Nodyn 2 i'r cyfrifon, sef £3.3m (y swm yn 2017/18 oedd gwarged o £5.9m).

### Gwarged neu ddiffyg cyfrifyddu

Mae angen gwarged cyfrifyddu ar gyfer y gwariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, gan gynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau i adennill diffyg sy'n ofynnol mewn perthynas â'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Mae diffyg cyfrifyddu'n digwydd pan mae dibrisiant, amorteiddiad a thrafodion anariannol eraill yn fwy na'r incwm a dderbynnir i dalu costau arian eitemau cyfalaf a'r cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.


Y diffyg cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth, a gofnodwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn dan sylw, oedd £229.6m (2017/18: £2.9m gwarged). Mae'r amrywiad sylweddol i'r flwyddyn flaenorol yn adlewyrchu cynnwys darpariaeth o £232m yn y datganiadau ariannol hyn, fel y disgrifir ar dudalen 58.

## Arian ychwanegol a gesglir ar ran Trysorlys EM

Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Nid yw'r trafodion hyn wedi cael eu cynnwys yn y Datganiadau Ariannol. Adroddir ar y ffioedd, y taliadau a'r cosbau, ynghyd â rhagor o fanylion, yn y Datganiadau Ariannol hyn yn Nodyn 23 i'r cyfrifon, ac mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 23 ar dudalen 153.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19 roedd Ofcom wedi casglu £1,688.6m (2017/18: £326.7m) ar ran Trysorlys EM ac roedd £54.3m (2017/18: £23.9m) wedi cael ei gadw i dalu am rai o'i gyfrifoldebau craidd Ofcom, gan gynnwys Rheoli Sbectrwm. Cafodd £1.3bn ychwanegol o dderbyniadau eu casglu yn y flwyddyn ariannol hon, sy'n ymwneud â chasgliad arwerthiant sbectrwm y bandiau 2.3 a 3.4 GHz. Cafodd £1,618.8m ei drosglwyddo i gyfrifon y Llywodraeth. Mae'r siart isod yn dangos ffynhonnell yr incwm a cyrchfan y taliadau.

Ffigur 4: Adran 400 Cyfanswm Derbyniadau a Thaliadau




* Cafodd drosglwyddiad o £201.82 ei gyflwyno i Drysorlys Ynys Manaw


## Tariffau 2019/20

Ar 25 Mawrth 2019, cyhoeddodd Ofcom y Tablau Tariffau ar gyfer 2019/20, a oedd yn seiliedig ar amcangyfrif o'r gwariant gweithredol yn 2018/19, ynghyd â'r costau a gyllidebwyd ar gyfer 2019/20 sef £124.2m.

£124.2m ydy cyllideb Ofcom ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Nid yw hyn wedi newid ers cyllideb 2018/19 ac mae'n cyd-fynd â chap gwariant 2019/20 Trysorlys EM. Er nad yw prif gyllideb Ofcom wedi newid ers y llynedd, bydd y ffioedd a'r taliadau'n amrywio yn ôl sector gan eu bod yn adlewyrchu gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2019/20 a'r amrywiadau i gyllideb 2018/19 a'r gwariant terfynol gwirioneddol.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 5 isod, ac eithrio'r costau sy'n gysylltiedig â'n cyfrifoldebau i reoleiddio'r BBC o 3 Ebrill 2017 ymlaen, mae tariffau 2019/20 Ofcom ar gyfer y sectorau amrywiol yn debyg iawn yn gyffredinol i rai 2015/16.

Ffigur 5: Patrymau cyllido



## Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid Ofcom â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

Roedd gan gydweithwyr a ymunodd ag Ofcom o hen reoleiddwyr hawl i barhau i fod yn aelod o un o ddau gynllun pensiwn â'u buddion wedi'u diffinio. Mae'r ddau gynllun hyn ar gau i newydd-ddyfodiaid a daeth y drefn cronni buddion i ben ar 31 Mai 2011. O'r adeg hon ymlaen, roedd yr holl aelodau cyfredol yn gallu ymuno â chynllun cyfranddeiliaid Ofcom. Mae nodiadau 1(k) a 19 i'r cyfrifon yn darparu rhagor o fanylion.

Roedd y prisiadau actiwaraidd ar gyfer y naill gynllun a'r llall, ar 31 Mawrth 2015, yn dangos gwarged o £1.3m yng nghyllid cyfun y ddau gynllun. Mae'r prisiad actiwaraidd o Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018 wedi'i gwblhau ac mae'n dangos gwarged o £0.4m. Mae'r prisiad o Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) bron â dod i ben.

Fodd bynnag, mae datganiadau ariannol 2018/19 yn dangos gwarged o £17.7m, yn rhannol oherwydd bod y rhwymedigaethau pensiwn dan y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod y rhwymedigaethau'n cael eu gostwng yn unol â'r enillion ar fondiau o ansawdd uchel sydd, dan amodau presennol y farchnad, yn wahanol iawn i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau'r actiwari.

Mae Ofcom yn gwneud taliadau ariannol at Gynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac at gynllun pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail y prisiadau actiwaraidd. Cynhwysir taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredol, fel y'u cyfrifir dan IAS19, yn alldro'r gwariant gweithredol a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffiau a godir ar randdeiliaid bob blwyddyn.

Oherwydd y gwaith lliniaru risg rhwng Ofcom, Ymddiriedolwyr ac Actiwarïaid y ddau gynllun pensiwn, mae oddeutu 80% o rwymedigaethau'r cynlluniau yn cael eu cefnogi bellach gan flwydd-daliadau. Fel rhan o'r gweithgareddau parhaus i reoli ac i liniaru risgiau'r cynlluniau, bydd rhagor o gynlluniau prynu buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant ar gyfer aelodau sy'n bensiynwyr yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

Cynhelir y gwerthusiadau cyllid bob-tair-blynedd ffurfiol nesaf ar 31 Mawrth 2021 a rhaid iddynt ddod i ben erbyn 30 Mehefin 2022.

# Cyfrifoldeb corfforaethol

## Ymrwymiad Ofcom i gyfrifoldeb corfforaethol

Rydym yn anelu at fod yn gyflogwr cyfrifol a chydnabod a rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd a'r gymuned ehangach drwy dri maes gweithgaredd allweddol:

- trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, nid yn unig yn Ofcom ond yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio hefyd (gweler yr adran Ein Gweithwyr ar dudalen 88);
- lleihau ein hôl troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol (gweler yr adran Cynaliadwyedd ar dudalen 65); ac
- ennyn diddordeb, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr, ar yr un pryd â chefnogi mentrau lleol (gweler yr adran Gwirfoddoli a chymuned isod).

Credwn fod agwedd ragweithiol at gyfrifoldeb corfforaethol yn cyfrannu at ein llwyddiant fel rheoleiddiwr. Dyma rai o'r manteision:

- mae cydnabod a chroesawu amrywiaeth poblogaeth y DU rydym yn ei gwasanaethu yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr, er mwyn gwneud i gyfathrebiadau weithio i bawb;
- mae gwerthfawrogi, hybu ac annog amrywiaeth yn creu gweithlu sy'n fwy effeithlon ac sydd â fwy o ddiddordeb; ac
- mae bod yn gyfrifol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol yn lleihau ein costau gweithredol ac yn meithrin cysylltiadau agosach â'n cymuned leol.



## Gwirfoddoli a chymuned

Rydym yn annog cydweithwyr i wirfoddoli a chyfrannu at gynlluniau cymunedol gan y credwn fod hyn yn ffordd effeithiol o ennill sgiliau newydd, aros yn iach yn feddyliol, rhoi hwb i'w hyder, a hyrwyddo ein hamcanion amrywiaeth. Yn 2018, aethom ati i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid lleol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

## Ysgolion a sefydliadau

Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi ymweld ag ysgolion ac wedi croesawu ymweliadau ysgol i Ofcom i ymgysylltu â phobl ifanc am ddewisiadau gyrfa i'r dyfodol. Ym mis Rhagfyr 2018 roeddem wedi croesawu 30 o fyfyrwyr Safon Uwch economeg o bedair ysgol uwchradd yn Llundain. Roedd hyn yn gyfle i'r myfyrwyr gael blas o sut beth ydy gweithio fel economegydd yn Ofcom. Treuliodd y myfyrwyr y diwrnod gyda gwahanol fathau o economegwyr yn Ofcom a chawsant gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai ar faterion economeg rydym wedi delio â nhw. Daeth y diwrnod i ben gyda sesiwn panel gyda rhai o'n graddedigion economeg a'n prentisiaid yn siarad am eu llwybrau i Ofcom.

Rydym yn parhau i gefnogi'r Gwobrau Peiriannydd Benywaidd Ifanc y Flwyddyn gyda'r Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET). Rydym yn gweithio gyda nhw i hyrwyddo menywod ym maes peirianneg drwy gyflwyno a chymryd rhan mewn digwyddiadau, gweithdai a diwrnodau agored. Roeddem wedi cynnal ein digwyddiad panel cyntaf ar gau'r bwlch rhwng y rhywiau mewn peirianneg yn y sector cyfathrebiadau gyda'r IET ym mis Ebrill 2018 ac rydym yn gweithio ar gynlluniau eraill gan gynnwys achrediad Peiriannydd Siartredig ffurfiol. Ar ben hynny, roeddem wedi cymryd rhan mewn digwyddiad Diwrnod Agored Peirianneg yr IET ym mis Awst 2018, gan agor ein swyddfa yn Baldock, Swydd Hertford i blant a'u rhieni.

Mae cydweithwyr hefyd wedi sefydlu cyfleoedd gwirfoddoli eraill ar sail ad hoc, gan gefnogi achosion sy'n bwysig iddynt hwy.

## Prentisiaethau ac interniaethau

Rydym yn ymrwymedig i ehangu'r llwybrau i bobl ifanc ymuno â'r sefydliad a datblygu sgiliau i Ofcom. Rydym yn talu'r Ardoll Prentisiaethau ac yn adolygu ein dull gweithredu cyffredinol o ran prentisiaethau, er mwyn cynnig lleoliadau gwaith tymor hir am dâl sy'n seiliedig ar sgiliau. Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi wyth o gydweithwyr ar raglenni prentisiaeth sy'n gweithio mewn rolau Peirianneg Sbectrwm, y Ganolfan Cyswllt Defnyddwyr, Cyllid Cystadleuaeth ac Ymchwil i'r Farchnad gyda chwech arall yn defnyddio'r Ardoll Prentisiaethau i wella eu sgiliau ac ennill cymhwyster.

Yn ystod 2018 roeddem wedi croesawu myfyrwyr profiad gwaith drwy S4S Next Gen, sefydliad sy'n gweithio gydag ysgolion y wladwriaeth, academïau a myfyrwyr coleg rhwng 14 a 18 oed, i'w helpu i ddod o hyd i brofiad gwaith ysbrydoledig gyda sefydliadau mawr.

Rydym hefyd yn cynnig interniaethau haf drwy'r elusen addysg busnes Career Ready. Yn ystod haf 2018, roeddem unwaith eto wedi cefnogi rhaglen Career Ready, gan roi lle i saith intern o ysgolion ac academïau lleol i gynnig cyfle i'r myfyrwyr ddefnyddio'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sefyllfa waith go iawn.

## Elusen Ofcom

Yn ystod 2018, bu cydweithwyr yn cynnal nifer o weithgareddau codi arian i godi arian i elusen enwebedig Ofcom, Macmillan Cancer Support.

# Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn rhoi golwg gyffredinol ar strategaeth cynaliadwyedd Ofcom a'n perfformiad yn y maes hwn. Mae'n cynnwys data cynaliadwyedd a chostau ariannol cysylltiedig, wedi'u cyflwyno mewn fformat sy'n cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer adrodd ar gynaliadwyedd a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ar gyfer 2018/19.

## Strategaeth cynaliadwyedd Ofcom

### Cyflwyniad

Dros y blynyddoedd, mae Ofcom wedi gweithredu nifer o gynlluniau i leihau carbon. Mae hyn yn cynnwys ffordd ystwyth newydd o weithio ac felly defnyddio llai o ynni yn ein swyddfa yn Llundain, gweddnewid ein seilwaith TGCh a symud o gyhoeddiadau sydd wedi cael eu hargraffu i gyhoeddiadau ar-lein. Rydym hefyd yn hybu ailgylchu, teithio cynaliadwy ac arferion da o ran ynni i'n cydweithwyr.

### Hanes y targedau lleihau

Comisiynodd Ofcom archwiliad carbon annibynnol yn 2007, ac wedyn ymrwymodd i ostyngiad o 25% y cant yn ei allyriadau carbon mewnol erbyn diwedd 2012/13 (o'i gymharu â gwaelodlin yn 2007). Cafodd prosiect Ôl Troed a Chynaliadwyedd Ofcom ei sefydlu i bennu camau gweithredu i sicrhau bod Ofcom yn cyflawni ei ymrwymiad i leihau ei ddefnydd o garbon a bod ei arferion gweithredu'n gynaliadwy'n amgylcheddol, a rhoi'r camau hynny ar waith.

Roedd targed lleihau cychwynnol Ofcom o 25% yn berthnasol ar draws saith maes: gwasanaethau gwybodaeth, cyfleustodau, gwastraff, teithiau busnes, deunyddiau caffael, cyfalaf caffael a chymudo.

Yn 2009, roedd Ofcom wedi comisiynu ein hail archwiliad carbon annibynnol a oedd yn cadarnhau bod gostyngiad o 15% mewn allyriadau carbon wedi cael ei gyflawni. Cafodd trydydd archwiliad carbon ei gynnal yn 2013 a gadarnhaodd fod Ofcom wedi sicrhau 30% o ostyngiad yn ei allyriadau carbon - a oedd yn rhagori ar y targed gwreiddiol o 25% o arbedion a osodwyd yn 2007.

Yn 2015, sicrhaodd Ofcom ardystiad Safon yr Ymddiriedolaeth Carbon am yr eildro, gan sicrhau 10.5% yn rhagor o ostyngiad yn ein hôl troed ers 2013. Mae Ofcom yn dal i gael ardystiad Safon yr Ymddiriedolaeth Carbon, yn 2017 roeddem wedi lleihau ein hôl troed 1.5% arall.

Bydd ein harchwiliad Ymddiriedolaeth Carbon nesaf yn ystod 2019.

Mae rhagor o wybodaeth am berfformiad cynaliadwyedd Ofcom ar gael ar ein gwefan:

www.ofcom.org.uk/about/corporate-responsibility/footprint-and-sustainability



## Perfformiad 2018/19

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Rydym yn gweithio'n ystwyth ac rydym wedi cwblhau gwaith i leihau faint o ofod swyddfa sydd gennym yn ein pencadlys. Rydym wedi lleihau'r gofod gweithio yn ein swyddfa drwy symud i weithio'n hyblyg. O ganlyniad, gwnaethom leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr 11% o'i gymharu â 2017/18. Rydym wedi parhau i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr o un flwyddyn i'r llall.

Yn ogystal â gweithio'n ystwyth, caiff staff eu hannog i ddefnyddio llai o bapur, drwy ddisodli copïau caled o ddogfennau a defnyddio llofnodion electronig a chadw dogfennau pwysig yn electronig pan fo'n bosibl.

Rydym wedi mabwysiadu technoleg TG gludadwy newydd sydd wedi'i gwneud hi'n haws i gydweithwyr weithio o unrhyw leoliad a chydweithio â chydweithwyr lle bynnag y bônt. Mae hyn yn caniatáu i gydweithwyr weithio'n fwy hyblyg, fel gweithio gartref, a ddylai gyfrannu at ostyngiadau pellach yn ein hôl troed carbon.

Roeddem wedi buddsoddi mewn cyfarpar cynadledda fideo yn ein holl swyddfeydd er mwyn lleihau'r angen am deithio ac i gefnogi gweithio mwy ystwyth. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i'n staff ddefnyddio Skype for Business a fideogynadledda. Rydym yn ffyddiog y byddwn yn gweld manteision ein cyfarpar fideogynadledda dros y blynyddoedd nesaf.

Yn unol â'n polisi treuliau, mae'n rhaid i gydweithwyr ystyried yr effaith ar ôl troed carbon Ofcom cyn gwneud trefniadau i deithio ac ystyried ffyrdd carbon is yn lle teithio fel e-bost, fideogynadledda neu lais. Rydym hefyd yn darparu cynllun beicio i'r gwaith i'r staff fel rhan o'u pecyn o fuddion fel ffordd o annog staff i leihau eu hôl troed carbon.

Ar hyn o bryd rydym yn is-osod ein Swyddfa yn Glasgow ac roeddem wedi cael gwared â'n swyddfa yn Haydock yn ystod 2018.

### Lleihau a rheoli gwastraff

Mae gan Ofcom bolisi 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi' ar draws ei bortffolio eiddo. Rydym yn ailgylchu papur, cardfwrdd, caniau, plastigau, batris, cetris peiriannau argraffu a CDs. Mae'r broses o gael gwared ag unrhyw offer TGCh yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwastraff Offer Trydanol ac Electronig (WEEE).

### Defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae'r defnydd o ddŵr yn dod yn bennaf o ystafelloedd ymolchi a dŵr yfed ymhob swyddfa, yn ogystal â'r cyfleusterau arlwyo yn ein swyddfa yn Llundain.

Mae'n defnydd o bapur wedi lleihau 34% o'i gymharu â 2017/18 wrth inni ddechrau defnyddio llai o bapur a chadw dogfennau'n electronig.

### Cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth

Nid yw bioamrywiaeth yn ystyriaeth o bwys i Ofcom ac nid ydym yn casglu data yn y maes hwn.

### Caffael cynaliadwy

Mae ystyried cynaliadwyedd yn rhan greiddiol o'n prosesau caffael. Mae Ofcom yn cynnwys darpariaethau yn ei ddogfennau caffael sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddangos eu hagwedd at gynaliadwyedd ac at leihau allyriadau carbon. Wedyn, mae ymatebion y cynigwyr i'r darpariaethau hyn yn cael eu hystyried fel un rhan benodol o werthuso'r tendr. Rydym hefyd yn defnyddio cytundebau fframwaith sydd gan Wasanaeth Masnachol y Goron. Mae'r fframweithiau hyn yn cynnwys manylebion ac maent yn cynnig telerau contract safonol sy'n helpu sefydliadau sy'n prynu i fonitro/leihau eu heffaith amgylcheddol a chynnwys cynaliadwyedd yn eu contractau caffael.

## Cynlluniau at y dyfodol

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd Ofcom yn parhau i fonitro ei allyriadau carbon yn rheolaidd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio ynni a rheoli gwastraff. Byddwn hefyd yn parhau i hybu ymddygiad cynaliadwy ymysg ein cydweithwyr.

Wrth i ni barhau i symud i ddull mwy ystwyth o weithio, a mabwysiadu technoleg symudol, byddwn yn parhau i annog cydweithwyr i leihau eu dibyniaeth ar bapur a lleihau'r rheidrwydd i deithio.

Ar ôl i ni addasu'n llawn i ffordd ystwyth newydd o weithio ar draws pob safle, rydym yn bwriadu adolygu a datblygu ein hamcanion carbon ac rydym yn disgwyl lleihau ein hallyriadau ymhellach.


Mae crynodeb o allyriadau Ofcom dros y pum mlynedd diwethaf ar gael yn Ffigur 6.

Edrychwch ar yr Atodiad ar dudalennau 160 a 163 i gael rhagor o fanylion.

Ffigur 6: Golwg gyffredinol ar berfformiad yng nghyswllt cynaliadwyedd

| | | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr (Cwmpas 1,2) | tCO2e | 1,649 | 1,569 | 1,456 | 1,209 | 1,078 |
| | Gwariant | £475,135 | £444,964 | £405,810 | £459,238 | £404,206 |
| Gwariant Teithio ar gyfer busnes (Cwmpas 3) | tCO2e | 290 | 250 | 312 | 519 | 555 |
| | Gwariant | £596,116 | £569,099 | £663,705 | £705,602 | £742,876 |
| Gwastraff | tCO2e | 166 | 173 | 172 | 76 | 198 |
| | Gwariant | £45,500 | £32,023 | £37,984 | £7,004 | £43,805 |
| Defnydd o adnoddau cyfyngedig | Defnydd dŵr (m3) | 14,213 | 10,767 | 11,282 | 9,379 | 13,988 |
| | Gwariant | £24,931 | £16,784 | £22,248 | £6,929 | £19,583 |
| | Rimiau papur | 5,993 | 7,545 | 6,317 | 3,915 | 2,579 |

**Sharon White**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2019



# Adroddiad Atebolrwydd

69 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

73 Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

88 Ein gweithwyr

92 Adroddiad taliadau

99 Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Bwrdd Ofcom



### Yr Arglwydd Burns, GCB

Penodwyd yr Arglwydd Burns yn Gadeirydd Bwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2018. Mae hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Enwebiadau Ofcom ac yn Aelod o Bwyllgor Taliadau Ofcom. Mae'n Gynghorydd Arbennig i Banco Santander SA, yn Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Artistiaid Clasurol Ifanc ac yn Is-gadeirydd Gŵyl Llenyddiaeth a Chelfyddydau'r Gelli Cyf. Ar ben hynny, mae'r Arglwydd Burns yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Canolbarth Cymru ac yn Ddirprwy Lywydd yr Academi Gerddoriaeth Frenhinol. Roedd yn arfer bod yn Brif Gynghorydd Economaidd ac Ysgrifennydd Parhaol i Drysorlys EM, yn Gadeirydd Santander UK plc, Channel Four Television, Marks and Spencer plc a Dŵr Cymru, a Chynghorydd Annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr Adolygiad o Siarter y BBC.



### Maggie Carver

Penodwyd Maggie Carver yn Ddirprwy Gadeirydd Bwrdd Ofcom ar 30 Medi 2018. Mae hi'n Aelod o Bwyllgor Taliadau, Pwyllgor Enwebiadau a Phwyllgor Risg ac Archwilio Ofcom. Mae Maggie yn Gadeirydd y Racecourse Association ac yn Gyfarwyddwr Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain. Mae gan Maggie brofiad helaeth fel cyfarwyddwr anweithredol ar fyrddau 17 o gwmnïau cyhoeddus, preifat a dim-er-elw. Mae'r rhain yn cynnwys cadeirio'r darparwr newyddion a rhaglenni ITN, y gweithredwr aml-blecs SDN, a Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, yn ogystal â byrddau Channel 5 Television, RDF Media plc, Satellite Information Services, darlledwr y lluoedd arfog BFBS, a Dyfrffyrdd Prydain.



### Dr Angela Dean

Penodwyd Dr Angela Dean ar Fwrdd Ofcom ar 30 Medi 2018. Mae'n cadeirio Pwyllgor Risg ac Archwilio Ofcom ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Enwebiadau. Ar hyn o bryd, mae Angela yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth International House, yn aelod o Gyngor Coleg y Brenin Llundain ac yn ymddiriedolwr ar gyfer Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Efrog. Mae'n Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel Penodiadau Cyhoeddus. Roedd hi'n arfer bod yn Rheolwr Gyfarwyddwr Morgan Stanley lle'r oedd yn arwain ei dîm ymchwil technoleg byd-eang. Roedd hi'n aelod o Weithgor Cytundeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig ar gyfer materion yng nghyswllt cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ym maes buddsoddi, yn un o ymddiriedolwyr Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac yn aelod o'r Cyngor Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.



### Bob Downes

Penodwyd Bob Downes yn Aelod Anweithredol cyntaf Bwrdd Ofcom ar ran yr Alban ym mis Chwefror 2018 ac mae'n gweithredu fel Aelod interim ar ran Gogledd Iwerddon. Mae'n aelod o Fwrdd Cynnwys Ofcom, a hefyd ei Bwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban a CENSIS. Mae hefyd yn cadeirio Corff Goruchwylio Annibynnol y Comisiwn ar gyfer Rheoleiddio Cyfathrebiadau, a fydd yn goruchwylio' r gwaith o weithredu a rheoleiddio Model Llywodraeth Rheoleiddio gwell yng Ngogledd Iwerddon gan Eircom. Mae Bob yn un o ymddiriedolwyr y Mackintosh Campus Renewal Appeal ar gyfer Ysgol Gelf Glasgow, ac yn gynghorydd i nifer o fusnesau technoleg bach, gan gynnwys Kube Networks a Cryptic.



## David Jones

Penodwyd David Jones ar Fwrdd Ofcom ar 8 Ebrill 2019 ac mae'n Aelod o Bwyllgor Taliadau a Phwyllgor Enwebiadau Ofcom. Ar hyn o bryd mae David yn gyfarwyddwr anweithredol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Gwybodaeth. Mae David hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol Awdurdod Cyllid Cymru ac yn aelod o fwrdd Cymwysterau Cymru. Ar ben hynny, mae'n berchen ar Public Services Digital, ac mae'n cynnig ei wasanaethau fel ymgynghorydd drwy'r cwmni hwnnw.



## Graham Mather, CBE

Penodwyd Graham Mather yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Mehefin 2014, a chafodd ei ailbenodi am dymor o bedair blynedd arall ym mis Mehefin 2018. Mae'n Aelod o Bwyllgor Enwebiadau, Pwyllgor Taliadau a Phwyllgor Risg ac Archwilio Ofcom. Bu'n aelod o Banel Defnyddwyr Ofcom rhwng 2004 a 2008. Mae wedi bod yn aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau, a rhwng 2000 a 2012, roedd hefyd yn aelod o'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth. Mae Graham ar hyn o bryd yn Llywydd y Fforwm Polisi Ewropeaidd ac yn Gadeirydd ei Grŵp Arferion Gorau Rheoleiddio. Mae'n aelod o Fwrdd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd ac yn gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Greenham a'r Sefydliad Canser Pelican.



## Jonathan Oxley

Ymunodd Jonathan Oxley ag Ofcom fel Cyfarwyddwr y Grŵp Cystadleuaeth ym mis Tachwedd 2014 ac fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Gweithredol Bwrdd Ofcom ym mis Ionawr 2015. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn bartner ym mhractis Strategaeth ac Economeg PwC, yn arbenigo mewn telegyfathrebiadau, y cyfryngau a thechnoleg. Ym mis Rhagfyr 2018, penodwyd Jonathan yn Brif Weithredwr Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU.



## Tim Suter

Penodwyd Tim Suter yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Hydref 2017. Mae Nick yn cadeirio Bwrdd Cynnwys Ofcom ac mae'n Aelod o'r Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Enwebiadau. Roedd Tim yn gynhyrchydd, yn olygydd ac yn uwch reolwr gyda'r BBC ac yn Bennaeth Polisi Darlledu yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2002, yn gyfrifol am Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a chreu Ofcom. Ymunodd ag Ofcom ar y dechrau a gadawodd i sefydlu Perspective Associates, i gynghori ar bolisi a rheoleiddio'r cyfryngau. Mae wedi bod yn gynghorydd arbennig i Bwyllgor Cyfathrebiadau Tŷ'r Arglwyddi, ac mae'n gadeirydd panel o arbenigwyr sy'n cynghori Cyngor Ewrop. Tim yw cadeirydd Bwrdd Llywio'r Swyddfa Eiddo Deallusol ac mae'n un o'r partneriaid a sefydlodd Communications Chambers.



## Ben Verwaayen

Penodwyd Ben Verwaayen yn aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Ionawr 2016. Ef yw Cadeirydd Pwyllgor Taliadau Ofcom ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau. Ar hyn o bryd mae'n Bartner Cyffredinol gyda chronfa fuddsoddi Keen Venture Partners ac mae ganddo amryw o rolau ar wahanol Fyrddau, gan gynnwys Akami yn yr Unol Daleithiau ac AkzoNobel yn yr Iseldiroedd. Mae'n gyn Brif Weithredwr BT, KPN yn yr Iseldiroedd ac Alcatel Lucent. Mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd Endemol ac yn aelod ar fwrdd y gweithredwr symudol, Bharti Airtel, yn India.



## Sharon White

Penodwyd Sharon White yn Brif Weithredwr ac yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom ym mis Mawrth 2015. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Sharon wedi cael gyrfa hir yn y gwasanaeth sifil. Roedd yn Ail Ysgrifennydd Parhaol yn Nhrysorlys EM gyda chyfrifoldeb am oruchwylio cyllid cyhoeddus. Cyn hynny roedd ganddi swyddi ar lefel Bwrdd yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol ac mae wedi gweithio yn Uned Polisi'r Prif Weinidog ac yn Washington DC fel uwch economegydd ym Manc y Byd. Mae Sharon yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol gyda Barratt Developments ac mae'n ymddiriedolwr gyda Sadler's Wells Theatre.

## Cofrestr buddiannau i'w datgelu

Ni chaiff aelodau'r Bwrdd, eu partneriaid na phlant dibynnol fod â buddiannau (gan gynnwys cyfranddaliadau, cyfarwyddiaethau a swyddi) mewn cwmnïau y gallai penderfyniadau Ofcom effeithio ar eu gweithgareddau busnes craidd (ac felly pris cyfranddaliadau). Mae gan Ofcom gofrestr o fuddiannau i'w datgelu, sydd ar gael ar ein gwefan yn:

https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/register-disclosable-interests

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynlluniau a'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau na chânt eu hariannu. Mae Nodyn 1 yn y Nodiadau i'r Cyfrifon yn cyfeirio at y polisi cyfrifyddu perthnasol, ac mae Nodyn 19 yn y Nodiadau i'r Cyfrifon yn rhoi manylion rhwymedigaethau buddion ymddeol Ofcom.

Mae manylion y lwfans pensiwn a dalwyd i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn ystod 2018/19 ar gael yn yr Adroddiad Taliadau ar dudalen 92.

## Gwaith nad yw'n gysylltiedig ag archwilio

Ni thalwyd ffioedd i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am waith archwilio anstatudol yn ystod 2018/19 (dim ffioedd yn ystod 2017/18).

## Digwyddiadau'n ymwneud â data personol a ddiogelir

Cyflwynodd Ofcom 2 adroddiad ar ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol a ddiogelir i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2018/19. Yn y ddau achos, penderfynodd y Swyddfa nad oedd angen gweithredu ymhellach.

## Data absenoldeb salwch

Mae adroddiad ar ddata absenoldeb salwch ar gael yn adran 'Ein Gweithwyr' yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 91.

## Datgeliadau'r Cyfarwyddwyr

Hyd y gŵyr y Cyfarwyddwyr, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr wedi cael gwybod amdani. Mae pob cam rhesymol wedi cael ei gymryd gan y Cyfarwyddwyr i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hon.

**Sharon White**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2019

# Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn dal yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom ac mae'n golygu mwy na glynu wrth set o reolau a chanllawiau penodedig. Mae'n rhan annatod o'r ffordd y mae'r sefydliad yn cael ei redeg a naws y sefydliad, ac mae'n ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Rydym yn y broses o adolygu ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol i sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran arferion gorau bob amser. Er enghraifft, rydym wedi diddymu ein Pwyllgor Taliadau a'n Pwyllgor Enwebiadau yn ddiweddar, a'u disodli â Phwyllgor Pobl newydd sy'n cydnabod mai ein pobl yw ein hased pwysicaf. Mae cylch gwaith y Pwyllgor newydd yn cynnwys Strategaeth Pobl Ofcom, rheoli talent, datblygu talent a chynllunio olyniaeth.

Mae'r adran yma o'r adroddiad yn nodi sut mae Ofcom yn mynd i'r afael â llywodraethu, gan gynnwys gweithredu Bwrdd Ofcom a Phwyllgorau'r Bwrdd.

## Y fframwaith llywodraethu

Mae ffigur 7 yn nodi'r fframwaith llywodraethu yn Ofcom, ynghyd â strwythur adroddiadau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau.

Ffigur 7: Fframwaith llywodraethu Ofcom

**BWRDD OFCOM**

**Pwyllgorau'r Bwrdd**
- Bwrdd Cynnwys
- Panel Cronfa Radio Cymunedol
- Pwyllgor Etholiadau
- Pwyllgor Enwebiadau
- Pwyllgor Risg ac Archwilio
- Pwyllgor Taliadau
- Pwyllgor Taliadau Anweithredol

**Pwyllgorau Gwaith**
- Bwrdd Rheoli a Pholisi
  - Grwpiau Llywio Polisi
    - *e.e. Telegyfathrebiadau*
    - *e.e. Defnyddwyr*
  - Grŵp Llywio Nerth i Nerth
- Bwrdd Gweithrediadau
  - Grŵp Cyflawni Amrywiaeth a Chynhwysiant
  - Diogelwch
  - Pensiynau Cyfraniadau wedi'u Diffinio
  - Iechyd a Diogelwch

**Pwyllgorau Cynghori/ Heb fod yn Fwrdd**
- Pwyllgor Cynghori Lloegr
- Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon
- Pwyllgor Cynghori'r Alban
- Pwyllgor Cynghori Cymru
- Pwyllgor Cynghori Sbectrwm Ofcom
- Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl

## Bwrdd Ofcom

Mae gan y Bwrdd swyddogaeth lywodraethu ganolog, sy'n golygu ei fod yn goruchwylio dyletswyddau cyffredinol Ofcom a'i gyfrifoldebau statudol penodol ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, yn ogystal â sicrhau ei fod yn glynu wrth ethos sefydliad gwasanaeth cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau arweinyddiaeth drwy adolygu a goruchwylio'n effeithiol. Mae'r Bwrdd yn pennu cyfeiriad strategol y Grŵp gyda chymorth Pwyllgorau'r Bwrdd – y Bwrdd Cynnwys, Risg ac Archwilio, Taliadau ac Enwebiadau (mae Pwyllgor Pobl wedi disodli'r ddau olaf ar ôl y cyfnod adrodd). Mae ein Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb i'r Prif Weithredwr sydd, drwy'r Bwrdd Rheoli Polisi (PMB), yn sicrhau bod y polisïau a'r ymddygiadau a bennir ar lefel Bwrdd yn cael eu cyfleu a'u rhoi ar waith yn effeithiol ledled Ofcom. Caiff hyn ei gyflawni drwy ddefnyddio cyflwyniadau a chyfarfodydd â thimau rheoli, yn ogystal â chanllawiau gweithdrefnol a pholisïau effeithiol. Mae safle Mewnrwyd Ofcom a chyfathrebiadau wythnosol gyda chydweithwyr hefyd yn cael eu defnyddio fel llwyfan i sicrhau bod cydweithwyr yn cael y newyddion diweddaraf gan Ofcom, a sicrhau eu bod yn cael gwybod am ddatblygiadau a diweddariadau mewn perthynas â meysydd polisi.

Mae gweithgareddau craidd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael eu cofnodi a'u cynllunio'n flynyddol, ond dim ond rhan o'r strwythur sylfaenol gweithrediad y Bwrdd ydy hyn. Mae'r Bwrdd ar ganol mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys datganiad o egwyddorion llywodraethu sy'n arwain gweithgareddau'r Bwrdd. Mae hwn yn edrych ar gyfrifoldebau allweddol y Bwrdd a'r materion sydd wedi cael eu cadw i'r Bwrdd benderfynu arnynt, gan gynnwys y canlynol:

- cymeradwyo cynllun blynyddol, amcanion tymor hir a fframwaith polisi strategol cyffredinol Ofcom;
- cymeradwyo cyllideb flynyddol, polisi ariannol cyffredinol a Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom;
- cymeradwyo cyfrifon ac adroddiad blynyddol Ofcom;
- rheoli risg, rheolaethau mewnol a chydymffurfiad;
- cynnal adolygiad ffurfiol rheolaidd o berfformiad y Bwrdd ei hun a pherfformiad pwyllgorau'r Bwrdd.

Mae agenda flynyddol y Bwrdd yn dilyn y themâu a'r blaenoriaethau strategol a nodir yn ein cynllun blynyddol, yn ogystal â'n rhwymedigaethau rheoleiddio, risg a llywodraethu.

Caiff y Bwrdd ei arwain gan y Cadeirydd, sy'n rheoli'r Bwrdd i sicrhau:

- bod gan Ofcom amcanion priodol a strategaeth effeithiol;
- bod strwythur ar waith i alluogi pob Aelod i gyfrannu'n effeithiol;
- bod y Prif Weithredwr a swyddogion gweithredol eraill yn gallu rhoi'r strategaeth ar waith;
- bod Pwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu sefydlu a'u gweithredu'n iawn, a'u bod yn cynnwys yr aelodau iawn;
- bod gweithdrefnau ar waith i hysbysu'r Bwrdd am berfformiad yn erbyn yr amcanion; a
- bod Ofcom yn gweithredu yn unol â'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol.

Mae Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod rhwng tair a phedair blynedd. Caiff Aelod yr Alban ac Aelod Cymru eu penodi gan Weinidogion yr Alban a Llywodraeth Cymru yn y drefn honno, ar ôl ymgynghori ag Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfyngau a Chwaraeon. Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan y Cadeirydd a'r holl Aelodau Anweithredol, ac mae penodiad y Prif Weithredwr yn galw am gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau wedi'u rhestru yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau, a chedwir Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau. Mae'r naill a'r llall ar gael ar wefan Ofcom.

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r gwaith o reoli Ofcom o ddydd i ddydd, datblygu Strategaeth Ofcom (a fydd wedyn yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd) a gweithredu'r Strategaeth sydd wedi cael ei chymeradwyo i'r Prif Weithredwr. Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei helpu gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r unigolion hyn sy'n creu'r Bwrdd Rheoli Polisi.

Er nad yw Ofcom yn rhwym wrth God Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddir gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol, rydym yn mabwysiadu'r egwyddorion lle mae hynny'n briodol ac yn berthnasol. At ddibenion mabwysiadu prif egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU:

- mae'r Bwrdd yn ystyried bod yr holl Aelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau helaeth arnynt wrth wneud penderfyniadau. Ond, os bydd amgylchiadau arbennig yn codi, cymerir camau priodol i sicrhau bod annibyniaeth yn cael ei gynnal;
- mae'r Bwrdd o'r farn bod gan yr Aelodau, rhyngddynt, amrediad eang o brofiad sy'n sicrhau bod y Bwrdd yn effeithiol i arwain a rheoli Ofcom;
- Aelodau Anweithredol yw mwyafrif aelodau'r Bwrdd. Ystyrir mai'r Dirprwy Gadeirydd yw'r uwch Aelod Anweithredol at ddibenion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU; a
- bydd y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2018/19 cyfarfu'r Bwrdd 10 gwaith.

Mae cofnodion a nodiadau cyfarfodydd y Bwrdd ar gael ar y wefan yn

https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/ofcom-board

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd sydd ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl wedi'u diffinio'n glir (gweler Ffigur x). Disgrifir gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r pwyllgorau hyn isod. Mae gan Ofcom nifer o bwyllgorau eraill sydd â swyddogaeth lywodraethu neu swyddogaeth gynghori i'r Bwrdd. Fe'u disgrifir yn Atodiad 141 ar dudalen o 143.

### Y Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn cynnwys Aelodau Anweithredol y Bwrdd. Fel rheol bydd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr y Grŵp, Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth yn bresennol yn y cyfarfodydd. Y Pwyllgor Enwebiadau sy'n gyfrifol am adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad y Bwrdd, yn ogystal â goruchwylio'r cynllun olyniaeth ar gyfer holl aelodau gweithredol y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r Cadeirydd yn gweithio gyda'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (a phan fo'n briodol y Gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig) ar y broses o ddewis Aelodau Anweithredol ar gyfer y Bwrdd (a, lle bo'n briodol, eu hailethol) ac yn sicrhau bod safbwyntiau'r Pwyllgor Enwebiadau yn cael eu clywed gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n gwneud y penodiadau. Mae'r gwaith o benodi Aelodau Gweithredol i'r Bwrdd yn cael ei wneud gan holl Aelodau Anweithredol y Bwrdd ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau.

### Y Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cynnwys holl Aelodau Anweithredol y Bwrdd. Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid, Cyfarwyddwr y Grŵp, Gwasanaethau Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth yn bresennol mewn cyfarfodydd ar wahoddiad y Pwyllgor Taliadau.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cynghori Ofcom ynghylch y taliadau i'r Prif Weithredwr, Aelodau Gweithredol eraill y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli, yn ogystal ag ynghylch eu telerau ac amodau gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor Taliadau hefyd yn cynghori Ofcom ar delerau ac amodau aelodau rhan-amser y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, y pedwar Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol ac Aelodau Anweithredol eraill o gyrff eraill yn strwythur llywodraethu Ofcom.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn goruchwylio'r broses ar gyfer pennu telerau ac amodau holl gydweithwyr eraill Ofcom. Mae'r Pwyllgor Taliadau hefyd yn goruchwylio ac yn penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn a sefydlwyd gan Ofcom ar gyfer holl gydweithwyr Ofcom.

Mae taliadau Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu pennu gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Petai angen i Ofcom ystyried unrhyw agwedd ar daliadau Aelodau Anweithredol, mae Pwyllgor Taliadau Anweithredol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth, a fydd yn cwrdd ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel y bo'n briodol. O ganlyniad, nid oes dim un Aelod Bwrdd yn rhan o'r broses o bennu eu tâl eu hun.

## Y Pwyllgor Pobl

Ym mis Mai 2019, roedd y Bwrdd wedi creu'r Pwyllgor Pobl i ddisodli'r Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Taliadau (mae'r Pwyllgorau Taliadau Anweithredol yn dal yn bodoli).

Bydd y Pwyllgor Pobl yn gofyn am sicrwydd gan Reolwyr Ofcom bod talentau'n cael eu rheoli'n effeithiol, bod talentau'n cael eu datblygu a bod cynllunio olyniaeth, rheoli perfformiad a thâl, diwylliant a gwerthoedd ac ymgysylltiad cydweithwyr a mesurau a chynlluniau pobl eraill o'r fath mewn lle a fydd yn diwallu gofynion perfformiad, sgiliau ac arbenigedd Ofcom, yn y tymor byr a'r tymor hir.

Mae'r Pwyllgor Pobl hefyd yn nodi'r egwyddorion trosfwaol a pharamedrau polisi taliadau ar draws Ofcom ac mae'n pwyso ac yn mesur ac yn cymeradwyo telerau ac amodau gwasanaeth unigolion, gan gynnwys trefniadau taliadau'r Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr eraill o'r fath fel y cytunir rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn arwain ar y broses o benodi Aelodau Gweithredol y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli ac mae'n cymeradwyo'r cynlluniau olyniaeth ar gyfer Bwrdd Ofcom, yr Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr eraill, fel y cytunir arno rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr.

## Pwyllgor Risg ac Archwilio

Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cynnwys tri o Aelodau Anweithredol y Bwrdd. Gwahoddir y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr y Grŵp, Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolydd Ariannol a'r Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant i gyfarfodydd y Pwyllgor, yn yr un modd ag archwilwyr mewnol ac allanol.

Rôl y Pwyllgor Risg ac Archwilio yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu am briodoldeb ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg Ofcom a'r fframwaith rheolaeth fewnol, a rhoi cyngor ynghylch polisïau cyfrifyddu a'r broses ar gyfer adolygu'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ariannol blynyddol drafft a'u cynnwys. Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o benodi'r archwilwyr mewnol a'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol blynyddol. Caiff swyddogaethau'r Pwyllgor Risg ac Archwilio eu disgrifio'n llawn yn ei gylch gorchwyl, sydd ar gael ar wefan Ofcom.

Mae Ofcom yn rhoi'r swyddogaeth archwilio mewnol i'r cwmni allanol KPMG. Ni chaiff KPMG ddarparu unrhyw wasanaethau eraill i Ofcom os bydd hynny'n bygwth annibyniaeth y broses archwilio mewnol, a gwneir penderfyniadau fesul achos. Cyflawnir y swyddogaeth archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## Y Bwrdd Cynnwys

Mae'r Bwrdd Cynnwys yn un o bwyllgorau Bwrdd Ofcom, gyda chyfrifoldeb cynghori a dirprwyedig dros amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â chynnwys, gan ddelio'n bennaf â darlledu. Mae wedi'i sefydlu o dan statud, yn benodol adran 12(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Gall Bwrdd Ofcom ofyn am gyngor ac argymhellion gan y Bwrdd Cynnwys ar unrhyw agweddau ar benderfyniadau sy'n ymwneud â chynnwys y mae wedi'u cadw iddo ef ei hun.

Y Bwrdd Cynnwys yw prif fforwm Ofcom ar gyfer rheoleiddio ansawdd a safonau teledu a radio. Mae'n gyfrifol am ddeall, dadansoddi a hyrwyddo lleisiau a buddiannau'r gwylwyr, y gwrandawyr a dinasyddion.

Ffigur 8: Presenoldeb Bwrdd Ofcom a Phwyllgorau'r Bwrdd

| | **Bwrdd Ofcom** | **Pwyllgor Taliadau** | **Pwyllgor Risg ac Archwilio** | **Pwyllgor Enwebiadau** | **Bwrdd Cynnwys** | **Gwledydd Etholiadau** | **Pwyllgor Etholiadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd** | **10** | **2** | **5** | **2** | **8** | **1** | **0** |
| | | | **Presenoldeb** | | | | |
| Yr Arglwydd Burns, GCB | 10 | 2 | 5 | 1 | | | |
| Maggie Carver[1] | 4 | 2 | 1 | | | | |
| Dr Angela Dean[2] | 5 | 2 | 3 | | | | |
| Bob Downes | 10 | 2 | 4 | | 5 | | |
| Graham Mather CBE | 10 | 2 | 4 | 1 | | 1 | |
| Y Farwnes Noakes DBE[3] | 2 | | 1 | | | | |
| Nick Pollard[4] | 1 | | | | 1 | | |
| Tim Suter | 10 | 2 | | 1 | 8 | 1 | |
| Ben Verwaayen | 9 | 2 | | 1 | | | |
| Sharon White | 10 | 2 | 4 | 1 | | | |
| Jonathan Oxley | 10 | | | | | | |
| Dr Steve Unger[5] | 3 | | | | | | |

[1] Ymunodd Maggie Carver ar 30 Medi 2018

[2] Ymunodd Dr Angela Dean ar 30 Medi 2018

[3] Gadawodd y Farwnes Noakes ar 31 Mai 2018

[4] Gadawodd Nick Pollard ar 13 Mai 2018

[5] Camodd Dr Steve Unger i lawr o'r Bwrdd ar 19 Mehefin 2018

### Y Bwrdd Rheoli a Pholisi a'r Bwrdd Gweithrediadaud

Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli a Pholisi yn cynnwys yr Uwch Dîm Rheoli, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid. Mae uwch swyddogion gweithredol eraill yn mynychu drwy wahoddiad. Mae'r Bwrdd Rheoli a Pholisi yn darparu fforwm mewnol lle gall uwch swyddogion gweithredol oruchwylio a chraffu ar ddatblygiad mewnol agenda Ofcom, yn ogystal â goruchwylio rheolwyr Ofcom a dyletswyddau rheoleiddio Ofcom.

Y Bwrdd Gweithrediadau sy'n gyfrifol am oruchwylio cynlluniau gweithredol mewnol Ofcom i sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni cylch gwaith Ofcom yn effeithiol. Cadeirir y Bwrdd Gweithrediadau gan Gyfarwyddwr y Grŵp, Gwasanaethau Corfforaethol, ac mae'r aelodau'n cynnwys uwch swyddogion gweithredol o bob rhan o'r sefydliad.

Ffigur 9: Yr Uwch Dîm Rheoli

| Enw | Rôl |
|---|---|
| Sharon White | Prif Weithredwr |
| Kevin Bakhurst | Cyfarwyddwr Grŵp, Polisi Cyfryngau a Chynnwys |
| Alison Crosland | Cyfarwyddwr Grŵp, Gwasanaethau Corfforaethol |
| Lindsey Fussell | Cyfarwyddwr Grŵp, Materion Defnyddwyr ac Allanol |
| Philip Marnick | Cyfarwyddwr Grŵp, Sbectrwm |
| Jonathan Oxley | Cyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth |
| Yih-Choung Teh | Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth ac Ymchwil |
| Luisa Affuso | Prif Swyddog Economegydd |
| Mansoor Hanif | Prif Swyddog Technoleg |
| Polly Weitzman | Cwnsler Cyffredinol |

## Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae effeithiolrwydd y Bwrdd yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Yn ystod 2018/19 roedd adolygiad a oedd wedi'i hwyluso'n allanol wedi asesu effeithiolrwydd y Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Cadeirydd. Roedd hefyd yn cynnwys adolygiad o berfformiad Cyfarwyddwyr unigol, lle gofynnwyd i Gyfarwyddwyr y Bwrdd roi adborth ac ymatebion ynghylch eu perfformiad eu hunain.

Caiff perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd ei asesu gan y Cadeirydd yn flynyddol.

## Atebolrwydd

Anfonir Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ofcom at yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n gosod copïau ohono gerbron dau Dŷ'r Senedd Brydeinig ac yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg, beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r ffordd y mae Ofcom yn rheoli'r arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn, a'i berthynas â'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn y cyswllt hwn, yn cael ei disgrifio yn y Ddogfen Fframwaith.

### Tryloywder

Mae Ofcom yn parhau i adolygu ei gynllun cyhoeddiadau ac yn darparu ystod eang o wybodaeth sydd ar gael yn hwylus ar ei wefan. Lle bo modd, rydym yn darparu'r data rydym yn ei greu a'i gasglu i'r cyhoedd gan ddilyn egwyddorion data agored. Mae ein data agored ar gael ar un porth cyhoeddus ar ein gwefan ac ar y porth data.gov.uk portal, ochr yn ochr â setiau data gan holl adrannau llywodraeth ganol a llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol.

Yn ystod 2018/19, cafodd Ofcom 332 o geisiadau (297 o geisiadau yn 2017/18) am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Pan oedd gennym wybodaeth berthnasol, gwnaethom ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu ran ohoni, mewn 63% o achosion. Cedwir gwybodaeth yn ôl dim ond os yw wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth.

Yn ystod 2018/19, roedd Ofcom hefyd wedi cael 38 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data 2018 (11 o geisiadau yn 2017/18). Pan roedd gennym wybodaeth berthnasol, roeddem wedi darparu'r wybodaeth honno.

### Ymgysylltu

Bydd gweithredoedd Ofcom yn effeithio ar bobl ac ar sefydliadau ledled y DU. O'r herwydd, mae'n bwysig iawn ei fod yn gwneud penderfyniadau ar yr adeg iawn ac yn y ffordd iawn. Rhaid i'r penderfyniadau hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ac wrth wneud y penderfyniadau hyn, mae angen i Ofcom ystyried safbwyntiau'r rheini sydd â diddordeb yn y canlyniad.

Mae ymgynghori'n chwarae rhan bwysig er mwyn cael gafael ar y dystiolaeth hon. Mae'n rhoi cyfle i'r rheini y gallai mater penodol effeithio arnynt, neu sy'n pryderu am fater penodol, gyflwyno eu safbwyntiau i ni cyn y byddwn yn penderfynu ar y cyfeiriad y byddwn yn ei gymryd.

O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei holl brif flaenoriaethau strategol cyn gwneud penderfyniadau. Mae manylion am ddull ymgynghori Ofcom a'r ymgyngoriadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ar gael ar dudalennau 53 a 54.

Bwriad aelodaeth y cyrff sy'n ffurfio'r strwythur llywodraethu yw cynnig lefelau penodol o arbenigedd er mwyn gallu profi a herio polisïau a phrosiectau Ofcom yn gadarn cyn gwneud penderfyniadau.

Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cynnwys naw arbenigwr annibynnol, sy'n gweithio i ddiogelu ac i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, dinasyddion a busnesau bach yn y sector cyfathrebiadau. Mae Ofcom yn rhannu gwybodaeth a syniadau â'r Panel yn ystod y camau datblygu cynnar, sy'n ei alluogi i ddarparu cyngor cadarn ac annibynnol ar bolisïau i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau o'r cychwyn. Hefyd, mae Ofcom yn ymgysylltu â nifer o gyrff eraill sy'n ymgynghori â defnyddwyr, gan gynnwys y Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebiadau mae'n ei gynnal, ac mae'n gwahodd cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o gyrff sy'n eiriol ar ran defnyddwyr.

Mae'r ymgysylltu hwn yn fwyfwy pwysig yng ngwledydd datganoledig y DU, lle mae swyddogaeth aelodau gwledydd y DU ar y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol yn eithriadol o werthfawr wrth helpu Ofcom i ystyried materion penodol wrth iddo lunio ei bolisïau a'u rhoi ar waith. Mae Ofcom hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill (gan gynnwys Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU), sefydliadau Ewropeaidd a chyrff byd-eang er mwyn sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn fforymau rhyngwladol yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y DU.

## Y fframwaith risg a rheolaeth a rheoli risg


Mae rheoli risg yn rhan bwysig o fframwaith rheolaeth fewnol Ofcom ac mae'n cwmpasu'r risgiau strategol a gweithredol o fewn polisi rheoli risg, sy'n cael ei gefnogi a'i gymeradwyo gan Fwrdd Ofcom a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r strwythur llywodraethu yn cael ei ategu gan fframwaith risg a rheolaeth Ofcom, sydd wedi'i ddylunio i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei ddyletswyddau statudol a chyflawni ei amcanion ar yr un pryd â diogelu arian cyhoeddus.

Mae'r fframwaith rheolaeth yn canolbwyntio ar 3 llinell o amddiffyniad. Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cynghori'r Bwrdd ynghylch pa mor ddigonol yw polisïau a gweithdrefnau rheoli risg Ofcom, i ba raddau y cânt eu rhoi ar waith, ac adolygu pa mor ddibynadwy a dilys yw'r sicrwydd a roddir.

Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy sicrwydd datganiadau blynyddol gan aelodau'r Bwrdd Rheoli a Pholisi a'r adroddiadau sy'n cael eu darparu i'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ar risgiau (llinell 1af yr amddiffyniad), adolygiadau chwarterol sy'n cael eu darparu gan y Pennaeth Rheoli Risg (2il linell yr amddiffyniad) ac archwiliadau mewnol ac allanol (3ydd llinell yr amddiffyniad).

Ffigur 10: Fframwaith risg a rheolaeth Ofcom




Mae Ofcom yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref yn y ffordd mae'n rheoli risg drwy waith y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Wrth roi cymorth i'r Bwrdd, mae'r Bwrdd Rheoli a Pholisi a'r Bwrdd Gweithrediadau yn gyfrifol am ddarparu arweiniad ar reoli risgiau sy'n codi yn sgil datblygiadau rheoleiddio a gweithredol penodol.

I sicrhau bod ein fframwaith rheoli risg yn effeithiol ac yn gydnaws â gofynion y sefydliad, mae adolygiad o'n fframwaith rheoli risg yn cael ei gynnal bob hyn a hyn fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol. Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad yn ffurfio rhan o raglen barhaus i wella ein fframwaith rheoli risg. Ym mis Chwefror 2019, roedd Bwrdd Ofcom wedi adolygu a diweddaru Polisi Rheoli Risg Ofcom a'r Datganiadau Archwaeth Risg. Mae'r gwaith wedi parhau i wreiddio'r broses o ystyried archwaeth risg ym mhrosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau'r sefydliad.

Mae polisi a gweithdrefnau rheoli risg Ofcom yn diffinio'n glir ei ddull o reoli risg, yn ogystal â phennu'r swyddogaethau, yr atebolrwyddau a'r cyfrifoldebau rheoli risg penodol sy'n bodoli ar draws y sefydliad.

Mae cofrestr risgiau strategol Ofcom yn cael ei hadolygu'n fisol gan y Bwrdd Rheoli a Pholisi, a bob chwarter gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio. Bob chwarter, mae Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r Bwrdd ar ganlyniad adolygiad y Pwyllgor o'r gofrestr risgiau strategol. Ym mis Chwefror 2019 cynhaliodd Bwrdd Ofcom adolygiad a chytunwyd y byddai'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risgiau strategol yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd y gofrestr risg strategol i esblygu, i sicrhau ei bod yn gadael i'r Bwrdd Rheoli a Pholisi ganolbwyntio ar y prif risgiau a allai danseilio gallu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion.

Caiff risgiau ar lefel grŵp eu hadolygu gan y Cyfarwyddwyr Grŵp, eu timau o uwch reolwyr a'r Pennaeth Rheoli Risg fesul mis, a'u cynnwys ar y gofrestr risgiau strategol pan fo'n briodol. Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gan gydweithwyr y sgiliau priodol i ganfod, i asesu ac i reoli risg yn unol â pholisi Ofcom i wreiddio a chefnogi diwylliant o reoli risg yn dda. Wrth gefnogi rôl uwch reolwyr yn hyrwyddo'r broses risg, mae'r Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, ynghyd â'r Partneriaid Busnes Cyllid a Phencampwyr Risg, yn gweithio ar draws pob adran yn y sefydliad i hyrwyddo ac i integreiddio'r broses rheoli risg, ac i gefnogi cydweithwyr a rhoi gwybodaeth iddynt.

## Rheoli a rheolaeth fewnol

Caiff y cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol ei dirprwyo gan Fwrdd Ofcom i unigolion a phwyllgorau penodol. Mae'r cynllun dirprwyo hwn yn cael ei amlinellu yn y Fframwaith Dirprwyaethau. Cytunodd y Bwrdd ar y Fframwaith Dirprwyaethau ym mis Gorffennaf 2018 a chafodd ei ddiwygio ym mis Mawrth 2019 er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â strwythur y sefydliad ac yn adlewyrchu ei archwaeth am risg yn briodol. Ar ben hynny, ceir sicrwydd drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dimau arbenigol ar draws y sefydliad, gan gynnwys y Pwyllgor Gwarchodaeth, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Parhad Busnes.

Drwy gynnal asesiadau effaith (fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003) sy'n gwerthuso effaith unrhyw benderfyniad rheoleiddio posibl ar draws yr ystod o randdeiliaid, mae ystyried risg wrth galon ein gweithgareddau.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi darlun cryno o rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i wella rhagor ar y fframwaith rheolaeth.

## Rheoliad Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd ar Ddiogelu Data (GDPR)

Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi sefydlu rhaglen waith a oedd wedi cael ei dylunio i sicrhau bod Ofcom yn barod ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data pan fyddai'n dod i rym ym mis Mai 2018. Fel rhan o'r rhaglen hon roedd Deloitte LLP wedi cwblhau asesiad parodrwydd ar gyfer GDPR a chynhyrchu map wedi'i dargedu at fynd i'r afael â chanfyddiadau thematig yr asesiad parodrwydd. Sefydlwyd Grŵp Llywio, sy'n cynnwys arbenigwyr a chynrychiolwyr o bob rhan o Ofcom, er mwyn goruchwylio'r rhaglen waith. Mae'r Grŵp Llywio yn adrodd yn rheolaidd i Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom ac i'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ac i'r Bwrdd yn ôl yr angen.

Mae ein datganiad preifatrwydd, sy'n ddogfen waith, ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/foi-dp/general-privacy-statement

## Trefniadau diogelwch ffisegol a phersonol

Mae lefel y bygythiad i'r DU yn dal yn "Ddifrifol", felly rydym yn parhau i wella diogelwch ffisegol a diogelwch personol cydweithwyr. Mae Bwrdd Ofcom wedi diwygio ei archwaeth am risg ar gyfer Iechyd a Diogelwch, diogelwch Ffisegol a Gwybodaeth o "Sylfaenol" i "Gelyniaethus" - mae osgoi risg ac ansicrwydd nawr yn amcan sefydliadol allweddol i Ofcom.

Mae asesiadau o'r bygythiad o ymosodiadau ffisegol allanol wedi cael eu cynnal ym mhob un o swyddfeydd ein Gwledydd a'n Rhanbarthau. Rydym hefyd wedi cynnal gweithdai gyda grŵp o gydweithwyr Ofcom i lunio proses ar gyfer asesu risg diogelwch personol. Bydd y rhaglenni hyn yn cyd-fynd ag archwaeth Bwrdd Ofcom am risg ac yn caniatáu i ni ymateb yn fwy effeithlon ac effeithiol i ddigwyddiadau a allai beri risg i ddiogelwch ffisegol neu bersonol.

## Cynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr/adfer ar ôl argyfwng/parhad busnes

Cafodd ein cynlluniau i reoli digwyddiadau mawr eu profi ym mis Mai 2018 a chawsant eu gwella yn dilyn hynny. Bydd y cynlluniau'n cael eu profi eto yn nes ymlaen yn 2019 gyda thema diogelwch ffisegol a phersonol i'r ymarfer digwyddiadau mawr.

Rydym wedi llwyddo i symud i ffordd fwy hyblyg ac ystwyth o weithio ar draws Ofcom, ac mae asesiadau o'r effaith ar fusnes er mwyn cynllunio parhad y busnes wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu hyn.

Mae symud gwasanaethau i'r cwmwl wedi gwella ein galluoedd parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb. Mae hyn wedi caniatáu i ni brofi ein galluoedd yn fwy effeithlon ar draws ein holl systemau technoleg gwybodaeth.

## Diogelwch Gwybodaeth

Mae diogelu systemau gwybodaeth Ofcom yn erbyn bygythiad seiber cynyddol yn dal yn flaenoriaeth. Mae ymdrechion gan bartïon allanol i dorri diogelwch Ofcom yn amlwg. Nid yw'r rhain wedi llwyddo ganlyniad i'r rheolaethau diogelwch sydd ar waith, fel dilysu dau ffactor. Rydym yn parhau i wella ein gwaith monitro i ganfod ymosodiadau neu wendidau posibl ac rydym wedi cyflwyno offer newydd sy'n golygu ei bod yn rhaid categoreiddio dogfennau a negeseuon e-bost. Mae'r profion wedi cynnwys defnyddio ymosodiadau potsian ffug i wella ymwybyddiaeth defnyddwyr a phrofiad treiddiad technegol yn erbyn y seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a ffisegol.

O safbwynt llywodraethu, mae gwaith wedi parhau i gyd-fynd â'r safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth (ISO27001) ac, yn ystod y flwyddyn, cafwyd ardystiad llwyddiannus eto yn erbyn fframwaith Cyber Essential Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU. Rydym hefyd wedi cadarnhau, drwy archwilio mewnol, ein bod yn cyd-fynd â Deg Cam at Seiberddiogelwch y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

## Polisi chwythu'r chwiban a llinell gymorth

Ar ôl adolygu ein polisi chwythu'r chwiban, rydym nawr wedi'i gwneud hi'n haws i gydweithwyr ddatgelu materion o dan y polisi a symud ymlaen drwy'r broses. Ar ben hynny yn 2018/19, roeddem wedi cyflwyno llinell gymorth sy'n cael ei chynnal a'i gweinyddu'n allanol sy'n caniatáu i gydweithwyr ddatgelu'n ddienw.

## Sicrwydd annibynnol dros reolaethau mewnol

Mae Ofcom yn rhoi ei swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol i KPMG. Mae KPMG yn cyflawni ei waith yn unol â'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol a gymeradwyir gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio yn flynyddol ac yn unol a Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Yn cyfrannu at y cynllun mae cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol, asesiad cyfnodol o drefniadau rheoli risg, gwerthusiad o ganlyniadau archwiliadau mewnol y flwyddyn flaenorol, ac ystyriaeth barhaus o'r amgylchedd mae Ofcom yn gweithredu ynddo.

Yn ystod 2018/19, cafodd 11 o archwiliadau mewnol eu cynnal, gan gynnwys

- Adolygiadau o brosesau ariannol craidd (Rheolaethau Ariannol Allweddol, Dyrannu Costau a Phennu Tariffau a Rheolaethau Cyllidebol ac Adroddiadau Rheoli cysylltiedig);
- Adolygiadau cydymffurfio (Preifatrwydd Data – GDPR, Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Gwybodaeth);
- Prosesau gweithredol (trwyddedu Dolenni Sefydlog a Radio Busnes a'r Prosiect Ystwyth);
- TGCh (Seiberddiogelwch a Sharepoint ar-lein); a
- Llywodraethu a Rheoli Risg (adrodd ar Reoli Risg).

ac adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu er mwyn sicrhau cysondeb â dealltwriaeth yr Archwiliad Mewnol ar sail eu rhaglen waith.

## Datgelu er lles y cyhoedd

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr am ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn wybodaeth sydd er lles y cyhoedd. Mae Ofcom yn 'berson rhagnodedig' fel y'i diffinnir o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014. Felly, gall unigolion sy'n gweithio y tu allan i Ofcom, ond yn y sector cyfathrebiadau, gysylltu ag Ofcom os oes ganddynt bryderon bod rhywbeth o'i le yn eu sefydliad eu hunain. Yn ystod 2018/19, ni chafodd Ofcom unrhyw ddatgeliadau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 neu fel arall.

## Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu

Fel y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Cyfarwyddwyr y Grwpiau sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Y fframwaith hwn yw sail gwaith y drefn archwilio mewnol a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i adolygu ac i oruchwylio mewn modd strategol y trefniadau rheolaeth fewnol a rheoli risg drwy adroddiadau rheolaidd gan gyfarwyddwyr ar eu maes cyfrifoldeb a thrwy adroddiadau penodol i'w trafod gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio ac yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio wedi ystyried:

- individual internal audit reports, management responses and progress against any actions raised;
- adroddiadau archwilio mewnol unigol, ymatebion rheolwyr a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yng nghyswllt unrhyw gamau a nodwyd;
- adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol a'i farn ar ddigonolrwydd ein system rheolaeth fewnol;
- adroddiadau ac argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adroddiadau rheolaidd ar gofrestr risgiau strategol Ofcom, gan gynnwys pennu'r risgiau i system rheolaeth fewnol y sefydliad a gwybodaeth am y rheolaethau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau hyn; ac
- unrhyw adroddiadau ychwanegol am sicrwydd y mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio wedi gofyn amdanynt.

Hyd y gwn i, ac ar sail y cyngor yr wyf wedi'i dderbyn gan y rheolwyr hynny sydd â chyfrifoldebau dynodedig dros reoli risgiau a'r system rheoli risgiau, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ganfyddiadau o bwys yng nghyswllt rheolaeth fewnol ar gyfer 2018/19.

**Sharon White**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2019

## Datganiad cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad Cyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Datganiad Cyfrifon hwn yn cael ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), ar sail gronnus. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad cyfrifon ar sail busnes byw.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

### Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd, sy'n dirprwyo iddi'r cyfrifoldeb dros reoli Ofcom o ddydd i ddydd. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol, dros yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom. Mae'r penodiad yn cynnwys dyletswyddau i fod yn gyfrifol am reoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda, a diogelu arian cyhoeddus.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Ddogfen Fframwaith. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw a rhaid iddi lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei chyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'i chyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei dyletswyddau.

# Ein gweithwyr

### Gwerthoedd Ofcom

Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n ffordd o weithredu, yn llywio ein gwaith ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'n ffordd o gydweithio er mwyn cyflawni'n blaenoriaethau. Mae gennym bedwar gwerth craidd sy'n adlewyrchu ein dymuniad i weithio mewn ffordd agored ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar bobl.

Sef:
- Rhagoriaeth
- Cydweithio
- Ystwythder
- Grymuso

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Cafodd ein pedwerydd cynllun amrywiaeth a chynhwysiant ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018 ac mae'n adlewyrchu ein huchelgais i ganolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl waith gan greu diwylliant lle mae cydweithwyr yn cael eu gwerthfawrogi ar sail haeddiant a thalent, a gan sicrhau ein bod yn gyflogwr ac yn rheoleiddiwr mwy effeithiol a chyfrifol yn y sectorau teledu, radio, post a thelegyfathrebiadau yn y DU. Fel cyflogwr, rydym yn ymrwymedig i drin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg. Rydym yn benderfynol o hyrwyddo cyfle cyfartal i bob cydweithiwr, ni waeth beth yw ei hil, ei anabledd, ei rywedd, ei oed, ei grefydd neu gred na'i gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r ymrwymiad hwn wrth galon ein polisïau cyflogaeth a'n hagwedd at recriwtio a datblygu gyrfa.

Mae Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant Ofcom yn egluro sut mae amrywiaeth a chydraddoldeb yn hanfodol i'r ffordd rydym ni'n gweithredu, fel cyflogwr ac fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU. Mae'n adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud ers sefydlu ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn 2014, ac yn amlinellu ein camau gweithredu a'n hamcanion ar gyfer 2018-2022.

Sef:

- creu gweithlu amrywiol a chynhwysol er mwyn sicrhau bod y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu yn y DU yn cael ei hadlewyrchu'n well;
- sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan ganolog o'n diwylliant a'n harferion gwaith er mwyn gwneud yn siŵr pawb yn deall amrywiaeth, yn ei gefnogi ac yn atebol amdano; a
- sicrhau bod anghenion a buddiannau gwahanol pob unigolyn yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein gwaith rheoleiddio.

Byddwn yn adrodd ar gynnydd ar ddiwedd blwyddyn gyntaf ein rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ystod yr haf. Rydym yn monitro ein polisïau a'n harferion yn helaeth drwy arolygon ymysg cydweithwyr, drwy ymgynghori â rhwydweithiau cydweithwyr, drwy feincnodi a drwy gynnal archwiliad cyflog cyfartal rheolaidd.

Ym mis Mawrth 2019 roeddem wedi cyhoeddi canlyniadau ein harchwiliad tâl rheolaidd sy'n cynnwys archwiliad cyflog o ran y rhywiau ac ethnigrwydd. Roedd y dadansoddiad o'r bwlch cyflog yn dangos ein bod wedi parhau i leihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ond bod angen gwneud mwy, a fydd yn cynnwys parhau i symud ymlaen at ein targedau i gynyddu cyfran y menywod a chydweithwyr o leiafrifoedd ethnig sydd mewn uwch swyddi. Canfu ein harchwiliad hefyd lefel uchel o gysondeb mewn cyflog ar draws categorïau proffesiynol gwahanol, gan ddangos bod penderfyniadau ynghylch tâl yn cael eu gwneud yn ofalus, gan ystyried materion cymharol yn fewnol, a bod y bylchau cyflog a ganfuwyd mewn archwiliadau blaenorol wedi lleihau'n sylweddol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- roeddem wedi cynnal hyfforddiant recriwtio cynhwysol ar gyfer yr holl reolwyr sy'n recriwtio wrth i ni geisio lleihau neu ddileu rhagfarn o'n prosesau recriwtio. Mae'n rhaid i reolwyr sy'n recriwtio fod wedi dilyn a phasio'r cwrs hyfforddi hwn cyn iddynt gael recriwtio;
- roeddem wedi gofyn i reolwyr sy'n recriwtio sicrhau amrywiaeth yn ein paneli cyfweld ac ymysg yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer ar gyfer pob swydd – er enghraifft, drwy gael cymysgedd rhyw a chynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig pan fydd modd;
- Roeddem wedi parhau i wreiddio hyfforddiant 'rhagfarn ddiarwybod' gorfodol drwy fynnu bod holl gydweithwyr Ofcom yn dilyn modiwl e-ddysgu bob blwyddyn. Mae hwn yn amlygu y gallai rhagfarnau fodoli sy'n gallu effeithio ar y broses o benderfynu ynghylch dyrchafiad, symud ymlaen mewn gyrfa a pherfformiad;
- er mwyn dangos yn glir ein bod yn croesawu gweithio'n hyblyg, rydym wedi newid yr oriau gwaith ar bob hysbyseb swydd o fod yn 'amser llawn' i 'hyblyg';
- rydym wedi cynyddu ein hymrwymiad i brentisiaethau ac interniaethau i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa, ac rydym wedi penodi recriwtiwr graddedigion arbenigol er mwyn i ni allu cyrraedd cronfa ehangach a mwy amrywiol o ymgeiswyr;
- rydym wedi parhau i wreiddio ein proses i gyflwyno dulliau gweithio'n ystwyth, er mwyn cynnig yr amgylchedd a'r arferion gwaith sydd eu hangen arnom i gefnogi ein gwerthoedd a'n diwylliant. Bydd y newidiadau a ddaw yn sgil dulliau gweithio'n ystwyth yn gweddnewid y sefyllfa, ac rydym yn ceisio bodloni anghenion pob cydweithiwr a siapio'r ffordd rydym yn cydweithio mewn tair elfen allweddol: pobl, lle a thechnoleg;
- rydym wedi parhau i gefnogi a gweithio gyda'n Grŵp Anabledd a Lles;



- rydym wedi parhau i gefnogi a gweithio gyda'n rhwydweithiau amrywiaeth: Rhwydwaith Menywod Ofcom (OWN); y Rhwydwaith Rhieni a Gofalwyr, y Rhwydwaith Affinity, sy'n cefnogi cydweithwyr a chynghreiriaid lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT); y Rhwydwaith Gwrando, gyda gwirfoddolwyr yn cynnig cefnogaeth anffurfiol rhwng cyfoedion a'r rhwydwaith RACE sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o ddiwylliant ac ethnigrwydd. Roeddem hefyd wedi sefydlu Gweithgor Symudedd Cymdeithasol i'n helpu ni i feddwl am gynhwysiant cymdeithasol a datblygu cynllun gweithredu symudedd cymdeithasol;
- roeddem wedi cynnwys elfen wytnwch ym mhob un o'n rhaglenni arweinyddiaeth;
- rydym yn dal yn aelodau gweithredol o'r clwb 5%, sy'n cynnwys cyflogwyr sy'n gobeithio ac sydd wedi ymrwymo i gael 5% o'u gweithlu mewn swyddi ennill a dysgu gan gynnwys prentisiaid a graddedigion ar gynlluniau hyfforddi ffurfiol;
- rydym yn dal i weithio'n agos gyda Busnes yn y Gymuned, Stonewall a'r Fforwm Anabledd Busnes i gael eu cyngor arbenigol, eu harferion gorau a'u meincnodi;
- cadw ein statws cyflogwr band aur ym mynegeion cydraddoldeb hiliol a rhyw Busnes yn y Gymuned;
- rydym yn dal yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd.

Ffigur 11: Yn 2015, gosodasom y targedau ar gyfer cynyddu nifer y menywod ar draws Ofcom yn gyffredinol, ac mewn uwch swyddi a chynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn uwch swyddi. Yn ystod 2018 roeddem yn falch o gyrraedd a rhagori ar ein targed ar gyfer menywod mewn uwch swyddi. Roeddem wedi symud ymlaen yn raddol, ond yn arafach, gyda'n targed rhyw cyffredinol ac roedd ein cynnydd yn erbyn ein targed lleiafrifoedd ethnig wedi aros yr un fath â'r llynedd.

## Rhyw

| | Cyfansoddiad Ofcom ar hyn o bryd | | Economaidd weithgar** | | Targedau: Erbyn y 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 47% yn fenywod | 53% yn ddynion | 47% yn fenywod | 53% yn ddynion | 50% yn fenywod | 50% yn ddynion |
| Arbenigwyr/Uwch Reolwyr ac Arbenigwyrr* | 43% yn fenywod | 57% yn ddynion | Amherthnasol | | 40% yn fenywod | 60% yn ddynion |

## Ethnigrwydd

| | Cyfansoddiad Ofcom ar hyn o bryd | | | | Economaidd weithgarr** | Targedau: Erbyn y 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 20% lleiafrifoedd ethnig | 75% ethnig gwyn | 5% ddim yn hysbys | 5% dewis peidio â dweud | 13% minority ethnic | Dim targed |
| Arbenigwyr/Uwch Reolwyr ac Arbenigwyr* | 11% lleiafrifoedd ethnig | 84% ethnig gwyn | 2% ddim yn hysbys | 3% dewis peidio â dweud | Amherthnasol | 13% o gefndir lleiafrifoedd ethnig |

Sail: pob cydweithiwr ddiwedd mis Mawrth 2019
*Mae'r rhain yn cael eu diffinio fel rolau ar brif lefelau a lefelau Uwch Reolwyr ac Arbenigwyr (SMS).
**(Cyfrifiad 2011)

Er ein bod yn cychwyn gyda thargedau rhyw ac ethnigrwydd, rydym yn benderfynol o sicrhau cyfle cyfartal a darparu diwylliant cynhwysol i bob grŵp na chynrychiolir mohono'n ddigonol.

Ein ffocws ar gyfer 2019/2020 fydd gwella profiad cyffredinol ein cydweithwyr anabl a'r rheini sydd â chyflwr tymor hir, a'n cydweithwyr ethnig lleiafrifol. Conglfaen hyn fydd ein ffocws ar ddiwylliant agored a chynhwysol er mwyn i gydweithwyr allu bod yn nhw eu hunain a bod y gorau y gallant fod yn eu gwaith.

## Ymgynghori â chydweithwyr a'u cynnwys

Anogir cydweithwyr i helpu i sicrhau bod Ofcom yn cael safbwyntiau amrywiol yn ei waith. Mae ein dulliau ffurfiol arferol o hysbysu ac ymgynghori â chydweithwyr yn cynnwys:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith cydweithwyr ar draws Ofcom sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd (sy'n cynnwys dau aelod o'r undeb);
- ein rhwydweithiau amrywiaeth cydweithwyr;
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom;
- cyfarfodydd grŵp rheolaidd, i siarad â chydweithwyr, ac i glywed ganddynt;
- cyfarfodydd grŵp rhyngweithiol gyda'r Prif Weithredwr a chadeirydd Bwrdd Ofcom, sy'n fforwm i gydweithwyr ofyn cwestiynau iddynt yn uniongyrchol;
- arolygon cydweithwyr, a hynny'n ddienw sy'n gwahodd cydweithwyr i rannu eu safbwyntiau ar amrywiaeth eang o bynciau. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn rhoi sylfaen i'n gwaith yn datblygu ein sefydliad.

## Datblygiad proffesiynol

Mae ansawdd ac ymrwymiad ein pobl yn ganolog i'n gallu i gyflawni ein dyletswyddau. Yn ystod 2018 roeddem wedi parhau i gefnogi cydweithwyr yn eu gyrfaoedd drwy amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu. Roeddem wedi cyflwyno Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol i wella gallu pobl i arwain a rheoli ar draws y sefydliad. Roeddem hefyd wedi parhau â'n Rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol i gadw ac i fuddsoddi mewn talentau uwch arweinyddiaeth drwy raglen wedi'i theilwra, i ddiwallu anghenion ein cydweithwyr.

## Polisïau a phrosesau cyflogaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff pob cydweithiwr ei drin yn deg a chydag urddas a pharch. Rydym yn adolygu ein polisïau a phrosesau staff yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd, yn ogystal â gofynion cyfraith cyflogaeth.

Yn ystod 2018, wrth adeiladu ar ein hymrwymiad i greu gweithle cynhwysol, roeddem wedi cyflwyno polisi trawsnewid yn y gwaith sy'n nodi sut rydym yn cefnogi cydweithwyr sydd yn trawsnewid, yn ystod y trawsnewid ac wedyn. Rydym yn cydnabod y bydd y bwriad i drawsnewid neu ddechrau'r trawsnewid yn wahanol i bawb, ac felly mae Ofcom wedi ymrwymo i weithio gyda'r unigolion i ystyried eu hanghenion eu hunain ac i sicrhau urddas a pharch ar hyd eu llwybr trawsnewid. Roeddem wedi gweithio gyda'n rhwydwaith o gydweithwyr LGBT i ddatblygu ac i lunio'r polisi ac roeddem wedi cael ein cefnogi gan wasanaeth ymgynghorol a oedd wedi byw drwy'r profiad er mwyn lansio'r polisi.

Roeddem hefyd wedi addasu ein polisi urddas yn y gwaith gyda'r nod o ddileu unrhyw fath o aflonyddu neu fwlio yn y gwaith. Os oes unrhyw gydweithiwr yn teimlo eu bod wedi cael eu bwlio neu eu haflonyddu, rydym yn eu hannog yn gryf i roi gwybod i ni.

## Absenoldeb

Rydym yn hybu diwylliant lle mae presenoldeb da yn ddisgwyliedig ac yn cael ei werthfawrogi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes modd osgoi absenoldeb am resymau meddygol o bryd i'w gilydd.

Ein nod yw trin staff sy'n sâl yn deg ac â chydymdeimlad gan roi cefnogaeth iddynt, lle bo modd, eu cefnogi i'w galluogi i wella ac i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2018/19, roedd nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd yn 4.3 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr (2017/18, 4.9 diwrnod) Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y sector cyhoeddus sef 9.8 diwrnod y flwyddyn.

# Adroddiad taliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi i gydymffurfio cymaint ag y bo modd ac i'r graddau sy'n briodol ag Atodlen 8 o Reoliadau'r Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, er nad oes yn rhaid i Ofcom gydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac wedi mabwysiadu'r darpariaethau, ac yn cydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cynnwys holl aelodau anweithredol Bwrdd Ofcom, fel y pennir gan Fwrdd Ofcom, y mae'r manylion wedi'u nodi ar dudalen 69. Dim ond aelodau'r Pwyllgor gaiff fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn cael cyngor gan Gyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid Ofcom ac fel rheol byddid yn disgwyl i'r Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid a'r Prif Weithredwr ddod i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Pan fo angen a phan fo'n briodol, bydd y Pwyllgor Taliadau hefyd yn cael cyngor a/neu wasanaethau gan gydweithwyr Ofcom neu gan sefydliadau allanol arbenigol.

Ni fydd dim un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## Polisi cyffredinol

Wrth bennu Polisi Taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Taliadau y dylai Ofcom, gan ystyried ei fod yn gorff cyhoeddus, gynnig fframwaith gwobrau a fydd yn denu ac yn cadw'r rheolwyr o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ac i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol.

## Elfennau taliadau

Dyma brif elfennau taliadau'r Aelodau Gweithredol a'r Uwch Dîm Rheoli:

### Cyflog

Pennir cyflog sylfaenol Aelodau Gweithredol a'r Uwch Dîm Rheoli drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr, ynghyd â dadansoddiad meincnodi o dueddiadau'r farchnad berthnasol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei adolygu'n flynyddol a daw unrhyw newidiadau i rym ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn.

### Buddion safonol a hyblyg

Mae pob Aelod Gweithredol a phob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn derbyn rhai buddion safonol: yn benodol yswiriant meddygol preifat, yswiriant bywyd, amddiffyniad incwm grŵp a'r cyfle i gael archwiliad iechyd blynyddol. Nid yw cyfanswm gwerth yr amddiffyniad incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol yn cael ei ddatgelu yn y tablau taliadau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn ei drin fel enillion trethadwy.

Hefyd, darperir lwfans buddion hyblyg sy'n caniatáu i'r unigolyn dan sylw brynu buddion penodol.

### Taliadau sy'n ymwneud â pherfformiad

Nid yw Ofcom yn darparu cynllun cymhelliant tymor hir ar gyfer ei weithwyr. Mae pob Aelod Gweithredol a phob Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn cymryd rhan mewn cynllun bonws blynyddol ar sail perfformiad, sy'n golygu bod modd cydnabod y rheini sydd wedi gwneud yn arbennig o dda mewn unrhyw flwyddyn heb godi lefelau cyflog sylfaenol. Caiff hwn ei gyfrifo fel canran o'r cyflog (amhensiynadwy) ar sail perfformiad yr unigolyn, hyd at uchafswm o 20%.

Mae pob bonws perfformiad yn nhabl 3 yn ymwneud â pherfformiad unigolyn yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Nid yw bonws perfformiad yn cael ei dalu i'r rheini a oedd wedi dechrau yn eu swydd hanner ffordd drwy'r flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi cymeradwyo pob bonws ac maent yn cael eu cronni ond nid oeddent wedi cael eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd y bonysau blynyddol a ddangosir yn cael eu talu ym mis Gorffennaf 2019.

## Datgeliad cyflog teg

Rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau'r unigolion sy'n cael y tâl uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad. Caiff data'r datgeliad cyflog teg ei ddangos isod:

Nid ydy'r tâl canolrif yn cynnwys yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf ac mae'n seiliedig ar dâl blynyddol cyfwerth ag amser llawn fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Roedd tâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19 yn y band £390,000-£395,000 (£380,000-385,000 yn 2017/18). Roedd hyn 6.80 gwaith (6.78 gwaith yn 2017/18) tâl canolrif gweithlu Ofcom sef £57,548 (2017/18: £56,704).

| Datgeliad cyflog teg | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf (£000) | 390-395 | 380-385 |
| Tâl canolrif (£) | 57,548 | 56,704 |
| Cymhareb tâl | 6.80 | 6.78 |

Yn 2018/19, roedd taliadau'n amrywio o £17,537 i'r band uchaf £395,000 (2017/18 ystod: £17,812 i £385,000). Er mwyn gallu cymharu, mae'r tâl yn cynnwys cyflog sylfaenol, tâl perfformiad, lwfans buddion hyblyg a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, unrhyw gyfraniadau pensiwn cyflogwr na gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Ni dderbyniodd yr un gweithiwr dâl a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf.

### Trefniadau pensiwn

Dan drefniadau pensiwn Ofcom, mae pob Aelod Gweithredol a phob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn cael lwfans, a bennir fel canran o'r cyflog sylfaenol, y gall yr unigolyn ei gael fel cyflog ychwanegol neu ei fuddsoddi mewn cynllun pensiwn o'i ddewis.

Ni chafodd yr un Aelod Anweithredol cyfredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## Arweiniad i'r tablau taliadau

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd y Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Uwch Dîm Rheoli, sydd wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar gael yn y tablau a'r nodiadau canlynol.

Mae'r tablau'n adlewyrchu'r taliadau am y rhan honno o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n aelodau o'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynnwys yn unig, neu'n aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli. Roedd yr unigolion hynny sydd â '+' wrth eu henw yn eu rolau am ran yn unig o flwyddyn ariannol 2017/18 neu 2018/19.

Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 78 a 79) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y tablau taliadau. Mae'r holl Aelodau Gweithredol yn cael eu rhestru o dan yr Uwch Dîm Rheoli yn Nhabl 3.

Mae'r cyfeirnodau yn y nodiadau canllaw a ddangosir wrth ymyl enwau unigolion yn cyfeirio at y nodiadau ar y tablau taliadau ar dudalennau 97 a 98.

Mae'r gost gyfatebol flynyddol o dan bob tabl, sy'n adlewyrchu cyfanswm y gost flynyddol petai'r holl Aelodau wedi bod yn eu rolau am y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn cael gwared ag unrhyw amrywiadau oherwydd newidiadau yn yr aelodau yn ystod y flwyddyn ariannol, ac mae'n golygu bod modd cymharu cyfanswm y costau, gan dynnu sylw at newidiadau polisi rhwng blynyddoedd ariannol.

Mae'r tablau canlynol yn cael eu harchwilio.

**Tabl 1:** Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom: 2018/19

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Ffioedd 18/19 £ | Ffioedd 17/18 £ |
|---|---|---|---|
| Yr Arglwydd Burns GCB + | 1 | 120,000 | 30,000 |
| Maggie Carver + | 1,2 | 35,000 | - |
| Graham Mather CBE | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Ben Verwaayen | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Tim Suter + | 1,2 | 42,519 | 21,260 |
| Bob Downes + | 1 | 42,519 | 7,087 |
| Dr Angela Dean + | 1,2 | 21,259 | - |
| Y Farwnes Noakes DBE | 1,2 | 11,667 | 70,000 |
| Nick Pollard + | 1,2 | 4,930 | 42,519 |
| Y Fonesig Patricia Hodgson DBE + | 1,2 | - | 106,875 |
| Y Fonesig Lynne Brindley DBE + | 1,2 | - | 17,716 |
| | | **362,932** | **380,495** |

*Cost gyfatebol flynyddol: 2018/19 £402,595 (2017/18 £402,595)*

**Tabl 2:** Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom: 2018/19

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Ffioedd 18/19 £ | Ffioedd 17/18 £ |
|---|---|---|---|
| Aled Eirug | 1 | 16,800 | 12,300 |
| Janey Walker | 1 | 24,150 | 17,963 |
| Robin Foster | 1 | 16,800 | 12,300 |
| Monisha Shah + | 1,3 | 16,800 | 8,400 |
| Jonathan Baker + | 1,3 | 16,800 | 8,400 |
| Angelina Fusco + | 1,3 | 14,000 | - |
| Sophie Morgan + | 1,3 | 7,000 | - |
| Zahera Harb + | 1,3 | 11,200 | 12,300 |
| Philip Schlesinger + | 1,3 | 2,800 | 12,800 |
| Andrew Chitty + | 1,3 | - | 4,500 |
| Juan Andrew Colman + | 1,3 | - | 4,500 |
| David Levy + | 1,3 | - | 900 |
| Mary Ann Sieghart + | 1,3 | - | 4,500 |
| | | **126,350** | **98,863** |

*Cost gyfatebol flynyddol: 2018/19 £124,950; 2017/18 £124,950*

**Tabl 3:** Taliadau Uwch Dîm Rheoli ac Aelodau Gweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom: 2018/19

| | 2018/19 | | | | | | | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw** | **Cyfeirnod y Nodyn Canllaw** | **Cyflog a dalwyd £** | **Hawl / lwfans pensiwn £** | **Buddion hyblyg Lwfans £** | **Buddion o fath arall £** | **Perfformiad Blynyddol Perfformiad £** | **Cyfanswm y taliadau a dalwyd £** | **Cyfanswm y taliadau a dalwyd £** |
| Sharon White | 4,5 | 340,025 | 68,005 | 15,000 | 2,593 | 34,000 | 459,623 | 451,848 |
| Luisa Affuso + | 4,6 | 91,558 (cyfwerth â blwyddyn lawn 190,000) | 13,734 | 7,228 | 1,080 | Amherthnasol | 113,600 | - |
| Kevin Bakhurst | 4,5 | 233,750 | 35,062 | 15,000 | 2,593 | 18,000 | 304,405 | 302,348 |
| Alison Crosland | 4,5 | 199,500 | 29,925 | 15,000 | 1,037 | - | 245,462 | 242,977 |
| Lindsey Fussell | 4,5 | 215,250 | 32,288 | 15,000 | 2,593 | 10,000 | 275,131 | 260,373 |
| Mansoor Hanif + | 4,6 | 102,917 (cyfwerth â blwyddyn lawn 190,000) | 15,437 | 8,125 | 1,296 | Amherthnasol | 127,775 | - |
| Philip Marnick | 4,5 | 219,875 | 32,981 | 15,000 | 2,593 | 10,000 | 280,449 | 265,898 |
| Jonathan Oxley | 4,5 | 264,000 | 39,600 | 15,000 | 2,593 | 18,000 | 339,193 | 335,327 |
| Yih-Choung Teh + | 4,6 | 142,500 (cyfwerth â blwyddyn lawn 190,000) | 21,375 | 11,250 | 1,945 | Amherthnasol | 177,070 | - |
| Polly Weitzman | 4,5 | 248,750 | 37,312 | 15,000 | 2,593 | 18,000 | 321.655 | 316,762 |
| Tony Close | 3,4,5 | 159,551 | 23,933 | 15,000 | 2,593 | 12,000 | 213,077 | 210,639 |
| Steve Unger + | 4,5 | 198,000 (cyfwerth â blwyddyn lawn 264,000) | 29,700 | 11,250 | 1,945 | - | 240,895 | 335,327 |
| | | **2,415,676** | **379,352** | **157,853** | **25,454** | **120,000** | **3,098,335** | **2,721,500** |

*Cost gyfatebol flynyddol: 2018/19 £2,726,647; 2017/18 £2,721,500*

## Nodiadau i'r tablau taliadau

1. Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm a dalwyd yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu. Mae'r ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) wedi aros yn £42,519 y flwyddyn ers 1 Ebrill 2008.

   Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys.

   £16,800 y flwyddyn yw'r ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (ac eithrio'r ffi a delir i Janey Walker sef £24,150 y flwyddyn i adlewyrchu ei gwaith a'i chyfrifoldebau ychwanegol am waith safonau). Mae'r gwerthoedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm a dalwyd dros y flwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, ran o'r flwyddyn, os gwnaeth yr Aelod Anweithredol perthnasol ymuno â Bwrdd Ofcom neu'r Bwrdd Cynnwys neu ymddeol ohonynt neu ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau, yn ystod y cyfnod dan sylw.

   Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys daliadau ychwanegol ar ben eu ffioedd heblaw am yr hawl i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn unig, gael offer TG ar gyfer gweithio gartref. Ni wnaeth pob un o Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom fanteisio ar yr hawl hwn yn ystod y cyfnod dan sylw.

2. Penodwyd Maggie Carver a Dr Angela Dean ar Fwrdd Ofcom ar 30 Medi 2018. Roedd y Farwnes Noakes DBE wedi ymddeol o Fwrdd Ofcom ar 31 Mai 2018 a gadawodd Nick Pollard Fwrdd Ofcom ar 13 Mai 2018. Roedd y Fonesig Lynne Brindley DBE wedi ymddeol o Fwrdd Ofcom ar 31 Awst 2017. Mae'r gwerthoedd sy'n cael eu dangos yn Nhabl 1 yn adlewyrchu faint a dalwyd i aelodau'r Bwrdd yn 2018/19; mae'r costau blynyddol yn cael eu dangos o dan y tabl er mwyn dileu'r amrywiadau oherwydd newidiadau mewn aelodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

   Dyma'r ffioedd blynyddol sy'n cyfateb i flwyddyn lawn:

   - Maggie Carver £70,000
   - Aelodau Anweithredol y Bwrdd £42,519

   Ymunodd David Jones â Bwrdd Ofcom ar 16 Ebrill 2019 fel Aelod Bwrdd cyntaf Ofcom ar gyfer Cymru. Mae ei ddyddiad dechrau y tu hwnt i'r cyfnod 2018/19; mae ei ffi sy'n cyfateb i flwyddyn lawn wedi cael ei nodi uchod.

3. Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys: Penodwyd Angelina Fusco ar y Bwrdd Cynnwys ar 1 Mehefin 2018; penodwyd Sophie Morgan ar y Bwrdd Cynnwys ar 1 Tachwedd 2018; gadawodd Zahera Harb y Bwrdd Cynnwys ar 30 Tachwedd 2018; Roedd Juan Andrew Colman, Mary Ann Sieghart ac Andrew Chitty wedi ymddeol o'r Bwrdd Cynnwys ar 31 Awst 2017; ac roedd David Levy wedi ymddeol o'r Bwrdd Cynnwys ar 30 Ebrill 2017.

   Aelodau Gweithredol y Bwrdd Cynnwys: Mae Tony Close wedi bod yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys drwy gydol y cyfnod dan sylw.

4. Mae cyfanswm y taliadau blynyddol a ddangosir ar gyfer swyddogion gweithredol Ofcom, y maent, neu yr oeddent, yn aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli, yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad blynyddol, lwfans buddion hyblyg a chanran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn. Mae'r golofn 'buddion o fath arall' yn adlewyrchu'r gost i Ofcom o ddarparu yswiriant meddygol preifat i bob swyddog gweithredol. Nid yw Tony Close yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, ond mae wedi cael ei gynnwys oherwydd ei rôl fel Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys yn ystod y cyfnod dan sylw.

5. Mae Sharon White, Alison Crosland, Philip Marnick, Jonathan Oxley, Kevin Bakhurst, Lindsey Fussell a Polly Weitzman wedi bod yn aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli drwy gydol y cyfnod; mae Tony Close wedi bod yn

Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys drwy gydol y cyfnod. Roedd Steve Unger wedi ymddiswyddo ym mis Mawrth 2017 ac wedi camu i lawr fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli a Bwrdd Ofcom ar 30 Mehefin 2018; mae ffigurau 2017/18 yn adlewyrchu blwyddyn lawn o'i gyflog.

6. Ymunodd Luisa Affuso ag Ofcom fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ar 8 Hydref 2018; ymunodd Mansoor Hanif ag Ofcom fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ar 17 Medi 2018. Penodwyd Yih-Choung Teh, un o gydweithwyr Ofcom, yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ar 2 Gorffennaf 2018. a. Roedd cyflog sylfaenol cyfwerth â blwyddyn lawn y tri aelod newydd yn £190,000.

## Contract cyflogaeth

Mae gan y Prif Weithredwr a Jonathan Oxley, Cyfarwyddwr y Grŵp Cystadleuaeth, gyfnod rhybudd o 12 mis. Nid oes gan yr un Aelod Gweithredol arall o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na naw mis.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi'u penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o oddeutu ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am yr Arglwydd Burns (Cadeirydd Bwrdd Ofcom) a Maggie Carver (Dirprwy Gadeirydd Bwrdd Ofcom) a neilltuodd hyd at dri diwrnod yr wythnos a dau ddiwrnod a hanner yr wythnos yn y drefn honno).

Ni chafodd dim taliadau dileu swydd yn ymwneud ag aelod o'r Uwch Dîm Rheoli eu cynnwys yn y cyfrifon am y flwyddyn ar gyfer colli swydd yn ystod 2018/19.

## Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

## Ymgymryd â swyddogaeth cyfarwyddwr allanol

Ni chaiff unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom dderbyn penodiad anweithredol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Bwrdd i sicrhau na fydd hyn yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau. Bydd unrhyw ffioedd a delir i Aelod Gweithredol am benodiad o'r fath yn cael eu cadw dim ond yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Taliadau.

Mae Sharon White yn gyfarwyddwr Sadler's Wells Trust Ltd (elusen gofrestredig), ac mae hi wedi bod yn y rôl honno ers mis Tachwedd 2017. Ni thalwyd ffi i Sharon White mewn perthynas â'r penodiad yma. Ym mis Ionawr 2018, penodwyd Sharon White yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol ar gyfer Barratt Developments Plc; mae ei ffi o £61,800 y flwyddyn yn cael ei dalu'n uniongyrchol i Ofcom ac nid yw Sharon White yn cael unrhyw ran ohono.

Nid oedd gan yr Aelod Gweithredol o'r Bwrdd, Jonathan Oxley, unrhyw gyfarwyddiaeth o'r fath yn ystod y cyfnod.

Ar ben hynny, mae Polly Weitzman, sy'n aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, yn cael £12,120 y flwyddyn fel cyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Prifysgol Homerton; telir y ffi hon yn syth i Ofcom ac nid yw Polly Weitzman yn derbyn dim ohoni.

Ar ran Ofcom,

Sharon White
**Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu**

18 Mehefin 2019

Ben Verwaayen
**Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau**

18 Mehefin 2019

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol; y Datganiad am y Llifoedd Arian; y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi dan y polisïau cyfrifyddu sydd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg cywir a theg o gyflwr materion y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2019 a'r diffyg ariannol ar ôl treth am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd Brydeinig ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (ISAa) (DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Moesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar y Swyddfa Gyfathrebiadau yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes byw

Mae'n rhaid i mi lunio casgliad ynghylch pa mor briodol ydy defnydd rheolwyr o'r sail busnes byw cyfrifyddu ac, ar sail y dystiolaeth archwilio a gasglwyd, a oes ansicrwydd sylweddol yn bodoli sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau fel busnes byw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Os byddaf yn dod i'r casgliad bod ansicrwydd materol yn bodoli, mae'n rhaid i mi dynnu sylw yn fy adroddiad archwilio at y datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os ydy datgeliadau o'r fath yn annigonol, addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau'n seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gasglwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad archwilio. Fodd

bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol olygu y bydd yr endid yn rhoi'r gorau i barhau fel busnes byw. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn fanylach yn y Datganiad Cyfrifoldebau, y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny trwy gamgymeriad neu dwyll. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu wallau ac ystyrir eu bod yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol ag ISAs (DU), rwyf yn defnyddio barn broffesiynol ac yn defnyddio amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- canfod ac yn asesu risgiau o gamddatgan sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, yn dylunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad sylweddol sy'n deillio o dwyll yn uwch nag ar gyfer un sy'n deillio o wall, gan fod twyll yn gallu golygu cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, anwiredd, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- dod i ddeall y rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol yn yr amgylchiadau, ond nid er mwyn mynegi barn ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth fewnol y Swyddfa Gyfathrebiadau.
- gwerthuso pa mor briodol ydy'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi cael eu defnyddio a pha mor rhesymol ydy'r amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau perthnasol a wneir gan reolwyr.
- llunio casgliad ynghylch pa mor briodol ydy defnydd rheolwyr o'r sail busnes byw cyfrifyddu ac, ar sail y dystiolaeth archwilio a gasglwyd, a oes ansicrwydd sylweddol yn bodoli sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau fel busnes byw. Os byddaf yn dod i'r casgliad bod ansicrwydd materol yn bodoli, mae'n rhaid i mi dynnu sylw yn fy adroddiad archwilio at y datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os ydy datgeliadau o'r fath yn annigonol, addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau'n seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gasglwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad archwilio. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol olygu y bydd yr endid yn rhoi'r gorau i barhau fel busnes byw.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol yn gyffredinol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a ydy'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn ffordd sy'n rhoi cyflwyniad teg.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

Ar ben hynny, rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd Brydeinig a'r trafodion ariannol i gydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Gwybodaeth Arall

Mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwnnw sydd wedi cael eu harchwilio, y datganiadau ariannol ac fy adroddiad archwilio ar hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu sydd yn ymddangos fel camddatganiad sylweddol fel arall. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002;
- yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r Swyddfa Gyfathrebiadau a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gydnaws â'r datganiadau ariannol.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt i chi os, yn fy marn i:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan y canghennau nad oedd fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies 26 Mehefin 2019

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SPC



# Datganiadau Ariannol

103 Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

104 Datganiad Am Y Sefyllfa Ariannol

105 Datganiad Am Newidiadau Mewn Ecwiti

106 Datganiad Am Y Llifoedd Arian

107 Nodiadau i'r Cyfrifon

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | 2018/19 £'000 | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | 124,283 | 122,484 |
| Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | 3 | 72,452 | 82,077 |
| **Cyfanswm incwm** | | **196,735** | **204,561** |
| **Gwariant gweithredol** | | | |
| Costau staff | 4 | (76,281) | (72,011) |
| Costau gweithredol eraill | 6 | (46,035) | (48,022) |
| Cost gyfreithiol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | 6,15 | (232,000) | - |
| Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | 4,6 | (72,452) | (82,078) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | | **(426,768)** | **(202,111)** |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredol** | | **(230,033)** | **2,450** |
| Incwm eiddo gwag | 15 | - | 76 |
| Costau cyllid | 15 | 1 | (8) |
| Incwm llog pensiwn | 19 | 439 | 390 |
| **(Diffyg)/Gwarged cyn treth am y flwyddyn** | | **(229,593)** | **2,908** |
| Trethiant | 7 | **-** | **-** |
| **(Diffyg)/Gwarged ar ôl treth am y flwyddyn** | | **(229,593)** | **2,908** |
| **(Gwariant)/incwm cynhwysfawr arall** | | | |
| Ailfesur pensiynau | 19 | **(196)** | 1,318 |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm cynhwysfawr** | | **(229,789)** | **4,226** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 107 i 139 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Am Y Sefyllfa Ariannol

## Ar 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 | Ar 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | 12,490 | 9,524 |
| Asedau anniriaethol | 9 | 966 | 1,217 |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 11 | 484 | 902 |
| Asedau buddion ymddeol | 19 | 17,691 | 18,169 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **31,631** | 29,812 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 15,216 | 9,575 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 12 | 7,685 | 25,233 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **22,901** | 34,808 |
| **Cyfanswm asedau** | | **54,532** | 64,620 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 13 | 21,584 | 33,857 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | 232,031 | 30 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **253,615** | 33,887 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 14 | 1,000 | 1,064 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | 151 | 183 |
| Rhwymedigaethau buddion ymddeol | 19 | 1,211 | 1,142 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **2,362** | 2,389 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **255,977** | 36,276 |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **(201,445)** | 28,344 |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | (201,445) | 28,344 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **(201,445)** | 28,344 |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 107 i 139 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.
Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 18 Mehefin 2019.

Arglwydd Burns
Cadeirydd

Sharon White
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

# Datganiad Am Newidiadau Mewn Ecwiti

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2019** | | **24,118** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2017/18** | | |
| Ailfesur pensiynau | 19 | 1,318 |
| Gwarged am y flwyddyn | | 2,908 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am 2017/18** | | **4,226** |
| **Balans 31 Mawrth 2018** | | **28,344** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2018/19** | | |
| Ailfesur pensiynau | 19 | (196) |
| Diffyg am y flwyddyn | | (229,593) |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr am 2018/19** | | **(229,789)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **(201,445)** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 107 i 139 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Am Y Llifoedd Arian

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | 2018/19 £'000 | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| (Diffyg)/gwarged gweithredol | | **(230,033)** | 2,450 |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol** | | | |
| Amorteiddiad | 9 | 636 | 1,023 |
| Dibrisiant | 8 | 2,448 | 1,963 |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | 6 | 93 | 64 |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10,11 | (5,223) | 5,080 |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 13,14 | (12,337) | 9,274 |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn darpariaethau | 15 | 231,970 | (30) |
| Lleihad mewn pensiwn ymddeol | 19 | 790 | 497 |
| **(All-lif)/mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol** | | **(11,656)** | **20,321** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | (5,558) | (5,159) |
| Prynu asedau anniriaethol | 9 | (385) | (63) |
| Enillion o werthu asedau anghyfredol | | 51 | 37 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(5,892)** | **(5,185)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| **All-lif arian net o weithgareddau cyllido** | | **-** | **-** |
| **(Lleihad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **(17,548)** | **15,136** |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 12 | 25,233 | 10,097 |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn | | (17,548) | 15,136 |
| **Cronfeydd net terfynol** | 12 | **7,685** | **25,233** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 107 i 139 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

### 1_Y sail dros gyflwyno a'r prif bolisïau cyfrifyddu

**Mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom)** yn gorfforaeth statudol sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Cafodd datganiadau ariannol Ofcom ar gyfer 31 Mawrth 2019 eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), fel y'u cymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy brisio rhai asedau anghyfredol, ar sail busnes byw, yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Paratoir y datganiadau ariannol ar sail holl ddehongliadau a safonau cyfrifyddu IFRS ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n llunio adroddiadau o dan IFRS ac Erthygl 4 o Reoliad IAS yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio pan fydd Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 yn eu dirymu. Paratoir y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu datgan mewn punnoedd sterling, sef yr arian y mae Ofcom yn delio ag ef.

#### a) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae'r holl safonau isod yn berthnasol i'r cyfnod cyfrifyddu cyfredol.

- IFRS 9 Offerynnau Ariannol sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2018 neu ar ôl hynny

  Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes. Nid oes gan fabwysiadu IFRS 9 unrhyw effaith sylweddol i ganlyniadau Ofcom.

- IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid a'i esboniadau sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2018 neu ar ôl hynny

  Mae'r rheolwyr wedi ystyried Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2003 a'r Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl. Nid oes unrhyw newid yn natur, swm, amseru nac ansicrwydd y refeniw a'r llif arian yn deillio o gontractau gyda chwsmeriaid, yn dilyn mabwysiadu IFRS 15.

Mae safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau eraill i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi gydag effaith ar ddatganiadau ariannol Ofcom ac mae'r rhain yn berthnasol i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol.

- IRFS 16 Prydlesi sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2019 neu ar ôl hynny

  Mae'r safon hon, a fydd yn disodli IAS 17, yn mynnu bod y rheini sy'n dal prydles yn cydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles, oni bai fod tymor y brydles yn 12 mis neu lai a bod gwerth yr ased sylfaenol yn isel. Ar 31 Mawrth 2019, mae gan Ofcom nifer o brydlesi gweithredol sydd ar hyn o bryd, dan IAS 17, yn cael eu treulio ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

  Mae Ofcom wedi coladu'r wybodaeth am y brydles weithredol er mwyn asesu'r addasiad cronnus wedi'i ddiweddaru wrth newid ac wedi dewis peidio â defnyddio IFRS 16 gyda chontractau nad ydynt yn cynnwys prydles o dan IAS 17 ac IFRIC 4 Pennu a ydy Cytundeb yn cynnwys Prydles.

  Bydd Ofcom yn defnyddio'r safon o'r dyddiad trosglwyddo gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol wedi'i addasu, gan addasu enillion agoriadol wedi'u cadw a pheidio ag ailddatgan ffurfiau cymharol. Mae hyn yn golygu cyfrifo rhwymedigaeth yr ased hawl i ddefnyddio a'r brydles ar sail gwerth presennol taliadau'r brydles sy'n weddill ar bob contract prydles perthnasol ar y dyddiad trosglwyddo, wedi'i ddisgowntio'n unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi.

  Amcangyfrifir bod eiddo, peiriannau a chyfarpar a symiau taladwy eraill yn mynd i godi £61,820k ar 1 Ebrill 2019. Nid oes effaith ar enillion wedi'u cadw ar 1 Ebrill 2019.

  Mae cyfradd y disgownt, adnewyddu a newidiadau i'r portffolio prydlesi i gyd yn gallu newid yn y dyfodol, a fydd yn effeithio ar yr addasiad newid go iawn ar y dyddiad newid disgwyliedig.

  Bydd Ofcom yn parhau i fonitro'r effaith tan y dyddiad newid, gan ddarparu rhagor o fesurau ansoddol a meintiol wrth symud ymlaen gyda'r cynlluniau gweithredu.

  Wrth ddefnyddio IFRS 16 am y tro cyntaf, bydd Ofcom yn defnyddio'r dulliau ymarferol canlynol a ganiateir gan y safon:

- Defnyddio un gyfradd ddisgownt gyda phortffolio o brydlesi sydd â nodweddion gweddol debyg.
- Cyfrifyddu prydlesi gweithredol sydd â llai na 12 mis ar ôl yn nhymor y brydles ar 1 Ebrill 2019 fel prydlesi tymor byr.
- Cyfrifyddu prydlesi gweithredol lle mae gwerth yr ased sylfaenol yn isel.
- Eithrio costau uniongyrchol cychwynnol ar gyfer mesur yr asedau hawl i ddefnyddio ar ddyddiad y cais cychwynnol.
- Defnyddio ôl-ddoethineb wrth bennu tymor y brydles pan fydd y contract yn cynnwys dewisiadau i ymestyn y brydles neu i ddod â hi i ben.

### b) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y taliadau sydd wedi'u derbyn neu sydd i'w derbyn yn ystod gweithgareddau arferol Ofcom. Dangosir incwm yn net o dreth ar werth, enillion, ad-daliadau a gostyngiadau. Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd y swm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy, a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd yn llifo i'r endid yn y dyfodol.

Mae IFRS 15 yn cyflwyno model pum cam newydd ar gyfer cydnabod y refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid. Yr egwyddor graidd ydy cydnabod refeniw er mwyn iddo ddangos trosglwyddo'r nwyddau neu'r gwasanaethau sydd wedi cael eu haddo i gwsmeriaid mewn swm sy'n adlewyrchu'r ystyriaeth y mae'r endid yn disgwyl cael hawl iddo yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Mae Ofcom wedi ystyried y broses pum cam ac wedi penderfynu peidio â newid y dull gweithredu o ran cydnabod refeniw:

- Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Ofcom gydbwyso ei wariant gyda'i incwm. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2002 a 2003 yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm o bob un o'r sectorau mae'n eu rheoleiddio er mwyn talu am y costau a gaiff Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw ynghyd â chyfran briodol o 'gostau cyffredin' Ofcom ar gyfer pob un o'r sectorau hynny. Felly, mae Deddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofcom i adennill ei gostau gan drydydd partïon.
- Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn ymwneud â'r gwaith sylfaenol a wneir gan Ofcom fel rheoleiddiwr y sector Cyfathrebiadau, ac fel y nodir yn y Cynllun Blynyddol a gyhoeddir.
- Caiff y ffioedd eu cyfrifo drwy adennill costau fel y nodir yng nghyllideb Ofcom ac wedi'u haddasu ar gyfer adennill gormod neu ddim digon yn y flwyddyn flaenorol. Bydd yr holl ffioedd yn cael eu cyhoeddi yn y Tablau Tariff ar gyfer pob blwyddyn ariannol.
- Caiff costau eu dyrannu i drydydd partïon yn unol â Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl Ofcom. Mae hyn yn sicrhau bod y taliadau'n adlewyrchu'r costau a ddyrennir i'r sector priodol ac yn unol â throsiant perthnasol.
- Caiff refeniw ei gydnabod yn y flwyddyn y ceir y rhwymedigaeth perfformiad (cost). Bydd adennill gormod neu ddim digon o refeniw yn cael ei gronni neu ei ohirio a bydd taliadau yn y dyfodol yn cael eu haddasu yn unol â hynny.
- Mae refeniw hefyd yn cael ei gydnabod ar gyfer y costau hynny lle nad oes modd codi ffioedd na thaliadau ar randdeiliaid, yn bennaf am gost rheoli sbectrwm drwy gadw ffioedd trwyddedau WTA yn unol ag adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'r Datganiad o Egwyddorion cyllido.

**Ffioedd gweinyddu gwasanaethau, rhwydweithiau a gwasanaethau post**

Rhoddir cyfrif am incwm sy'n cynnwys ffioedd gweinyddol a anfonebwyd gan Ofcom ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian gwasanaethau a rhwydweithiau a gwasanaethau post ei nodi fel incwm gohiriedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm taladwy. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel incwm cronedig a'u cyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Ffioedd trwyddedau darlledu**

Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebwyd i'r rheini sy'n dal trwyddedau, a rhoddir cyfrif amdano ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian darlledu ei drin fel incwm gohiriedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm taladwy. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel incwm cronedig a'u cyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd

### Ffioedd ymgeisio

Ni ellir ad-dalu ffioedd ymgeisio ar gyfer darlledu a rhwydweithiau na gwasanaethau un-tro, ac felly cânt eu cofnodi fel incwm adeg derbyn cais y rhanddeiliad.

### Cadw Derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-Wifr (WTA)

Roedd Deddf Economi Ddigidol 2017 yn cyflwyno gwelliannau deddfwriaethol sy'n symleiddio model ariannu Ofcom. Yn dilyn cydsyniad gan Drysorlys EM a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y 'Datganiad Egwyddorion' ariannu newydd, nid yw Ofcom yn derbyn cyllid cymorth grant ar gyfer ei gyfrifoldebau craidd mwyach.

Mae Ofcom yn cael cadw symiau a dderbynnir mewn cysylltiad â'i swyddogaethau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu costau cyflawni ei swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer fel arall.

Rhoddwyd y newidiadau hyn ar waith ym mis Rhagfyr 2017. Caiff Ofcom barhau i dderbyn cymorth grant i gyflawni prosiectau mawr penodol sy'n gysylltiedig â'r Llywodraeth. Ar hyn o bryd, rydym yn cael cymorth grant mewn perthynas â rhaglen clirio'r band 700MHz.

### Cymorth grant

Mae'r incwm hwn yn cynnwys cymorth grant gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i dalu costau rheoli sbectrwm, dyfarnu a chlirio sbectrwm, gorfodi cyfraith cystadleuaeth, profion lles y cyhoedd, asesiadau cyfryngau lleol, rhwystro gwefannau, cyd-fentrau, galwadau niwsans ac amddiffyn defnyddwyr. Caiff cymorth grant a geir gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei ddyrannu a'i gyfateb i'r costau yn y flwyddyn y mae'n berthnasol iddo. Arhosodd y trefniadau cymorth grant ar gyfer ein cyfrifoldebau craidd yn weithredol tan ddiwedd mis Tachwedd 2017 pan ddechreuodd y newid yn y dull ariannu drwy'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr.

Mae'r rhaglen glirio 700MHz yn goruchwylio'r gwaith o glirio'r band UHF 700MHz (gan gynnwys lleihau unrhyw ymyriant posibl). Caiff y gwaith clirio ei wneud gan drydydd partïon sy'n cael eu talu drwy grantiau cyfalaf sydd wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo mewn egwyddor gan Fwrdd Rheoli'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm, cyn cael eu cymeradwyo'n derfynol gan Drysorlys EM. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu drwy gymorth grant.

Mae'r rheini sy'n cael grantiau ar gyfer y rhaglen yn gofyn am gyllid gan Ofcom ar ôl i amodau'r grant gael eu bodloni. O ran y grantiau a ddyfarnwyd, dim ond am y costau gwirioneddol sydd wedi codi y bydd Ofcom yn talu, a bydd yn cydnabod y costau wrth gytuno i dalu'r arian y gofynnwyd amdano i'r derbynnydd.

### Incwm arall

Rhoddir cyfrif am incwm arall ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

### c) Derbyniadau a gasglwyd gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

O dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau. Cesglir y refeniw o bum prif ffynhonnell:

- Ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr
- Ffioedd sbectrwm Adran Llywodraeth
- Cosbau Ariannol
- Taliadau Ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau ar gyfer teledu a radio; a
- Rhifau daearyddol

Roedd Deddf yr Economi Ddigidol yn cyflwyno diwygiadau deddfwriaethol sy'n caniatáu i Ofcom gadw symiau a geir mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu costau cyflawni ei swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer.

Cafodd gweddill y refeniw a gasglwyd ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y DU yn Nhrysorlys EM, yr Adran Cyllid a Phersonél - Gogledd Iwerddon (DFPNI) ac i Drysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey, a Beilïaeth Guernsey o dan Offeryn Statudol 1991, Rhifau 998, 1710 a 1709 y naill a'r llall, yn uniongyrchol neu drwy'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Ni wneir unrhyw dderbyniadau, taliadau nac eitemau Datganiad am y Sefyllfa Ariannol yn y Datganiadau Ariannol hyn o ran trafodion sy'n gysylltiedig ag Adran 400, onid yw'r taliadau a'r ffioedd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Mae Ofcom yn paratoi set o ddatganiadau ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd Brydeinig.

### d) Prydlesi

Bydd prydlesi lle bydd y prydleswr yn agored i gyfran sylweddol o'r risgiau a'r manteision sydd ynghlwm wrth berchnogaeth yn cael eu trin fel prydlesi gweithredol. Caiff taliadau a wnaed ac a gafwyd dan brydlesi gweithredol eu cydnabod mewn Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydlesi eu cydnabod fel rhan greiddiol o gyfanswm gwerth y brydles, dros gyfnod y brydles pan na ellir ei chanslo.

### e) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli'r asedau presennol.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500 a chaiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi ar sail cost neu gost dybiedig, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Mae trothwyon cyfalafu'n cael eu cymhwyso ar gyfer eitemau unigol yn hytrach na grwpiau o eitemau tebyg, oni bai y byddai effaith gwneud hynny'n cael gwared ar gyfran sylweddol o gyfanswm yr asedau cyfalaf.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yng ngwerth llyfr yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff gwerth llyfr y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio fel a ganlyn, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth llyfr dros eu hamcan oes ddefnyddiol:

| | |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau – Gwelliannau Prydles | Cyfnod y brydles |
| Gosodiadau a Ffitiadau – Dodrefn | 7 mlynedd |
| Cyfarpar Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur | 5 mlynedd |

Caiff dibrisiant ei ddyrannu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith.

Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cynrychioli'r costau a wynebwyd yn datblygu asedau diriaethol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u dibrisio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a waredir yn cael eu cydnabod o dan 'Colled/(Elw) wrth waredu asedau anghyfredol' yn y nodyn 'Costau gweithredol eraill' yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### f) Asedau anniriaethol

Ar ôl ei gydnabod i gychwyn, mae ased anniriaethol yn cael ei gario ar ei union gost llai unrhyw amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion amhariad sydd wedi cronni yn unol ag IAS 38 Asedau Anniriaethol. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd, ffioedd trwyddedau cysylltiedig, a'r dechnoleg gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygu ein systemau craidd. Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500. Mae trothwyon cyfalafu'n cael eu cymhwyso ar gyfer eitemau unigol yn hytrach na grwpiau o eitemau tebyg, oni bai y byddai effaith gwneud hynny'n cael gwared ar gyfran sylweddol o gyfanswm yr asedau cyfalaf.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod dim ond os caiff ased ei greu y gellir ei ddynodi. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff gwariant datblygu ei gofnodi fel cost yn y cyfnod y wynebwyd y gwariant.

Caiff amorteiddiad ar asedau anniriaethol a gyfalafwyd ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased o 3 i 5 mlynedd.

Mae systemau sy'n cael eu datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu meddalwedd a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u hamorteiddio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

### g) Amhariad ar asedau (impairment of assets)

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth llyfr asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod amhariad wedi digwydd i werth llyfr yr asedau, yn unol ag IAS 36 Amhariad ar Asedau.

Caiff gwerth llyfr ased ei briodoli'n syth, fel colled amhariad, i'w swm adferadwy os yw gwerth llyfr yr ased yn fwy na'i swm adferadwy amcangyfrifiedig.

Caiff amhariadau sylweddol eu datgelu ar wahân yn y nodiadau i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff asedau sydd wedi bod yn destun amhariad eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r amhariad.

### h) Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

Symiau masnach derbyniadwy yw'r arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod i gychwyn yn ôl eu gwerth teg llai unrhyw ddiddymu ar gyfer amhariad.

Mae rhagdaliadau'n daliadau sydd wedi cael eu gwneud, ond y buddion ohonynt heb gael eu defnyddio.

Incwm cronedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm.

#### i) Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol.

#### j) Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill

Ystyr symiau masnach taladwy yw dyletswyddau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Mae symiau taladwy eraill yn cynrychioli arian sy'n ddyledus i drydydd partïon ar y dyddiad adrodd.

#### k) Buddion gweithwyr

**Cynlluniau Pensiwn**

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio, a chynllun nad yw'n cael ei ariannu.

#### Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae Ofcom yn talu cyfraniadau i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol.

Mae'r rhwymedigaethau o dan gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom yn cael eu cydnabod dan gostau staff fel gwariant yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel y'u hwynebwyd.

Gall staff newydd ymuno â chynllun pensiwn cyfranddeiliaid, sy'n gynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

#### Cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r buddion wedi'u diffinio lle mae'r buddion y bydd gan aelodau hawl iddynt yn cael eu pennu ymlaen llaw gan fformiwla. Mae rhwymedigaeth net Ofcom yng nghyswllt cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio yn cael ei chyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd ar gyfer y dyfodol y mae gweithwyr wedi'i ennill tra oeddent yn aelodau o'r cynllun. Mae'r budd hwnnw'n cael ei ddisgowntio i bennu ei werth presennol ac mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei ddidynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion (yield) ar y dyddiad adrodd ar y bondiau ansawdd uchel sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd.

Pan fydd y cyfrifo yn dwyn budd i Ofcom, mae'r ased cydnabyddedig yn cael ei gyfyngu i werth presennol unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol. Caiff colledion ac enillion actiwaraidd eu cydnabod mewn (gwariant)/incwm cynhwysfawr arall yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn llawn yn y cyfnod y byddant yn codi. Mae costau ac incwm llog, a chostau gweinyddu'r cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, yn cael eu cydnabod mewn (gwariant)/incwm cynhwysfawr yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod cyfredol.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a symudodd i Ofcom o reoleiddiwr blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd, ac ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun mae wedi cael ei gau ar gyfer croniadau i'r dyfodol er 1 Mehefin 2011.

Mae Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom yn darparu buddion sy'n gyfwerth fwy neu lai â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt). Mae hwn yn gynllun ar gyfer sawl cyflogwr, a'r cyflogwyr sy'n cyfrannu yw Ofcom, ASA ac S4C. Caiff asedau'r ddau gynllun eu dal mewn ymddiriedolaethau a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol dan IAS 19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwarged ar y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd "ar gael" iddo yn sgil y gwarged.

#### Cynlluniau heb eu cyllido

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i ddau gyn-Gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-Gadeirydd yr Awdurdod Radio a dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau. Rhoddir cyfrif am y buddion hyn nad ydynt yn cael eu hariannu o dan IAS 19 Buddion Gweithwyr drwy ddarpariaeth yn y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom sydd yr un fath â gwerth actiwaraidd y rhwymedigaethau hyn.

### Buddion eraill gweithwyr

#### Costau ymddeol yn gynnar

Mae'r taliad iawndal blynyddol yn rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil. O'r dyddiad ymddeol yn gynnar hyd at yr oed ymddeol, bydd y cydweithiwr yn derbyn tâl iawndal blynyddol sydd yr un faint â'r pensiwn a gedwir. Caiff hwn ei dalu bob mis mewn ôl-daliadau, yn yr un modd â phensiwn. Mae'n dechrau cronni ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ymddeol, ac yn parhau i gronni nes bydd y pensiwn sydd wedi'i gadw yn cael ei dalu, a bydd yn dod i ben bryd hynny.

#### Rhwymedigaeth yng nghyswllt gwyliau gweithwyr

Dan IAS 19 Buddion Gweithwyr, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel gwariant cyn gynted ag y cyfyd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan gydweithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth hyd at uchafswm o ddeg wythnos. Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflogau, ei gynnwys fel rhan o groniadau. O 1af Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

### l) Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar, darpariaethau cyfreithiol ac eiddo dros ben eu cydnabod pan: mae gan Ofcom rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ar gyfer amcangyfrif o iawndal a chostau cyfreithiol trydydd parti mewn perthynas â heriau yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom pan bernir ei bod yn debygol y bydd yn rhaid talu'r rhain; mae'n debygol y bydd angen rhoi adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; ac roedd modd llunio amcangyfrif dibynadwy o'r swm. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Mae Ofcom yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n ymwneud â lle dros ben yn yr adeiladau y mae'n eu rhentu, llai cyfraddau disgownt priodol y farchnad. Mae'r darpariaethau'n cynrychioli gwerth presennol net amcan gostau yn y dyfodol ar ôl cydnabod yr incwm rhent eithaf sicr yn y dyfodol. Mae'r broses o ddad-ddirwyn y disgownt yn cael ei chynnwys o dan gostau cyllid yn y datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried categori'r rhwymedigaethau. Caiff darpariaeth ei chydnabod hyd yn oed os yw'n bur annhebygol y caiff all-lif yng nghyswllt unrhyw un eitem ei chynnwys yn yr un categori rhwymedigaethau.

### m) Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n bunnoedd yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

### n) Offerynnau ariannol a risg credyd

**Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod**

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol. Caiff incwm llog sydd i'w dderbyn ar arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

**Symiau masnach derbyniadwy**

Ni cheir llog ar symiau masnach a symiau eraill a dderbynnir a chânt eu cydnabod yn ôl eu gwerth teg llai unrhyw ddiddymu ar gyfer amhariad.

**Symiau masnach taladwy**

Ni cheir llog ar symiau masnach a symiau eraill a delir, ac fe'u nodir ar eu gwerth teg.

### 0) Y dreth gyfredol

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant a wynebir ganddo fel rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Mae modd asesu Treth Gorfforaeth ar y llog sy'n cael ei dderbyn, ac o ran incwm rhent.

### p) Dadansoddiad fesul segment

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgareddau mewn segment daearyddol na segment busnes, gan y cynhelir holl weithgareddau Ofcom yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

### q) Meysydd y rhoddir barn arnynt a phrif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, datgeliadau o ran rhwymedigaethau ac asedau wrth gefn, a'r refeniw a'r treuliau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am farnau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif feysydd isod.

Dyma'r maes y rhoddir barn arno sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Darpariaethau cyfreithiol – polisi cyfrifyddu (l)
- Cydnabod refeniw ac asesu refeniw heb ei filio – polisi cyfrifyddu (b)

Dyma'r ffynonellau lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i werth llyfr asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu (k)

## 2_Dadansoddiad Sectoraidd

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, ynghyd â'r costau a briodolir iddynt.

Paratoir hwn yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011 ac nid yng nghyswllt Segmentau Gweithredu IFRS 8, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (q).

| | Rheoli sbectrwm | Clirio sbectrwm | Rhwydweithiau a gwasanaethau | Darlledu | Rheoleiddio post | Gweithgareddau rheoleiddio eraill | Cyfanswm 2018/19 | Cyfanswm 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Incwm** | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedau a gweinyddu | - | - | 45,854 | 23,487 | 3,431 | - | **72,772** | 71,151 |
| Ffioedd ymgeisio | - | - | 100 | 337 | - | - | **437** | 609 |
| Cymorth grant | - | 72,143 | - | - | - | 102 | **72,245** | 118,792 |
| Derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw | 52,341 | - | - | - | - | 1,815 | **54,156** | 19,081 |
| Incwm Cronedig/ (Gohiriedig) | 1,741 | 309 | (8,239) | 1,260 | 1,059 | 563 | **(3,307)** | (5,958) |
| **Incwm gweithredol** | **54,082** | **72,452** | **37,715** | **25,084** | **4,490** | **2,480** | **196,303** | **203,675** |
| Incwm arall | 188 | - | 131 | 88 | 16 | 9 | **432** | 886 |
| **Cyfanswm incwm** | **54,270** | **72,452** | **37,846** | **25,172** | **4,506** | **2,489** | **196,735** | **204,561** |
| Eiddo beichus ac incwm rhent cronedig | 5 | - | 4 | 3 | - | - | **12** | 210 |
| **Incwm ariannol** | **54,275** | **72,452** | **37,850** | **25,175** | **4,506** | **2,489** | **196,747** | **204,771** |
| **Cyfanswm costau** | **(54,275)** | **(72,452)** | **(37,850)** | **(25,175)** | **(4,506)** | **(2,489)** | **(196,747)** | **(204,771)** |
| **Gwarged ar sail costau ariannol** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019** | **(54,275)** | **(72,452)** | **(37,850)** | **(25,175)** | **(4,506)** | **(2,489)** | **(196,747)** | |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 | (51,071) | (82,078) | (42,382) | (23,946) | (3,352) | (1,942) | **(204,771)** | |

Mae gweithgareddau rheoleiddio eraill yn cynnwys:

- gwariant yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gweithgarwch profion lles y cyhoedd, galwadau niwsans a diogelu defnyddwyr; a derbyniadau WTA i dalu am y categorïau cost hyn;
- gwariant yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gweithgarwch profion lles y cyhoedd, galwadau niwsans a diogelu defnyddwyr; a derbyniadau WTA i dalu am y categorïau cost hyn;
- incwm dyfarnwyr;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyriant parthed sbectrwm; ac
- incwm rhent o is-osod gofod eiddo dros ben mewn adeiladau.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn nodyn 1(b) y cyfrifon hyn, dyrennir cymorth grant a derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr sy'n cael eu dyrannu a'u cyfateb â chostau yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Caiff y tabl ar dudalen 116 ei baratoi ar sail arian wedi'i addasu (adjusted cash basis), sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant ac amorteiddiad.

Mae ffioedd trwyddedau a gweinyddol Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian. Pan fydd mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid perthnasol, fel arall, pan fydd mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, bydd y diffyg yn cael ei gasglu gan y rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

Mae darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau i reoleiddio'r BBC.

**Cysoni'r gwariant gweithredol â'r alldro costau gweithredol terfynol**

| | Nodiadau | 2018/19 £'000 | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredol - Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | | **426,768** | 202,111 |
| Addasiadau o ran atebolrwydd ac asedau pensiwn | | **(790)** | (581) |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisiant ac amorteiddiad | 8,9 | **2,859** | 2,236 |
| Addasiad dim rhent | | **25** | 910 |
| Addasiadau eraill | | **(232,115)** | 95 |
| **Gwariant gweithredol - arian** | | **196,747** | **204,771** |
| Clirio sbectrwm | 4,6 | **(72,452)** | (82,078) |
| Incwm Anweithredol | | **(444)** | (1,094) |
| **Alldro costau gweithredol terfynol** | | **123,851** | **121,599** |

Mae'r symudiad mewn addasiad dim rhent oherwydd y newid mewn trefniadau eiddo ar brydles sydd nawr â lwfans dim rhent minimal, ond mae'r addasiadau eraill yn adlewyrchu'r symudiad yn ystod y flwyddyn o faterion nad ydynt yn ymwneud ag arian fel darpariaeth a thâl gwyliau.

# 3_Incwm

| | Ofcom £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2018/19 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Grant DCMS** | | | | | | |
| Rheoli sbectrwm | - | - | **-** | 32,099 | - | 32,099 |
| Clirio sbectrwm | - | 72,452 | **72,452** | - | 82,077 | 82,077 |
| Gorfodi'r gyfraith cystadleuaeth | - | - | **-** | 296 | - | 296 |
| Prawf lles y cyhoedd | - | - | **-** | 781 | - | 781 |
| Galwadau niwsans | - | - | **-** | 215 | - | 215 |
| Diogelu defnyddwyr | - | - | **-** | 21 | - | 21 |
| **Cyfanswm cymorth grant gan y llywodraeth** | **-** | **72,452** | **72,452** | **33,412** | **82,077** | **115,489** |
| **Derbyniadau WTA Sydd Wedi'u Cadw** | | | | | | |
| Rheoli sbectrwm | 54,082 | - | **54,082** | 18,516 | - | 18,516 |
| Gorfodi'r gyfraith cystadleuaeth | 1,774 | - | **1,774** | 511 | - | 511 |
| Galwadau niwsans | 212 | - | **212** | 90 | - | 90 |
| Diogelu defnyddwyr | 28 | - | **28** | 10 | - | 10 |
| Prawf lles y cyhoedd | 102 | - | **102** | - | - | - |
| **Cyfanswm derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw** | **56,198** | **-** | **56,198** | **19,127** | **-** | **19,127** |
| **Incwm rhanddeiliaid** | | | | | | |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | 37,715 | - | **37,715** | 42,004 | - | 42,004 |
| Cadwyn atal | 211 | - | **211** | - | - | - |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | 25,084 | - | **25,084** | 23,732 | - | 23,732 |
| Rheoleiddio gwasanaethau post | 4,490 | - | **4,490** | 3,323 | - | 3,323 |
| Incwm arall | 585 | - | **585** | 886 | - | 886 |
| **Cyfanswm incwm rhanddeiliaid** | **68,085** | **-** | **68,085** | **69,945** | **-** | **69,945** |
| **Cyfanswm incwm** | **124,283** | **72,452** | **196,735** | **122,484** | **82,077** | **204,561** |

Mae ffioedd ceisiadau a thrwyddedau'r Ddeddf Darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau dros reoleiddio'r BBC.

Mae incwm Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'i gyflwyno ar wahân i incwm craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

Ers mis Rhagfyr 2017 ymlaen, caiff Ofcom gadw derbyniadau WTA i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu costau cyflawni ei swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer. Mae'r cynnydd yn 2018/19 yn ymwneud â chadw am flwyddyn lawn o'i gymharu â phedwar mis yn 2017/18.

## 4_Costau staff

| Yr oedd y costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn: | Ofcom £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2018/19 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau a buddion | 61,047 | 421 | **61,468** | 57,992 | 442 | **58,434** |
| Costau Yswiriant Gwladol | 7,280 | 45 | **7,325** | 6,987 | 42 | **7,029** |
| Costau pensiwn | 7,040 | 35 | **7,075** | 5,984 | 39 | **6,023** |
| Costau ailstrwythuro | 914 | - | **914** | 1,048 | - | **1,048** |
| **Cyfanswm costau staff** | **76,281** | **501** | **76,782** | **72,011** | **523** | **72,534** |

Mae'r costau ailstrwythuro yn 2018/19 yn ymwneud â gweithgareddau ailstrwythuro a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ac yn cynnwys croniad ar gyfer y costau hynny nad ydynt wedi'u talu ar ddiwedd y flwyddyn sy'n ymwneud ag 13 (2017/18: 5) o weithwyr.

Mae'r costau ailstrwythuro ar gyfer 2017/18 wedi cael eu hailddatgan i sicrhau cysondeb â 2018/19, gan gyflwyno unrhyw daliadau rhybudd a wnaed wrth derfynu cyflogaeth o fewn cyflogau a buddion.

Mae gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn y cyfarwyddwyr a'r uwch swyddogion gweithredol ar gael yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 92 i 98.

Mae costau pensiwn yn cynnwys costau gwasanaeth ar gyfer cydraddoli Pensiwn Sylfaenol wedi'i Warantu (GMPs), a Gweithred Diwygio a gyflawnwyd mewn perthynas â Chynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom, a oedd ill dau yn rhoi cyfanswm o hyd at £668k (2017/18: dim). Mae rhagor o wybodaeth am y rhain yn Nodyn 19.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd dau ddeg dau (2017/18: 16) gweithiwr eu secondio i sefydliadau eraill, felly mae'r credyd hwn wedi'i gynnwys ar y llinell costau staff yn y tabl uchod.

Mae'r costau Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau staff craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

## 5_Nifer y gweithwyr

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|
| **Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn)** | **902** | **868** |

Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan Ofcom 901 o weithwyr (cyfwerth ag amser llawn) (2017/18: 893).

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori na gweithwyr sydd wedi'u secondio i Ofcom.

# 6_Costau gweithredol eraill

| | Ofcom | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | Cyfanswm 2018/19 | Ofcom | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | Cyfanswm 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 76 | - | **76** | 76 | - | **76** |
| Talu archwilwyr – Adran 400 | 13 | - | **13** | 13 | - | **13** |
| Ffioedd proffesiynol | 4,064 | 1,241 | **5,305** | 4,404 | 424 | **4,828** |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | 7,684 | - | **7,684** | 7,739 | - | **7,739** |
| Ymchwil i'r gynulleidfa a'r defnyddwyr | 5,142 | - | **5,142** | 5,416 | - | **5,416** |
| Ymchwil technolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | 328 | - | **328** | 327 | - | **327** |
| Cynllun clirio sbectrwm | - | 70,691 | **70,691** | - | 81,065 | **81,065** |
| Staff dros dro a recriwtio | 2,321 | 6 | **2,327** | 3,051 | 46 | **3,097** |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,311 | 9 | **1,320** | 1,218 | 9 | **1,227** |
| Costau eiddo | 9,859 | - | **9,859** | 10,310 | - | **10,310** |
| Costau gweinyddol a chostau swyddfa | 7,044 | 4 | **7,048** | 6,951 | 6 | **6,957** |
| Elw ar waredu heblaw cyfalaf | (50) | - | **(50)** | - | - | **-** |
| Costau technoleg a gwybodaeth | 5,035 | - | **5,035** | 5,024 | 4 | **5,028** |
| Cerbydau | 271 | - | **271** | 271 | - | **271** |
| Dyledion gwael ac amheus | (240) | - | **(240)** | 173 | - | **173** |
| Amorteiddiad | 636 | - | **636** | 1,023 | - | **1,023** |
| Dibrisiant | 2,448 | - | **2,448** | 1,962 | 1 | **1,963** |
| Cyfanswm costau gweithredol eraill | 93 | - | **93** | 64 | - | **64** |
| **Cyfanswm costau gweithredol eraill** | **46,035** | **71,951** | **117,986** | **48,022** | **81,555** | **129,577** |
| **Mae'r costau uchod yn cynnwys:** | | | | | | |
| Prydlesi gweithredol – tir ac adeiladau | 5,737 | - | **5,737** | 6,401 | - | **6,401** |
| Prydlesi gweithredol – cerbydau | 134 | - | **134** | 127 | - | **127** |
| Prydlesi gweithredol – eraill | 104 | - | **104** | 107 | - | **107** |

Mae'r costau Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau gweithredu craidd Ofcom er mwyn helpu i fod yn dryloyw a rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

| | Ofcom | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | Cyfanswm 2018/19 | Ofcom | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | Cyfanswm 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost gyfreithiol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn** | **232,000** | **-** | **232,000** | - | - | - |

Dylid cyfeirio at Nodyn 15 am ddatgeliad pellach.

## 7_Trethiant

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Cysoni'r tâl treth** | | |
| (Diffyg)/Gwarged cyn treth | **(229,593)** | 2,908 |
| Treth ar elw ar gyfradd safonol Treth Gorfforaeth y DU, sef 20% (2017/18: 20%) | **(45,919)** | 582 |
| **Effaith treth:** | | |
| Incwm na thelir treth arno | **(39,298)** | (40,774) |
| Costau na thelir treth arnynt | **85,266** | 40,346 |
| Lleihad yn y colledion treth a ddygwyd ymlaen | **(49)** | (154) |
| **Costau treth** | **-** | - |

Ar y dyddiad adrodd, roedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol o £11,542k (2017/18: £11,788k). Nid oes unrhyw asedau treth gohiriedig cydnabyddedig yng nghyswllt y colledion hyn, gan nad yw'n debygol y bydd digon o incwm trethadwy'n codi y gellir defnyddio'r colledion yn eu herbyn.

# 8_Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau lesddaliad £'000 | Gosodiadau a ffitiadau £'000 | Cyfarpar swyddfa a maes £'000 | Caledwedd cyfrifiadurol £'000 | Cerbydau modur £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **14,242** | **1,072** | **12,994** | **4,023** | **561** | **596** | **33,488** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 1,510 | 217 | 547 | 42 | 175 | 2,668 | 5,159 |
| Gwarediadau | (397) | (124) | (432) | (123) | (84) | - | (1,160) |
| Trosglwyddiadau | - | 46 | 4 | 408 | 99 | (557) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **15,355** | **1,211** | **13,113** | **4,350** | **751** | **2,707** | **37,487** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 3,529 | 656 | 411 | 128 | 3 | 831 | 5,558 |
| Gwarediadau | (11,949) | (667) | (616) | (2,347) | (109) | - | (15,688) |
| Trosglwyddiadau | 2,130 | 398 | 1 | 3 | 91 | (2,623) | - |
| **Cost ar 31 Mawrth 2019** | **9,065** | **1,598** | **12,909** | **2,134** | **736** | **915** | **27,357** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **12,720** | **712** | **9,977** | **3,333** | **317** | **-** | **27,059** |
| Tâl am y flwyddyn | 591 | 80 | 722 | 480 | 90 | - | 1,963 |
| Gwarediadau | (354) | (108) | (414) | (123) | (60) | - | (1,059) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **12,957** | **684** | **10,285** | **3,690** | **347** | **-** | **27,963** |
| Tâl am y flwyddyn | 928 | 316 | 735 | 344 | 125 | - | 2,448 |
| Gwarediadau | (11,839) | (660) | (602) | (2,342) | (101) | - | (15,544) |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2019** | **2,046** | **340** | **10,418** | **1,692** | **371** | **-** | **14,867** |
| **NBV 31 Mawrth 2019** | **7,019** | **1,258** | **2,491** | **442** | **365** | **915** | **12,490** |
| NBV 31 Mawrth 2018 | 2,398 | 527 | 2,828 | 660 | 404 | 2,707 | 9,524 |

Mae cyfarpar a brynwyd ar gyfer y rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cynnwys yng nghofrestri asedau Ofcom o dan Cyfarpar Maes.

## 9_Asedau anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd | Technoleg Gwybodaeth | Systemau sy'n cael eu datblygu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **6,226** | **19,788** | **739** | **26,753** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | - | - | 63 | 63 |
| Trosglwyddiadau | 56 | 291 | (347) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **6,282** | **20,079** | **455** | **26,816** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 380 | 5 | - | 385 |
| Gwarediadau | (1,274) | (2,112) | - | (3,386) |
| Trosglwyddiadau | 63 | - | (63) | - |
| **Cost ar 31 Mawrth 2019** | **5,451** | **17,972** | **392** | **23,815** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **5,208** | **19,368** | **-** | **24,576** |
| Tâl am y flwyddyn | 713 | 310 | - | 1,023 |
| Trosglwyddiadau | 56 | (56) | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **5,977** | **19,622** | **-** | **25,599** |
| Tâl am y flwyddyn | 343 | 293 | - | 636 |
| Gwarediadau | (1,274) | (2,112) | - | (3,386) |
| **Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth 2019** | **5,046** | **17,803** | **-** | **22,849** |
| **NBV 31 Mawrth 2019** | **405** | **169** | **392** | **966** |
| NBV 31 Mawrth 2018 | 305 | 457 | 455 | 1,217 |

## 10_Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2019<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2018<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy | **2,122** | 2,397 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **590** | 395 |
| Treth ar Werth sy'n dderbyniadwy | **-** | 163 |
| Rhagdaliadau | **6,317** | 5,628 |
| Benthyciadau a blaendaliadau staff | **249** | 230 |
| Incwm cronedig | **3,463** | 694 |
| Incwm cronedig (Cymorth Grant) | **520** | - |
| Incwm cronedig (derbyniadau WTA) | **1,955** | 68 |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol** | **15,216** | **9,575** |

Mae benthyciadau staff yn ymwneud â 120 (2017/18: 139) o fenthyciadau tocyn tymor i gydweithwyr i'w talu'n ôl dros 12 mis.

## 11_Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2019<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2018<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm cronedig | **484** | 902 |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol** | **484** | **902** |

## 12_Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2019<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2018<br>£'000 |
|---|---|---|
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **7,685** | 25,233 |
| **Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | **7,685** | **25,233** |

Mae'r holl weithgareddau a'r balansau arian sy'n gysylltiedig â Chosbau a Ffioedd Trwyddedau ar wahân i gyfrifon Ofcom, ac yn cael eu datgelu yng nghyfrifon Adran 400.

Mae'r symudiad mewn balansau arian yn bennaf oherwydd y grantiau sydd wedi cael eu talu mewn perthynas â chlirio'r sbectrwm 700MHz, a gafodd eu talu wedyn yn 2018/19.

## 13_Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 | Ar 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy | **1,171** | 7,566 |
| Symiau taladwy eraill | **986** | 4,187 |
| Treth ar Werth sy'n daladwy | **106** | - |
| Croniadau | **10,416** | 15,930 |
| Croniad cymhellion prydles | **38** | 25 |
| Incwm gohiriedig | **8,847** | 2,816 |
| Incwm gohiriedig (Cymorth Grant) | **4** | 3,311 |
| Incwm gohiriedig (Derbyniadau WTA) | **16** | 22 |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol** | **21,584** | **33,857** |

Targed y Llywodraeth ar gyfer talu i gyflenwyr yw pum diwrnod ar gyfer 80 y cant o anfonebau diamheuol. Yn ogystal â chyflenwyr bach a chanolig, mae Ofcom hefyd yn cynnwys cyflenwyr mawr yn y cynllun hwn er mwyn eu hannog i dalu'r busnesau bach sy'n eu cyflenwi nhw o fewn cyfnod llai.

O ran perfformiad Ofcom yng nghyswllt y targedau hyn yn 2018/19, llwyddwyd i gyrraedd 96.97 y cant ar gyfartaledd (2017/18: 95.75 y cant).

Mae'r symudiad mewn symiau masnach taladwy a chroniadau yn bennaf oherwydd y grantiau sydd wedi cael eu talu mewn perthynas â chlirio'r sbectrwm 700MHz, a gafodd eu talu wedyn yn 2018/19.

Mae symiau taladwy eraill yn cynnwys arian a dderbyniwyd gan y landlord parthed adnewyddu eiddo a chyfarpar y landlord.

## 14_Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 | Ar 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Croniad cymhellion prydles | **41** | 79 |
| Incwm gohiriedig | **959** | 985 |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol** | **1,000** | **1,064** |

## 15_Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ymddeol yn gynnar £'000 | Eiddo dros ben £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **235** | **76** | **-** | **311** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd | 8 | - | - | 8 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (30) | - | - | (30) |
| Darpariaeth wedi'i lleihau | - | (76) | - | (76) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **213** | **-** | **-** | **213** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd | (1) | - | - | (1) |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (30) | - | - | (30) |
| Darpariaeth wedi'i chynyddu | - | - | 232,000 | 232,000 |
| **Cyfanswm darpariaethau ar 31 Mawrth 2019** | **182** | **-** | **232,000** | **232,182** |

Cyfrifir y darpariaethau yn unol â gofynion IAS 37. Bydd disgownt o 0.29 y cant ar y darpariaethau ymddeol yn gynnar (2017/18: 0.10 y cant) y flwyddyn yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi; bydd pob darpariaeth arall sydd â therfyn amser o 1 i 5 mlynedd yn destun disgownt yn ôl y gyfradd ddisgownt tymor byr o 0.76 y cant (2017/18: 0.54 y cant) ac ar gyfer darpariaethau â therfyn amser o 5 i 10 mlynedd, y gyfradd tymor canolig o 1.14 y cant (2017/18: 1.13 y cant).

Nid oes darpariaeth ar gael ar gyfer eiddo dros ben (2017/18: dim) yn y flwyddyn ariannol hon, gan ein bod ni bellach wedi ildio'r gofod dros ben ym mhrif swyddfa Ofcom.

Efallai y bydd Ofcom yn wynebu apeliadau yng nghyswllt y penderfyniadau a wneir wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau fel rheoleiddiwr y sector cyfathrebiadau. Gallai apeliadau yn erbyn penderfyniadau Ofcom arwain at rwymedigaethau ar gyfer costau cyfreithiol. Bydd Ofcom yn gwneud darpariaeth yn y datganiadau ariannol am gostau i'r graddau eu bod yn debygol ac yn fesuradwy.

Ar 31 Mawrth 2019, roedd Ofcom yn ymwneud ag ymgyfreitha parhaus ynghylch adfer ffioedd trwydded blynyddol yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl ym mis Tachwedd 2017 i ddileu rheoliadau roedd Ofcom wedi'u gwneud ym mis Medi 2015 i adolygu'r ffioedd ar gyfer defnyddio'r bandiau sbectrwm 900/1800 MHz. Roedd y Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol wedi cyflwyno hawliadau yn erbyn Ofcom yn ceisio iawn am y cynnydd mewn ffioedd a dalwyd rhwng mis Medi 2015 a mis Tachwedd 2017. Cafodd yr achos adfer ei wrando yn yr Uchel Lys ym mis Mai 2019 a dyfarnwyd o blaid y Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol. Gorchmynnodd y llys ei bod yn rhaid ad-dalu'r cynnydd mewn ffioedd a oedd wedi cael eu casglu o dan Reoliadau 2015 a oedd wedi cael eu dileu. Rhoddodd yr Uchel Lys hawl i Ofcom apelio. O ganlyniad, mae costau ad-daliadau'r ffi trwydded flynyddol, llog a chostau cyfreithiol cysylltiedig wedi cael eu cynnwys fel darpariaeth yn y datganiadau ariannol hyn. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Thrysorlys EM wedi cytuno y caiff cyllid ychwanegol i ad-dalu'r ffioedd trwydded blynyddol a chostau llog cysylltiedig a oedd yn deillio o ddyfarniad yr Uchel Lys ym mis Mai 2019 eu darparu yn ôl yr angen. Cyflwynodd Ofcom apêl gyda'r llys ar 7 Mehefin 2019.

| Dadansoddiad o pryd y disgwylir y llifoedd arian | Ymddeol yn gynnar £'000 | Eiddo dros ben £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfredol** | | | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 31 | - | 232,000 | 232,031 |
| **Cyfanswm cyfredol** | **31** | **-** | **232,000** | **232,031** |
| **Anghyfredol** | | | | |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | 46 | - | - | 46 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 105 | - | - | 105 |
| **Cyfanswm anghyfredol** | **151** | **-** | **-** | **151** |
| **Cyfanswm darpariaethau ar 31 Mawrth 2019** | **182** | **-** | **232,000** | **232,182** |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar, sef £182k (2017/18: £213k) ar gyfer Taliadau Iawndal Blynyddol (ACP). Mae'r taliadau iawndal blynyddol yn rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil.

## 16_Ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol

| | | | | Ar 31 Mawrth 2019 | | | | Ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Cyfanswm £'000 | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Dyma gyfanswm y taliadau prydlesi lleiaf dan brydlesi gweithredol yn y dyfodol:** | | | | | | | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 5,632 | 131 | 173 | **5,936** | 6,175 | 50 | 71 | **6,296** |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | 22,612 | 62 | 11 | **22,685** | 22,618 | - | - | **22,618** |
| Hwyrach na phum mlynedd | 39,699 | - | - | **39,699** | 45,522 | - | - | **45,522** |
| **Cyfanswm ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol** | **67,943** | **193** | **184** | **68,320** | **74,315** | **50** | **71** | **74,436** |

## 17_Symiau derbyniadwy dan brydlesi gweithredol

| | Ar 31 Mawrth 2019 Adeiladau £'000 | Ar 31 Mawrth 2018 Adeiladau £'000 |
|---|---|---|
| **Dyma'r taliadau prydles lleiaf sy'n dderbyniadwy dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo yn y dyfodol:** | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 9 | 67 |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | - | 8 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy dan brydlesi gweithredol** | **9** | **75** |

Mae Ofcom wedi llunio contractau is-brydles o ran swyddfeydd nad oes mo'u hangen yn nifer o'i adeiladau swyddfa. Mae gan y prydlesi gweithredol sydd ar ôl opsiynau i aildrafod neu brydlesi sy'n dod i ben yn 2019/20.

### 18 MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £13,355k (2017/18: £13,500k) i Ofcom. Nid yw'r symiau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y cyfrifon hyn ond fe'u talwyd gan Ofcom i'r Gronfa Darlledu Gaeleg dan reolaeth Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (MG Alba). Mae MG Alba yn paratoi cyfrifon ac adroddiadau ar wahân ar gyfer hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac at Weinidogion yr Alban i'w cyflwyno gerbron Senedd yr Alban.

### 19 Rhwymedigaethau buddion ymddeol

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau heb eu hariannu.

#### A) Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio - cynllun pensiwn cyfranddeiliaid

Prif ffordd Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Cyfrannodd y cyflogwr £5,732k yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 (2017/18: £5,426k). Mae adran cyfraniadau wedi'u diffinio hefyd yng Nghynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom. Ond, mae wedi cau bellach ac nid oes dim mwy o gyfraniadau'n cael eu gwneud i'r trefniant hwn.

#### B) Cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio

Mae gan Ofcom ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio, er i'r ddau gau i groniadau yn y dyfodol ar 1 Mehefin 2011:

- Sefydlwyd Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 oedd £3k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2017/18: £6k). Trosglwyddwyd cyfraniadau'r cyflogwr o £360k o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 (2017/18: £360k); a
- Chynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt), y mae Ofcom yn rhan ohono ar y cyd â thri sefydliad arall, sef S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC yn flaenorol) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 oedd £10k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2017/18: £10k). Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £185k eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 (2017/18: £180k).

Rheolir y ddau Gynllun hyn gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n annibynnol ar Ofcom.

Pennir cyfraniadau arian Ofcom i'r ddau gynllun hyn yn unol â Deddf Pensiynau 2004. O dan y ddeddf rhaid bod yn llawer mwy darbodus wrth fesur y rhwymedigaethau nag o dan IFRS. Cafodd prisiad ariannu o dan y Ddeddf Pensiynau, gyda dyddiad dod i rym o 31 Mawrth 2018 – ei gwblhau ar gyfer Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac, yn wahanol i IFRS, roedd yn dangos gwarged cyllido o £400k. Nid yw prisiad Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt) gyda dyddiad dod i rym o 31 Mawrth 2015 yn dangos unrhyw warged na diffyg cyllid gan fod rhwymedigaethau wedi cael eu gwarchod yn llawn gyda blwydd-daliadau. Mae'r prisiad ar 31ain Mawrth 2018 bron â dod i ben a bydd yn parhau i ddangos yr un sefyllfa cyllido net.

Cytunwyd ar amserlenni cyfraniadau gydag Ymddiriedolwr y ddau gynllun oherwydd y prisiadau hyn. Dan yr amserlenni presennol, byddai Ofcom yn disgwyl cyfrannu £540k i'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio dros y 12 mis nesaf ar gyfer talu costau'r Cynlluniau. Mae'r cyfraniadau hyn i'w talu o'r Ymddiriedolaeth Bwydo. Mae Ofcom hefyd wedi cytuno i dalu ardollau eraill yn uniongyrchol. Talwyd £558k yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2019 (gan gynnwys y cyfraniad a dalwyd o'r Ymddiriedolaeth Bwydo).

Mae gan Ofcom gyfrif Ymddiriedolaeth Bwydo sydd wedi'i ymgorffori yn Asedau'r Cynllun Pensiwn. Dim ond i un o'r ddau Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo, ac ni cheir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom ydy'r mecanwaith mae Ofcom yn ei ddefnyddio i roi cronfeydd o'r neilltu er mwyn gwneud cyfraniadau yn y dyfodol ac i dalu am gostau rhedeg ei ddau gynllun pensiwn buddion diffiniedig, Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom a Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt). Mae cronfeydd sy'n cael eu trosglwyddo i Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn ariannol pan gaiff y trosglwyddiad ei wneud ond wedyn mae modd defnyddio'r cronfeydd hyn mewn cyfnodau sydd i ddod. Fydd dim ond modd defnyddio'r arian sy'n cael ei gadw yn y Cyfrif Bwydo er mwyn talu am y cynlluniau pensiwn yn unol â'r atodlen gyfraniadau ar gyfer pob Cynllun neu drwy daliad ad hoc a fydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom mewn perthynas â phrosiect penodol (fel ymarfer i leihau risg) yn ogystal ag i dalu am gostau rhedeg y cynlluniau.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2109, cyfrannodd Ofcom £540k at yr Ymddiriedolaeth Bwydo (2017/18: dim). Balans yr Ymddiriedolaeth Bwydo ar 31 Mawrth 2019 oedd £8,345k (2017/18: £8,313k).

Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am fodloni rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu ar ran cyn-Gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio, ynghyd â chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telegyfathrebiadau. Ni chaiff y ddarpariaeth pensiynau ei hariannu, ac mae'r buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a chael eu gwarantu gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Ceisiwyd cyngor actiwari er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig. Dros y flwyddyn o 31 Mawrth 2018 ymlaen, nid ydy Ofcom yn gyfrifol mwyach am ddarparu buddion ar gyfer aelodau Postcomm.

Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys yn achos Lloyds Bank ar 26 Hydref 2018, a ddyfarnodd ei bod yn rhaid i gynlluniau addasu buddion er mwyn cydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi'u Gwarantu (GMPs) rhwng dynion a menywod, mae Ofcom wedi gwneud lwfans ar gyfer effaith bosibl hyn. Mae hyn wedi cael ei ganiatáu ar gyfer cost gwasanaeth yn y gorffennol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae lwfans o £284k wedi cael ei wneud mewn perthynas â (Hen Gynllun ITC) Ofcom ac mae lwfans o £14k wedi cael ei wneud mewn perthynas â Chynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom.

Darparwyd ar gyfer cost gwasanaeth blaenorol ychwanegol o £377k yn y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio. Mae hyn o ganlyniad i Weithred Diwygio a gafodd ei gweithredu mewn perthynas â Chynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 28 Gorffennaf 2018. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn i reolau, roedd yn rhaid ailgyfrifo buddion rhai aelodau pensiynwyr, a oedd wedi arwain at gynnydd yn eu buddion.

## Crynodeb o rwymedigaethau pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio Ofcom

Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir | Rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu | Cyfanswm buddion ymddeol | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir | Rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu | Cyfanswm buddion ymddeol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2019 £'000** | **31 Mawrth 2019 £'000** | **31 Mawrth 2019 £'000** | **31 Mawrth 2019 £'000** | **31 Mawrth 2019 £'000** | **31 Mawrth 2019 £'000** |
| Statws ariannu, diwedd y flwyddyn | | | | | | |
| – Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau gohiriedig | (77,115) | - | **(77,115)** | (90,596) | - | **(90,596)** |
| – Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau sy'n bensiynwyr | (190,080) | (1,211) | **(191,291)** | (174,962) | (1,142) | **(176,104)** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau buddion** | **(267,195)** | **(1,211)** | **(268,406)** | **(265,558)** | **(1,142)** | **(266,700)** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 284,886 | - | **284,886** | 283,727 | - | **283,727** |
| **Statws ariannu** | **17,691** | **(1,211)** | **16,480** | **18,169** | **(1,142)** | **17,027** |

Mae'n ofynnol dan IAS19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl tybiaethau IAS19, na ellir cydnabod y gwarged ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd ar gael i Ofcom yn sgil hynny. Priodolir yr holl warged i'r Cynllun Buddion wedi'u Diffinio a'r Cyfrif Bwydo y mae iddo werth economaidd, gan fod modd i Ofcom ei adfer.

### Newidiadau yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2019

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio<br>£'000 | Asedau<br>£'000 | Cynllun pensiwn a ariennir<br>£'000 | Pensiynau na chânt eu hariannu<br>£'000 | Cyfanswm pensiwn<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2018** | **(265,558)** | **283,727** | **18,169** | **(1,142)** | **17,027** |
| **Costau gweinyddu** | **-** | **(668)** | **(668)** | **-** | **(668)** |
| **Cost gwasanaeth** | **(675)** | **-** | **(675)** | **-** | **(675)** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(6,628)** | **7,095** | **467** | **(28)** | **439** |
| **Cyfraniadau cyflogwyr** | **-** | **553** | **553** | **-** | **553** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 11,341 | (11,341) | - | - | - |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **11,341** | **(11,341)** | **-** | **-** | **-** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2019** | **(5,675)** | **5,520** | **(155)** | **(41)** | **(196)** |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2019** | **(267,195)** | **284,886** | **17,691** | **(1,211)** | **16,480** |

### Newidiadau yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2018

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio<br>£'000 | Asedau<br>£'000 | Cynllun pensiwn a ariennir<br>£'000 | Pensiynau na chânt eu hariannu<br>£'000 | Cyfanswm pensiwn<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2017** | **(274,877)** | **291,907** | **17,030** | **(1,214)** | **15,816** |
| **Costau gweinyddu** | **-** | **(597)** | **(597)** | **-** | **(597)** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(6,730)** | **7,149** | **419** | **(29)** | **390** |
| **Cyfraniadau cyflogwyr** | **-** | **16** | **16** | **-** | **16** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 11,430 | (11,430) | - | - | - |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | - | - | - | 84 | 84 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **11,430** | **(11,430)** | **-** | **84** | **84** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd** | **4,619** | **(3,318)** | **1,301** | **17** | **1,318** |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2018** | **(265,558)** | **283,727** | **18,169** | **(1,142)** | **17,027** |

| 31 Mawrth 2019 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn a ariennir £'000 |
|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr:** | | | |
| **Cost gwasanaeth** | **(675)** | **-** | **(675)** |
| Incwm/(cost) llog | 467 | (28) | 439 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn gwariant cynhwysfawr** | **(208)** | **(28)** | **(236)** |
| Costau gweinyddu | (668) | - | (668) |
| **Incwm net/(cost) a gydnabyddir mewn gwariant cynhwysfawr** | **(876)** | **(28)** | **(904)** |

| 31 Mawrth 2019 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn a ariennir £'000 |
|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel (Gwariant)/Incwm Cynhwysfawr Arall:** | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | (12,660) | (41) | (12,701) |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | 13,128 | - | 13,128 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | (6,143) | - | (6,143) |
| **Cyfanswm enillon/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **(5,675)** | **(41)** | **(5,716)** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | 5,520 | - | 5,520 |
| **Enillion/(colledion) net** | **(155)** | **(41)** | **(196)** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

| 31 Mawrth 2018 | Pensiwn a ariennir<br><br>£'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu<br>£'000 | Cyfanswm pensiynau<br><br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr:** | | | |
| **Cost gwasanaeth** | **-** | **-** | **-** |
| Incwm/(cost) llog | 419 | (29) | 390 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn gwariant cynhwysfawr** | **419** | **(29)** | **390** |
| Costau gweinyddu | (597) | - | (597) |
| **Incwm net/(cost) a gydnabyddir mewn gwariant cynhwysfawr** | **(178)** | **(29)** | **(207)** |

| 31 Mawrth 2018 | Pensiwn a ariennir<br><br>£'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu<br>£'000 | Cyfanswm pensiynau<br><br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel (Gwariant)/Incwm Cynhwysfawr Arall:** | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 5,832 | 17 | 5,849 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | - | - | - |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | (1,213) | - | (1,213) |
| **Cyfanswm enillon/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **4,619** | **17** | **4,636** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | (3,318) | - | (3,318) |
| **Enillion/(colledion) net** | **1,301** | **17** | **1,318** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

### Dyma brif gategorïau asedau'r cynlluniau fel canran o gyfanswm asedau'r cynlluniau:

| | 31 Mawrth 2019 (%) Cyfanswm | 31 Mawrth 2018 (%) Cyfanswm |
|---|---|---|
| Ecwitïau byd-eang (ddim yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) | 2 | 4 |
| Ecwitïau byd-eang (yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) | 2 | 4 |
| Bondiau corfforaethol | 3 | 3 |
| Bondiau'r llywodraeth sy'n gysylltiedig â'r Mynegai | 4 | 4 |
| Cronfa dwf wedi'i harallgyfeirio | 4 | - |
| Portffolio buddsoddiadau a ysgogir gan rwymedigaethau | 7 | 6 |
| Blwydd-daliadau | 75 | 76 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith i leihau lefel y risg buddsoddi. Yn benodol, mae gan y ddau brif gynllun â'r buddion wedi'u diffinio bolisïau blwydd-dal sy'n dileu'r risg fwy neu lai yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r aelodau ac mae gan Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom strategaeth ar waith a fydd yn cynyddu'r hyn a ddyrennir i asedau risg is sy'n fwy cydnaws â'r rhwymedigaethau, megis giltiau a bondiau, pan ellir fforddio gwneud hynny.

### Y prif ragdybiaethau economaidd ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | 31 Mawrth 2019 (%) Cyfanswm | 31 Mawrth 2018 (%) Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | 2.35 | 2.55 |
| Chwyddiant Prisiau Adwerthu | 3.25 | 3.10 |
| - Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (RPI) | 3.25 | 3.10 |
| - Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (CPI uchafswm 3%) | 2.00 | 1.90 |

### Mae gan gynllun pensiwn Ofcom ddau gynllun ar wahân ac mae'r prif ragdybiaethau demograffig ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn:

| | y Cynllun | y Cynllun | y Cynllun ITC | y Cynllun ITC |
|---|---|---|---|---|
| Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed sy'n... | **40 oed ar hyn o bryd** | **60 oed ar hyn o bryd** | **40 oed ar hyn o bryd** | **60 oed ar hyn o bryd** |
| - Gwryw | 29 | 27 | 29 | 28 |
| - Benyw | 31 | 30 | 31 | 30 |

**Sensitifrwydd i newidiadau yn y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd:**

| Newid mewn rhagdybiaethau | Effaith ar | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | y Cynllun | | | y Cynllun ITC | | |
| | Rhwymedigaethau o ran y buddion wedi'u diffinio | Asedau | Gwarged statws ariannu | Rhwymedigaethau o ran y buddion wedi'u diffinio | Asedau | Gwarged statws ariannu |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyfradd ddisgownt** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | gostyngiad o £6,467 | gostyngiad o £6,107 | codiad o £360 | gostyngiad o £12,222 | gostyngiad o £12,221 | codiad o £1 |
| Yn gostwng 0.50% | codiad o £7,440 | codiad o £7,125 | gostyngiad o £315 | codiad o £13,648 | codiad o £13,648 | Dim newid |
| **Chwyddiant Prisiau Adwerthu** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | codiad o £7,127 | codiad o £6,550 | gostyngiad o £577 | codiad o £11,473 | codiad o £11,473 | Dim newid |
| Yn gostwng 0.50% | gostyngiad o £6,222 | gostyngiad o £5,652 | codiad o £570 | gostyngiad o £10,314 | gostyngiad o £10,313 | codiad o £1 |
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed** | | | | | | |
| Yn codi - blwyddyn | codiad o £2,713 | codiad o £740 | gostyngiad o £1,973 | codiad o £10,205 | codiad o £10,205 | Dim newid |
| Yn gostwng - blwyddyn | gostyngiad o £2,673 | gostyngiad o £728 | codiad o £1,945 | gostyngiad o £9,932 | gostyngiad o £9,932 | Dim newid |

## Proffil rhwymedigaethau cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio


Mae'r siartiau isod yn dangos y buddion y disgwylir eu talu dan y Cynlluniau perthnasol adeg y prisiad actiwaraidd mwyaf diweddar (Mawrth 2015) dros yr 80 mlynedd nesaf.

Cyfrifir y taliadau buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ar sail nifer o ragdybiaethau gan gynnwys chwyddiant yn y dyfodol, oedrannau ymddeol, yr opsiynau a ddewisir yng nghyswllt y buddion a disgwyliad oes, ac felly maent yn siŵr o fod yn ansicr.

Gall y gwir daliadau o ran y buddion mewn blwyddyn benodol fod yn uwch neu'n is, er enghraifft, os bydd aelodau'n ymddeol yn gynt neu'n hwyrach na'r hyn a ragdybiwyd, neu'n cymryd mwy neu lai o gyfandaliad arian wrth ymddeol.


**Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom**

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 20 mlynedd




**Cynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt)**

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 13 blynedd



## 20 Offerynnau ariannol

Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Mae IAS 32, Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad yn gofyn bod endid yn datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg o'i gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi gwargedion o gronfeydd. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredol beunyddiol yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth teg a gwerth llyfr y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol ar y dyddiad adrodd.

Fel y caniateir gan IAS 32, caiff symiau derbyniadwy a thaladwy sy'n aeddfedu neu sy'n dod yn daladwy cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad adrodd eu hepgor o'r asesiad hwn.

## 21 Partïon cysylltiedig

Nid yw Ofcom yn ystyried bod ei swyddogaeth reoleiddio a thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhyngddo ef ei hun a deiliaid trwyddedau, fel y caiff ei ddiffinio gan IAS 24, Datgeliadau Partïon Cysylltiedig.

Nid yw Aelodau'r Bwrdd wedi datgan bod ganddynt fuddiannau a fyddai'n dylanwadu ar eu swyddogaethau fel Aelod o Ofcom. Ni chafwyd trafodion rhwng Ofcom a'i Aelodau heblaw am daliadau a gafodd eu datgelu ar wahân yn yr adroddiad taliadau.

Ystyrir mai Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw'r partïon cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom dan delerau Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Darperir manylion yr holl refeniw grant gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Nodyn 2, 3, 10 ac 13 y datganiadau ariannol hyn.

Gweithredir cynllun pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio a dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio. Mae gan un o'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio (y ddau wedi cau i groniadau yn y dyfodol) barti cysylltiedig, S4C. Dylid cyfeirio at Nodyn 19 am ddatgeliad pellach.

Ar 31 Mawrth 2019, roedd y symiau derbyniadwy canlynol yn cael eu dal yng nghyswllt cymorth grant a oedd yn ddyledus gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Clirio a dyfarnu sbectrwm – £310k (2017/18: £3,302k symiau taladwy)

Ni chafwyd dim trafodion partïon cysylltiedig eraill yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 22 Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2019, roedd ymrwymiadau cyfalaf o £1,453k (2017/18: £4,718k) yn berthnasol i ymrwymiad cyfalaf y landlord wedi'i ariannu ar gyfer y gwaith adnewyddu ar gyfer ei eiddo ei hun.

## 23 Derbyniadau a drosglwyddwyd i'r/o'r Gronfa Gyfunol

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £8,493k (2017/18: £57,032k) o Daliadau ychwanegol yn ymwneud â'r Ddeddf Darlledu, Rhifau Daearyddol a Dirwyon i'r Gronfa Gyfunol.

Yn unol ag Adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, cadwodd Ofcom £54,305k (2017/18: £19,081k) o dderbyniadau WTA i dalu am ei wariant perthnasol sy'n cynnwys Rheoli Sbectrwm.

Cafodd ffioedd trwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr o £239,942k (2017/18: £252,253k) ac elw Arwerthiant y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr a llog banc cysylltiedig o £1,370,354k (2017/18: dim) eu rhoi i'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol.


## 24 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ar 17 Mai 2019, dyfarnodd yr Uchel Lys o blaid y Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol yn yr achos sy'n ymwneud ag adfer taliadau ffioedd trwyddedau blynyddol penodol. Rhoddodd yr Uchel Lys hawl i Ofcom apelio. O ganlyniad, mae costau ad-daliadau, llog a chostau cyfreithiol cysylltiedig wedi cael eu cynnwys fel darpariaeth yn y datganiadau ariannol hyn. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Thrysorlys EM wedi cytuno y caiff cyllid ychwanegol i ad-dalu'r ffioedd trwydded blynyddol a chostau llog cysylltiedig a oedd yn deillio o ddyfarniad yr Uchel Lys ym mis Mai 2019 eu darparu yn ôl yr angen. Cyflwynodd Ofcom apêl gyda'r llys ar 7 Mehefin 2019.

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd, bydd digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at ddyddiad awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

## 25 Busnes byw

Bydd ariannu rhwymedigaethau Ofcom yn y dyfodol yn cael ei wneud drwy dariffau sector blynyddol gan randdeiliaid sy'n cael eu rheoleiddio a drwy gadw derbyniadau WTA a gesglir drwy'r cyfrifon Adran 400 ac a gedwir gan Ofcom i dalu am weithgareddau sy'n ymwneud â sbectrwm ynghyd â gweithgareddau eraill nad ydynt yn cael eu hariannu drwy dariffau, fel y nodir yn Adran 401 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cytuno ar gap gwariant Ofcom, ac mae cymeradwyaeth ar gyfer y symiau sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn 2019/20 eisoes wedi cael ei rhoi. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Thrysorlys EM wedi cytuno y caiff cyllid ychwanegol i ad-dalu'r ffioedd trwydded blynyddol a oedd yn deillio o ddyfarniad yr Uchel Lys ym mis Mai 2019 fel y nodir yn nodyn 24 ei ddarparu yn ôl yr angen. Felly ystyriwyd ei bod hi'n briodol mabwysiadu dull busnes byw er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol hyn.



# Atodiadau

141 Byrddau, Paneli a Phwyllgorau Ofcom

144 Datganiadau rheoleiddio

148 Rhaglen ymchwiliadau

149 Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu

153 Adran 400

154 Gorfodi a pheirianneg sbectrwm

155 Trwyddedu sbectrwm

160 Cynaliadwyedd

164 Clirio 700 MHz

# Byrddau, Paneli a Phwyllgorau Ofcom

## Y Bwrdd Cynnwys

Mae rhagor o fanylion am y Bwrdd Cynnwys ar gael ar dudalen 78.

**Aelodau**

Tim Suter (Cadeirydd)

Jonathan Baker

Kevin Bakhurst[3]

Tony Close[3]

Maggie Cunningham[1]

Bob Downes

Dr Aled Eirug

Robin Foster

Angelina Fusco[1]

Sophie Morgan[1]

Stephen Nuttall[1]

Monisha Shah

Janey Walker

**Aelodau blaenorol**

Nick Pollard (cyn Gadeirydd)[2]

Zahera Harb[2]

Yr Athro Philip Schlesinger[2]

[1] Ymunodd Angelina Fusco â'r Bwrdd Cynnwys ar 01 Mehefin 2018; ymunodd Maggie Cunningham ar 01 Hydref 2018; ymunodd Sophie Morgan ar 01 Tachwedd 2018, ac ymunodd Stephen Nuttall ar 01 Rhagfyr 2018.

[2] Gadawodd Nick Pollard y Bwrdd Cynnwys ar 13 Mai 2018; gadawodd yr Athro Philip Schlesinger ar 29 Mai 2018, a gadawodd Zahera Harb ar 30 Tachwedd 2018.

[3] Mae Kevin Bakhurst a Tony Close yn aelodau gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys.

## Panel y Gronfa Radio Cymunedol

Mae Adran 359 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn caniatáu i gronfa gael ei sefydlu ar gyfer gweithredwyr radio cymunedol, a bod Ofcom yn gweinyddu'r gronfa honno gan "roi grantiau y mae'n eu hystyried sy'n briodol" i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol. Mae'r Panel yn cwrdd yn ôl y gofyn i drin a thrafod ceisiadau ac i roi cyfraniadau o'r Gronfa. Mae'n annibynnol ar y Pwyllgor Trwyddedu Darlledu, sy'n dyfarnu trwyddedau radio cymunedol.

**Aelodau**

Wendy Pilmer (Cadeirydd)

Richard Hilton

Fiona Lennox

## Pwyllgor Etholiadau

Mae Adran 333 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu cynnwys ar bob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig (Sianel 3 ranbarthol, Channel 4 a Channel 5), pob gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol, a phob gwasanaeth radio analog cenedlaethol (hy masnachol ar draws y DU), a'u gwasanaethau cyd-ddarlledu digidol (Classic FM, Talksport ac Absolute Radio AM).

Os bydd unrhyw anghydfod heb ei ddatrys rhwng unrhyw un sy'n dal trwydded ac unrhyw blaid wleidyddol ynghylch hyd, amlder, dyraniad neu amseriad darllediadau, caiff yr anghydfod hwnnw ei gyflwyno i Ofcom i'w ddatrys. Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r gwaith o ddyfarnu ynghylch unrhyw anghydfod o'r fath i'r Pwyllgor Etholiadau. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn ôl y galw ac mae'n cynnwys aelodau o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys a Phwyllgor Gwaith Ofcom.

## Aelodau Pwyllgorau Cynghori'r Gwledydd

| | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Cadeirydd | Gwag | Carrie Matchett | Liz Leonard | Hywel Wiliam |
| Aelodau Presennol | Emma Davison | John Ellison | Laura Anderson | Robert Andrews |
| | Alan Nunn | Phil Flanagan | Carmel Teusner | Andrew Board |
| | Caroline Roberts-Cherry | Kathy Graham | David Connolly | Dr Ruth McElroy |
| | Mark Smith | Alan Meban | | Peter Trott |
| | | Paul Wilson | | |
| Aelodau Blaenorol | Graham Creelman OBE | Maureen Edmondson OBE (cyn Gadeirydd) | Ian McKay | Glyn Mathias (cyn Gadeirydd) |
| | John Varney (cyn Gadeirydd) | Fiona MacMillan | John Trower | Karen Lewis |
| | | Brendan Mulgrew | | |

## Pwyllgor Gwledydd

Roedd y Pwyllgor Gwledydd yn un o Bwyllgorau uniongyrchol Bwrdd Ofcom. Roedd ei rôl yn cynnwys: deall deinameg gwleidyddol pob gwlad yn y DU a chynghori ar ymwneud Ofcom ymhob gwlad; cytuno ar brosesau priodol ar gyfer ymgysylltiad Ofcom â phob un o'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol; monitro digwyddiadau rhanddeiliaid ymhob gwlad a monitro cyfraniad ac ymgysylltiad Bwrdd Ofcom a'r Bwrdd Cynnwys ymhob gwlad. Mae ei aelodau'n cynnwys dau Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom a Chadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol.

Mae rhagor o ddatganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at newidiadau i drefn lywodraethu Ofcom. Bellach, mae'r gweinyddiaethau ym mhob gwlad yn gyfrifol, yn eu tro, am benodi aelod newydd i Fwrdd Ofcom, a hynny mewn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Bydd aelodau Bwrdd o'r gwledydd yn mynd i gyfarfodydd eu Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol perthnasol. Yng ngoleuni hyn, penderfynodd Bwrdd Ofcom, ym mis Tachwedd 2018, i ddod â'r Pwyllgor Gwledydd i ben. Bydd cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal rhwng Cadeirydd Ofcom, y Prif Weithredwr a Chadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol.

## Pwyllgorau Cynghori'r Gwledydd

Mae Adran 20 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Cynghori ar gyfer pob un o wledydd y DU. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw darparu cyngor i Ofcom am fuddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan o'r DU a wasanaethir gan y Pwyllgor, mewn perthynas â materion cyfathrebiadau a materion post.

Yn ychwanegol at aelodau penodedig y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, mae'r aelod o'r Bwrdd Cynnwys a'r aelod o Banel Defnyddwyr Cyfathrebiadau y gwledydd yn cael gwahoddiad i wylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori.

## Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau

Mae Adran 16 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom sefydlu Panel Defnyddwyr. Mae'r Panel hefyd yn darparu cyngor cadarn ac annibynnol, ond sydd hefyd yn adeiladol ac yn bragmataidd.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys arbenigwyr annibynnol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ac mae ganddynt brofiad mewn amryw o wahanol feysydd. Ceir rhagor o wybodaeth am y Panel yn www.communicationsconsumerpanel.org.uk.

## Y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn cynghori Ofcom am faterion cyffredinol a phenodol sy'n ymwneud â'r sectorau cyfathrebiadau a phost sy'n berthnasol i bobl hŷn a phobl anabl.

Er mwyn manteisio ar y synergedd rhwng y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl ac er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posibl, sefydlwyd bod aelodau'n perthyn i'r naill gorff a'r llall yn 2012. Nid yw cylchoedd gwaith y cyrff wedi newid. Mae hyn yn golygu bod aelodau'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, yn rhinwedd eu swyddogaeth ar y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, hefyd yn darparu cyngor i Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â phobl hŷn a phobl anabl gan gynnwys teledu, radio a chynnwys arall ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom yn ogystal ag ar faterion sy'n ymwneud â'r sector post.

| **Aelodau (CCP/ACOD)** |
|---|
| Kay Allen OBE[1] |
| Amanda Britain (Yr Aelod dros yr Alban) |
| Dr David Holden[1] |
| Chris Holland (Yr Aelod dros Loegr) |
| Karen Lewis (Yr Aelod dros Gymru)[1] |
| Richard Spencer[1] |
| Craig Tillotson |
| Richard Williams |
| **Aelodau blaenorol** |
| Jaya Chakrabarti MBE[2] |
| Jo Connell OBE, DL Gadeirydd tan 31 Mawrth 2019 [2] |

## Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom ar faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Bwrdd yn www.osab.org.uk.

| **Aelodau** |
|---|
| Yr Athro Linda Doyle (Cadeirydd) |
| Greg Bensberg |
| Wassim Chourbaji |
| Yr Athro Mischa Dohler |
| John Fuller (yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) (ex officio)[3] |
| David Harrison (ex officio) |
| David Meyer (cyn Gadeirydd)[3] |
| Niall Murphy |
| Peter Pitsch |
| Mike Walker[4] |
| Gavin Young |

[1] Ymunodd Karen Lewis â'r Panel ar 1 Mai 2018; ymunodd Kay Allen a Richard Spencer ar 1 Rhagfyr 2018, ac ymunodd Dr David Holden ar 1 Mawrth 2019

[2] Gadawodd Jaya Chakrabarti y Panel ar 30 Tachwedd 2018; gadawodd Jo Connell ar 31 Mawrth 2019

[3] Gadawodd John Fuller Fwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn ystod y flwyddyn. Camodd David Meyer i lawr o fod yn Gadeirydd ar 31 Mai 2018 ond arhosodd yn aelod o Fwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm.

[4] Yn drist iawn, bu Mike Walker farw ar 28 Medi 2018, roedd wedi bod yn Aelod ers tro byd.

# Datganiadau rheoleiddio

## Rhestr o'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2018/19, gan gynnwys yr effaith reoleiddio ar randdeiliaid.

**Darlledu**

| | |
|---|---|
| A | Penderfyniad Terfynol; Adolygiad Ofcom o sianel deledu arfaethedig BBC Scotland |
| B | Ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau Corfforaeth Channel 4 |
| B | Rheidrwydd ar sianeli teledu i ddarparu gwasanaethau mynediad ar gyfer teledu yn 2019 |
| B | Gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC – gofynion a chanllawiau |
| B | Gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC – gofynion a chanllawiau |
| B | Fever FM - Cais i newid ei Brif Ymrwymiadau |
| A | Hygyrchedd Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG) |
| B | Gwneud gwasanaethau ar-alw yn hygyrch |
| B | Sianel BBC Scotland newydd – Penderfyniad ynghylch amrywio Trwydded Weithredu Ofcom ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC |
| B | Absolute Radio – ceisiadau i leihau darpariaeth AM |
| B | Gorsafoedd Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Amwythig Bauer Radio - Ceisiadau i newid Fformat |
| C | Gorsafoedd Global Radio yn nwyrain Lloegr |
| C | Lleolrwydd ar radio masnachol - ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban |
| D | Trwyddedu teledu lleol - Penderfyniad i beidio â hysbysebu nac ail-hysbysebu rhai trwyddedau teledu lleol |
| B | Digwyddiadau Rhestredig - Cwpan y Byd FIFA 2018 |
| B | Cais i newid Fformat – Original 106 |
| B | Cais Love Sport i newid fformat |
| B | Digwyddiadau Rhestredig – Gemau'r Gymanwlad 2018 |
| A | 'Deunyddiau dan gyfyngiadau arbennig' a Chanllawiau Dilysu Oed ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw |

**A** Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd

**B** Cymysg/dim newid/parhaus

**C** Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio

**D** D Llai o reoleiddio

## Post

| | |
|---|---|
| B | Adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio'r post |
| B | Adolygiad o gapiau diogelu stampiau Ail Ddosbarth |

## Sbectrwm

| | |
|---|---|
| D | Adennill costau gwaith ffeilio lloerennau |
| B | Amrywiad i drwydded mynediad sbectrwm UK Broadband ar gyfer y sbectrwm 3.6 GHz |
| B | Adolygu'r sbectrwm a ddefnyddir gan wasanaethau di-wifr sefydlog |
| C | Penderfyniad i weithredu newidiadau technegol a rheoleiddiol i'r band 57 – 71 GHz |
| A | Ffioedd Trwyddedau Blynyddol ar gyfer sbectrwm 3.4 GHz a 3.6 GHz UK Broadband |
| B | Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig – clirio'r band 700 MHz |

## Telegyfathrebiadau

| | |
|---|---|
| B | Monitro cydymffurfiaeth â rheoliad Niwtraliaeth y Rhyngrwyd yr UE |
| D | Datganiad am y newidiadau i'r Amodau Hawliau Cyffredinol |
| A | Adolygiad o'r Amod Gwasanaethau Cyfradd Premiwm |
| C | Adolygu'r farchnad mynediad band eang cyfanwerthol |
| B | Adroddiad cynnydd ar wahanu Openreach a BT yn gyfreithiol |
| B | Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol - cyfarwyddiadau newydd ar adroddiadau ariannol rheoleiddiol ar gyfer KCOM |
| B | Ffeibr tywyll |
| C | Adroddiadau ariannol rheoleiddiol BT |
| B | Diwygiadau i'r Amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol mewn perthynas â'r rheolaeth gwasgu elw |
| A | Adolygiad o Ymholiadau Rhifau Ffôn (118) |
| A | Rhifau personol terfynol – Adolygiad o'r ystod rhifau 070 |
| D | Adolygu'r Amodau Hawliau Cyffredinol |

**A** Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd

**B** Cymysg/dim newid/parhaus

**C** Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio

**D** D Llai o reoleiddio

**Ymgyngoriadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2018/19 a oedd yn cynnwys asesiad o effaith a lle na chyhoeddwyd datganiad terfynol erbyn 31 Mawrth 2019**

Canllawiau ar gyfer Cyfleusterau Adnabod y Llinell sy'n Galw

Newidiadau arfaethedig i'r Cod EPG llinol a dyfodol y drefn amlygrwydd

Ymgynghoriad ar hysbysiadau diwedd contract a gorffen contract

Adolygiad o'r farchnad seilwaith ffisegol

Adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes

Darparu'r Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang

Dyfarnu'r bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz.

Galluogi cyfleoedd ar gyfer arloesi

Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol

Adolygu'r broses o ddarparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol ar gyfer y Post Brenhinol - Cam II

Hysbysiad o gynnig Ofcom i lunio rheoliadau mewn perthynas â dyfarnu'r sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz

Diwygio Codau Technegol Radio Digidol

Newidiadau Arfaethedig i'r Amodau Cyffredinol a'r Cynllun Rhifau

Cynnig i ddefnyddio Pwerau Cod gyda NATS (En Route) PLC

Hysbysiad o gynnig i lunio Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Radar Pellter Agos Modurol) (Eithriad) 2019

| **Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2018/19 lle roedd yr ymgynghoriad cynharach yn cynnwys asesiad o effaith** |
| --- |
| Adolygiad o'r Amod Gwasanaethau Cyfradd Premiwm |
| Adolygu'r farchnad mynediad band eang cyfanwerthol |
| Hygyrchedd Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG) |
| Gwneud gwasanaethau ar-alw yn hygyrch |
| Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol - cyfarwyddiadau newydd ar adroddiadau ariannol rheoleiddiol ar gyfer KCOM |
| Ffeibr tywyll |
| Adroddiadau ariannol rheoleiddiol BT |
| Penderfyniad Terfynol; Adolygiad Ofcom o sianel deledu arfaethedig BBC Scotland |
| Adennill costau gwaith ffeilio lloerennau |
| Adolygiad o Ymholiadau Rhifau Ffôn (118) |
| Absolute Radio – cynigion i leihau darpariaeth AM |
| Gorsafoedd Global Radio yn nwyrain Lloegr |
| Amrywiad i drwydded mynediad sbectrwm UK Broadband ar gyfer y sbectrwm 3.6 GHz |
| Datganiad am y newidiadau i'r Amodau Hawliau Cyffredinol |
| Rhifau personol terfynol – Adolygiad o'r ystod rhifau 070 |
| Adolygu'r sbectrwm a ddefnyddir gan wasanaethau di-wifr sefydlog |
| Adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio'r post |
| Adolygiad o gapiau diogelu stampiau Ail Ddosbarth |
| 'Deunyddiau dan gyfyngiadau arbennig' a Chanllawiau Dilysu Oed ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-Alw |
| Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig – clirio'r band 700 MHz |

# Rhaglen ymchwiliadau

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion am ymddygiad gwrth-gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae'r tabl canlynol yn dangos gweithgareddau Ofcom yn cynnal asesiadau cychwynnol ac ymchwiliadau yn ystod 2018/191. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019.

Mae rhagor o fanylion am achosion yr ymchwiliwyd iddynt o dan y rhaglen ymchwiliadau wedi'u nodi yn Mwletin Competition and Enforcement Ofcom sydd ar gael yn:

https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/bulletins/competition-bulletins

Mae'r data yn y tabl isod yn ymdrin â Thîm Ymchwiliadau'r Grŵp Cystadleuaeth a'r Tîm Gorfodi Defnyddwyr.

| Gweithgaredd | Math | Nifer | | | | Gweithgareddau parhaus (ar 31/3/2019) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm sydd wedi cael sylw | Cyfanswm sydd wedi'u derbyn i'w hymchwilio | Cyfanswm heb eu derbyn | | |
| Asesiad Cychwynnol | Anghydfodau | 0 | 0 | 0 | | 0 |
| Asesiad Cychwynnol | Cyfraith cystadleuaeth | 7 | 4 | 1 | | 4 |
| Asesiad Cychwynnol | Cwynion | 2 | 2 | 0 | | 2 |
| Asesiad Cychwynnol | Liwt ein hunain | 10 | 5 | 3 | | 2 |
| | | Cyfanswm sydd wedi cael sylw | Cyfanswm sydd wedi'u derbyn i'w hymchwilio | Cyfanswm heb eu derbyn | Cyfanswm wedi'u dirwyn i ben | |
| Anghydfodau | | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Cyfraith cystadleuaeth | | 2 | 1 | 1 | 1 | |
| Ymchwiliadau eraill | | 17 | 10 | 7 | 13 | 4 |
| Rhaglenni gorfodi eraill | | 6 | 1 | 5 | 2 | 4 |

# Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan wrandawyr a gwylwyr, a'u datrys, am raglenni radio a theledu sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gennym ni, ac S4C. Mae gennym ddyletswydd hefyd o dan Siarter a Chytundeb y BBC i osod gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion a gyfeirir atom am raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC.

Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw darlledwr yn cydymffurfio neu beidio â rheolau'r Cod Darlledu, neu godau eraill Ofcom. Yn ogystal â lansio ymchwiliadau ar ôl asesu cwynion, gallwn wneud hynny ar ein liwt ein hunain hefyd. Rydym yn delio ag ymchwiliadau yn sgîl cwynion ac ymchwiliadau a roddwyd ar waith gennym ni ein hunain dan yr un gweithdrefnau.

Mae cwynion unigol y mae Ofcom yn eu cael yn cael eu haseinio i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu mater neu raglen benodol, a gall gynnwys un gŵyn neu ragor. Caewyd cyfanswm o 6,386 achos (a oedd yn cynnwys 55,981 o gwynion) yn y cyfnod dan sylw.

## Safonau cynnwys

Mae cwynion am safonau cynnwys yn cael sylw o dan weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio. Mae cwynion am safonau cynnwys y BBC yn cael eu trin o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

## Asesiad cychwynnol o gwynion

Ar sail asesiad cychwynnol o'r gŵyn ac ar ôl ystyried y cynnwys teledu neu radio perthnasol, bydd Ofcom yn ystyried a yw amodau'r Cod Darlledu (neu godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Os na, bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach a bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad hwn yn y Bwletinau Broadcast ac On Demand.

Aseswyd 6,206 o achosion (55,801 o gwynion) yn y ffordd hon yn ystod y cyfnod adrodd. Canfu Ofcom:

- bod 132 o achosion (33,564 o gwynion) wedi codi materion sylweddol a oedd yn galw am ymchwiliad pellach; a
- bod 6,074 o achosion (22,237 o gwynion) nad oedd angen ymchwilio ymhellach iddynt neu a oedd y tu allan i gylch gwaith Ofcom.

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 9.6 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

## Ymchwiliadau

Os bydd achos yn codi materion a allai fod yn sylweddol, byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r mater i benderfynu a yw amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Gall ymchwiliad gynnwys un neu ragor o achosion cysylltiedig yn cynnwys yr un darlledwr.

Cafodd cyfanswm o 136 o achosion ymchwilio eu cwblhau rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Canfu Ofcom:

- bod 87 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi arwain at gofnodi bod amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri;
- bod 19 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi cael eu datrys; ac
- nad oedd 30 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi torri amodau'r codau neu na pharhawyd â hwy.

Anelwn at gwblhau'r achosion hynny y penderfynwn ymchwilio iddynt cyn pen 50 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, cwblhaodd Ofcom ymchwiliadau cyn pen 57.9 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Roedd llawer iawn o'r ymchwiliadau a gafodd eu cau eleni wedi cynnwys rhai materion gweithdrefnol a chyfreithiol cymhleth iawn. Yn anffodus, mae hyn wedi golygu ein bod wedi cymryd mwy o amser nag arfer i gwblhau ein hymchwiliadau.

## Tegwch a Phreifatrwydd

Mae cwynion Tegwch a Phreifatrwydd yn gwynion am driniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddynt). Bydd y cwynion hyn yn cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Mae cwynion am degwch a phreifatrwydd yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu yn eu cylch. Bydd cwynion am degwch a phreifatrwydd ar raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC yn cael eu trin o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

## Asesu a Phwyso a Mesur

Mae Ofcom yn asesu pob cwyn Tegwch a Phreifatrwydd mae'n ei chael i benderfynu a ddylid pwyso a mesur y gŵyn. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y canlynol: ai'r sawl sy'n cwyno yw'r "sawl yr effeithir arno" ac a yw'n gallu cwyno; a yw'r mater y cwynir amdano yn destun achos mewn llys barn yn y DU; neu a yw'r gŵyn yn ddisylwedd.

Cafodd cyfanswm o 180 o gwynion Tegwch a Phreifatrwydd eu hasesu yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. O'r rhain:

- cafodd 44 achos eu derbyn i'w pwyso a'u mesur; ac
- yng nghyswllt 136 o gwynion penderfynwyd peidio â'u pwyso a'u mesur neu ni fwriwyd ymlaen â hwy cyn eu pwyso a'u mesur.

Mae Ofcom yn ceisio asesu a phenderfynu a yw am bwyso a mesur cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ai peidio cyn pen 25 diwrnod gwaith o gael y gŵyn, ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 asesodd a phenderfynodd Ofcom a ddylid pwyso a mesur cwynion Tegwch a Phreifatrwydd cyn pen 17.3 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

## Dyfarniadau

Os caiff cwyn Tegwch a Phreifatrwydd ei hystyried gan Ofcom, bydd yn ymchwilio i'r mater ymhellach i benderfynu a gafodd y Cod Darlledu ei dorri. Bydd Ofcom wedyn yn gwneud ei ddyfarniad terfynol.

Dyfarnwyd ar gyfanswm o 44 o gwynion yn y cyfnod dan sylw. O'r rhain:

- roedd 20 o gwynion wedi'u cadarnhau;
- roedd 21 o gwynion heb eu cadarnhau; a
- cafodd 3 cwyn eu datrys (ar ôl i'r darlledwr gymryd camau priodol).

Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, o fewn 90 diwrnod gwaith i bwyso a mesur y gŵyn. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, cwblhaodd Ofcom y gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, cyn pen 99.2 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Mae ein tîm wedi asesu ac ymchwilio i fwy nag erioed o'r blaen o achosion Tegwch a Phreifatrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae llawer o'r rhain wedi cynnwys rhai materion gweithdrefnol a chyfreithiol cymhleth iawn. Yn anffodus, mae hyn wedi golygu ein bod wedi cymryd mwy o amser nag arfer i gwblhau ein dyfarniadau.

## Sancsiynau

Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod darlledwr wedi torri amodau'r Cod Darlledu neu un o godau eraill Ofcom, ac yn credu bod yr achos hwnnw'n ddifrifol, yn fwriadol, wedi'i ailadrodd a/neu'n ddi-hid, gall ystyried a yw am roi sancsiwn statudol i'r darlledwr.

Mae gan Ofcom amrywiaeth o sancsiynau ar gael, gan gynnwys: cyhoeddi cyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu rhaglen neu hysbyseb; cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom; rhoi cosb ariannol; cwtogi trwydded neu ei hatal; a diddymu trwydded (nid yw hyn yn berthnasol i'r BBC, S4C na Channel 4).

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, penderfynodd Ofcom roi'r sancsiynau statudol canlynol:

- Ausaf UK Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Ausaf TV – Dirymu'r drwydded
- JML Media Limited mewn perthynas â'i wasanaeth JML Direct – cosb ariannol o £7,500.
- Radio Ikhlas Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Radio Ikhlas – cosb ariannol o £10,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.

## Cwynion yng nghyswllt safonau cynnwys y BBC

Mae cwynion am raglenni'r BBC yn cael eu hystyried o dan fframwaith cwynion 'BBC yn Gyntaf'. Mae hyn yn golygu os oes gan rywun gŵyn am rywbeth maen nhw wedi'i weld neu ei glywed ar raglen deledu, radio neu ar-alw, mae'n rhaid iddyn nhw fel rheol gwyno wrth y BBC yn y lle cyntaf. Mae modd i'r sawl sy'n cwyno gyfeirio eu cwyn at Ofcom os byddant yn anfodlon ar ymateb y BBC neu os na fydd y BBC yn ymateb yn ddigon prydlon. Mae modd cyfeirio cwyn hefyd os ydy'r sawl sy'n cwyno'n credu y gallai fod yn briodol i Ofcom roi sancsiwn yn erbyn y BBC.

O'r 55,801 o gwynion am safonau a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, roedd 236 o gwynion yn ymwneud â rhaglenni'r BBC. O'r 236 o gwynion hynny, cafodd un ei chyfeirio ar gyfer ymchwiliad.

Roeddem hefyd wedi cael 1,272 o gwynion ychwanegol am raglenni'r BBC pan, yn yr asesiad cychwynnol, roeddem wedi canfod nad oedd y sawl a oedd yn cwyno wedi cwblhau proses gwyno'r BBC cyn cyflwyno eu cwyn i Ofcom. Yn yr achosion hyn roeddem wedi cyfeirio'r gŵyn yn ôl i'r BBC. Caiff y cwynion hyn eu cyhoeddi ar wahân o dan 'BBC yn Gyntaf' yn ein Bwletin Broadcast and On Demand.

### Deunydd ar-lein y BBC

O dan Siarter a Chytundeb y BBC, a osodir gan y Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig, mae'r BBC yn gyfrifol am safonau golygyddol ei ddeunydd ar-lein. Mae gan Ofcom gyfrifoldeb i ystyried a rhoi barn ynghylch a wnaeth y BBC lynu at y canllawiau golygyddol perthnasol yn y deunydd ar-lein. Mae deunydd ar-lein yn golygu cynnwys ar wefannau ac apiau'r BBC, fel erthyglau, delweddau a fideos. Nid yw'n cynnwys rhaglenni ar y BBC iPlayer sy'n gorfod cydymffurfio â rheolau Cod Darlledu Ofcom.

Rydym yn delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC o dan y Gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 roeddem wedi cau cyfanswm o 37 o gwynion am ddeunydd ar-lein y BBC. Nid oedd angen i ni gyhoeddi barn mewn perthynas ag unrhyw un o'r cwynion a gafodd eu cau yn ystod y cyfnod adrodd yma. Cafodd 152 o gwynion eraill eu cyfeirio'n ôl i'r BBC o dan 'BBC yn Gyntaf'.

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 19.0 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, rhoddodd Ofcom ei safbwynt ynghylch a oedd y BBC wedi glynu wrth ei ganllawiau golygyddol ei hun ar gynnwys un erthygl ar-lein. Ac ystyried mai dyma'r achos cyntaf i ni ddefnyddio ein Gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud â deunyddiau ar-lein y BBC, roedd angen rhagor o amser na'r arfer i ystyried y materion cymhleth a godwyd, ac roedd yr achos hefyd wedi cael ei ystyried ochr yn ochr ag achos gan yr un achwynydd am raglen radio BBC gysylltiedig o dan ein gweithdrefnau cwynion Tegwch a Phreifatrwydd. Cafodd yr achos hwn ei gau mewn 163 diwrnod gwaith.

# Adran 400

O dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau gan gynnwys ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA). Nid yw'r derbyniadau hyn yn rhan o'r refeniw sy'n cael ei gofnodi gan Ofcom ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y refeniw yn Natganiadau Ariannol Ofcom.

Roedd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cyflwyno gwelliannau deddfwriaethol sy'n caniatáu i Ofcom gadw symiau a geir mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan WTA i dalu am ei swyddogaethau cyffredinol i reoli sbectrwm, ac i dalu am gostau gwaith ei swyddogaethau eraill na chaiff godi ffioedd na thaliadau ar eu cyfer.

Mae gweddill y refeniw a gesglir yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y DU yn Nhrysorlys EM, yr Adran Cyllid a Phersonél - Gogledd Iwerddon (DFPNI) Trysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey, a Beilïaeth Guernsey, yn uniongyrchol neu drwy'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Yn ystod 2018/19 roedd Ofcom wedi cael £1,689m (2017/18: £327m). O blith y derbyniadau hyn, cafodd £54m (2017/18: £19m) ei gadw i dalu am ran o wariant Ofcom gan gynnwys dyletswyddau rheoli sbectrwm.

Talodd Ofcom £1,610m (2017/18: £252m) sy'n ymwneud â thaliad Arwerthiant WTA, ffioedd trwyddedau WTA, ffioedd sbectrwm gan adrannau'r Llywodraeth a'r llog a gafwyd ar falansau arian i'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n cael eu talu i gronfeydd cyfunol.

Ar ben hynny, roedd Ofcom wedi trosglwyddo £8m (2017/18: £57.0m) yn uniongyrchol i'r Cronfeydd Cyfunol a oedd yn ymwneud â derbyniadau a oedd yn deillio o daliadau ychwanegol, cosbau ariannol a thaliadau am rifau ffôn daearyddol.

Bydd gweddill balans yr £16m yn cael ei roi i'r Trysorlys yn 2019/20.

# Gorfodi a pheirianneg sbectrwm

## Dangosydd perfformiad allweddol

### Prif Weithgareddau

| **Gweithgarwch Rhaglen Waith/Digwyddiad** | **Ebrill 18 – Mawrth 19** | **Ebrill 17 – Mawrth 18** |
|---|---|---|
| Cwynion a gafwyd am Ymyriant[1] | 1,937 | 1,983 |
| Gwirio cydymffurfiad â thrwyddedau systemau radio[2] | 2,392 | 2,273 |
| Nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd[3] | 17 | 22 |
| Erlyniadau am weithgarwch troseddol yng nghyswllt sbectrwm[4] | 2 | 10 |

### Targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer cwynion a gafwyd am ymyriant

| **Dangosydd Perfformiad Allweddol** | **Blaenoriaeth Achos** | **Targed** | **Targed wedi'i gyflawni** | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Ebrill 18 – Mawrth 19** | **Ebrill 17 – Mawrth 18** |
| **Amser cyn yr ymweliad cyntaf:** | 1 | 8 awr | 100% | - |
| Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd ein peiriannwr yn cyrraedd ar y safle i ganfod y broblem (ar gyfer yr achosion hynny pan fydd angen ymweliad maes). | 2 | 18 awr | 100% | 100% |
| | 3 | 2 ddiwrnod gwaith | 100% | 100% |
| | 4 | 5 diwrnod gwaith | 100% | 96% |
| | 5 | 15 diwrnod gwaith | 100% | 100% |
| | 6 | Dim targed | - | - |
| **Datrysiad:** | 1 | 2 ddiwrnod calendr | 100% | - |
| Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd y cwsmer yn cael gwybod bod yr achos wedi'i ddatrys. | 2 | 3 diwrnod calendr | 99% | 100% |
| | 3 | 6 diwrnod gwaith | 99% | 98% |
| | 4 | 20 diwrnod gwaith | 99% | 96% |
| | 5 | 40 diwrnod gwaith | 98% | 97% |
| | 6 | 60 diwrnod gwaith | 99% | 97% |

[1] Achosion ymyriant a nodwyd gan y cyhoedd a busnesau

[2] Gwaith gan Ofcom i sicrhau y cydymffurfir ag amodau trwyddedau neu nad oes defnydd didrwydded yn digwydd

[3] Fel arfer rhoddir Hysbysiadau Cosb Benodedig os yw rhybudd cychwynnol gan Ofcom yn cael ei anwybyddu. Gall peidio â thalu hysbysiad cosb benodedig arwain at gymryd camau cyfreithiol

[4] Erlyniadau yng nghyswllt gorsafoedd radio anghyfreithlon neu fethiant i dalu Hysbysiadau Cosb Benodedig

# Trwyddedu sbectrwm

## Categori A

| Trwyddedau lle nad oes gofyn aseinio amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 - Mawrth 18 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 |
|---|---|---|---|---|
| Business Radio Light – Simple UK (dim gorsaf ganolog) | 2,036 | 1,931 | 14,790 | 13,799 |
| Business Radio Simple Site | 1,201 | 1,235 | 9,225 | 9,087 |
| Business Radio Suppliers Light | 231 | 337 | 1,286 | 1,162 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 65 | 65 | 403 | 414 |
| Ailadroddwr GNSS | 79 | 21 | 339 | 260 |
| Heddlu a Thân | 2 | 58 | 124 | 124 |
| **Is gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **3,614** | **3,647** | **26,167** | **24,846** |
| Medrydd Lefel Radar | 0 | 0 | 124 | 124 |
| Amatur a Morol | 27,426 | 26,515 | 258,821 | 249,723 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **31,040** | **30,162** | **285,112** | **274,693** |
| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer Categori A (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | - | - |
| DPA ar gyfer Categori A (Amatur a Morol) (100% mewn 10 diwrnod) | 100% | 100% | - | - |

# Categori B

| **Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, ond nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol** | | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 - Mawrth 18** | **Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19** | **Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18** |
|---|---|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | | 97 | 20 | 373 | 291 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | | 6 | 17 | 401 | 407 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | | 17 | 17 | 350 | 358 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | | 16 | 23 | 408 | 409 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | | 47 | 59 | 453 | 414 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | | 1 | 21 | 83 | 84 |
| Radar a Chymhorthion Llywio Morol | | 14 | 4 | 120 | 122 |
| System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol (DGPS) | | 2 | 0 | 6 | 5 |
| **Is gyfanswm ar gyfer dadreoleiddio a gosod cynnyrch dan gontract** | | **200** | **161** | **2,194** | **2,090** |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio'n Dechnegol | | **2,631** | **2,656** | **25,074** | **25,905** |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio fesul Ardal | | 28 | 34 | 301 | 293 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) wedi'i diffinio fesul Ardal | | 3 | 4 | 8 | 8 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) wedi'i diffinio fesul Ardal | | 0 | 2 | 8 | 7 |
| Radar Profi'r Tir | | 24 | 24 | 224 | 224 |
| Telemetreg Sganio | | 1 | 0 | 30 | 33 |
| Cysylltiadau hunangydlynol | | 26 | 33 | 160 | 143 |
| **Is gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | | **2,713** | **2,753** | **25,805** | **26,613** |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | | **2,913** | **2,914** | **27,999** | **28,703** |
| DPA ar gyfer Categori B | 90% mewn 21 diwrnod | 87% | 79% | - | - |
| | 100% mewn 42 diwrnod | 97% | 99% | - | - |

## Categori C

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 - Mawrth 18 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau Sefydlog | | 1,618 | 2,428 | 23,009 | 26,902 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Barhaol) | | 22 | 38 | 150 | 155 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Gludadwy) | | 78 | 103 | 116 | 109 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaearol) | | 13 | 9 | 70 | 59 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol heb fod yn sefydlog) | | 4 | 7 | 10 | 9 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | | **1,735** | **2,585** | **23,355** | **27,225** |
| DPA ar gyfer Categori C | 90% mewn 42 diwrnod | 98% | 100% | - | - |
| | 100% mewn 60 diwrnod | 99% | 100% | - | - |

## Trwyddedau awyrenegol[1]

| Trwyddedau ar gyfer gwasanaethau awyrenegol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 - Mawrth 18 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau Awyrenegol | 6,436 | 13,555 | 15,719 | 16,290 |
| Cyfanswm ar gyfer Awyrenegol | 6,436 | 13,555 | 15,719 | 16,290 |
| DPA ar gyfer Awyrenegol (100% mewn 7 niwrnod) | 82% | 83% | - | - |

## Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)

| Rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 - Mawrth 18 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau PMSE | 62,222 | 58,009 | 8,144 | 7,679 |
| **Cyfanswm ar gyfer PMSE** | **62,222** | **58,009** | **8,144** | **7,679** |
| DPA ar gyfer PMSE (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | - | - |

[1] Trwyddedau a roddwyd gan yr Awdurdod Hedfan Sifil ar ran Ofcom hyd at 31 Hydref 2018. Ar ôl y dyddiad hwnnw dyfarnwyd trwyddedau gan Ofcom.

## Trwyddedau Profi a Datblygu

| | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 - Mawrth 18 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn - 31 Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn - 31 Mawrth 18 |
|---|---|---|---|---|
| Trwydded Ymchwil ac Arloesi | 426 | 339 | 354 | 311 |
| Trwydded Treialu ac Arddangos | 345 | 362 | 130 | 142 |
| **Cyfanswm ar gyfer Profi a Datblygu** | **771** | **701** | **484** | **453** |
| DPA ar gyfer Profi a Datblygu (100% mewn 60 diwrnod) | 100% | 100% | - | - |

## Trwyddedau band eang di-wifr a symudol[1]

| Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant o'r sbectrwm neu drwy ddyfarnu'r sbectrwm | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 - Mawrth 18 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn - 31 Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn - 31 Mawrth 18 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus: 900, 1800 MHz | 1[2] | 0 | 5 | 4 |
| Mynediad i Sbectrwm: 2100 MHz | 0 | 0 | 4 | 4 |
| Mynediad i Sbectrwm: Twnnel y Sianel1 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Mynediad i Sbectrwm: 800 MHz, 2.6 GHz[3] | 0 | 0 | 5 | 5 |
| Mynediad i Sbectrwm: 412 – 414 MHz | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1452 – 1492 MHz | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Mynediad Cydamserol i Sbectrwm: 1781-1785 MHz | 0 | 0 | 12 | 12 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1785 MHz, Gogledd Iwerddon | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 3.5, 3.6, 10, 28, 32, 40 GHz | 5[4] | 0 | 25 | 20 |
| Mynediad i Sbectrwm ar y Môr | 0 | 1 | 7 | 7 |
| **Cyfanswm ar gyfer Band Eang Di-wifr a Symudol** | **6** | **1** | **64** | **58** |

[1] Nid yw ffigurau'r trwyddedau a amrywiwyd a/neu a ailgyhoeddwyd, neu a fasnachwyd yn llawn o un cwmni i'r llall, wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn.

[2] Sbectrwm wedi'i fasnachu a oedd yn cael ei ddal ar y cyd gan Vodafone a Telefonica yn ystod y cyfnod pontio er mwyn dad-ddarnio sbectrwm.

[3] Trwydded ar wahân ar gyfer y twnnel i gyfeiriad Ffrainc o'r DU

[4] Dyfarnu bandiau sbectrwm 2.3 a 3.4 GHz, Ebrill 2018..

## Trwyddedau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

| Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 - Mawrth 18 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn - 31 Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn - 31 Mawrth 18 |
|---|---|---|---|---|
| Ffonau Symudol 3G, Ynysoedd y Sianel | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Rhwydwaith Di-wifr Cyhoeddus: 800, 900, 1800, 2100, 2600 MHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | 0 | 0 | 32 | 32 |
| Mynediad Di-wifr / Sbectrwm: 3.4, 3.6, 10, 28 GHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | 0 | 0 | 9 | 9 |
| Y cyfanswm ar gyfer Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel | **0** | **0** | **42** | **42** |

## Trwyddedau Sbectrwm y Difidend Digidol

Y sbectrwm a ryddhawyd i'w ddefnyddio mewn ffyrdd newydd yn sgîl y newid i'r digidol

| Trwyddedau DDR GI a roddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 18 - Mawrth 19 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 - Mawrth 18 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn - 31 Mawrth 19 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn - 31 Mawrth 18 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad Sbectrwm 541 – 550 MHz (Caerdydd) | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 758 – 766 MHz (Manceinion) | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Trwyddedau DDR GI a roddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm | 0 | 0 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm nifer y trwyddedau - Pob categori** | **105,076** | **107,927** | **360,468** | **355,145** |


# Cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn rhoi data am gynaliadwyedd a'r costau ariannol yn fanylach.

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| | | | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli CO2e)** | **Cwmpas 1** | Nwy | 135 | 158 | 161 | 187 | 148 |
| | | Olew | 14 | 18 | 19 | 22 | 11 |
| | | Tanwydd Fflyd | 200 | 180 | 185 | 192 | 168 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | 1,299 | 1,214 | 1,090 | 809 | 751 |
| | **Cwmpas 3** | Teithio Busnes | 290 | 250 | 312 | 519 | 555 |
| | | *Awyr* | *182* | *144* | *188* | *410* | *449* |
| | | *Domestig* | *63* | *47* | *76* | *156* | *160* |
| | | *Teithiau byr* | *71* | *30* | *79* | *164* | *160* |
| | | *Teithiau hir* | *48* | *67* | *34* | *91* | *129* |
| | | *Rheilffordd/bws/ tanddaearol* | *59* | *59* | *78* | *66* | *67* |
| | | *Car/beic modur/beic* | *46* | *44* | *43* | *41* | *36* |
| | | *Tacsis* | *3* | *3* | *3* | *2* | *2* |
| **Data defnydd cysylltiedig** | **Cwmpas 1** | Nwy (kWh) | 730,047 | 855,056 | 874,478 | 1,014,202 | 802,709 |
| | | Nwy fesul FTE (kWh) | 932 | 1,070 | 1,012 | 1,136 | 891 |
| | | Olew (litrau) | 5,697 | 7,001 | 7,500 | 8,500 | 4,501 |
| | | Tanwydd fflyd (litrau) | 76,898 | 69,596 | 71,024 | 73,659 | 64,710 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan (kWh) | 2,416,678 | 2,425,743 | 2,426,666 | 2,103,652 | 1,720,333 |
| | | Trydan fesul FTE (kWh) | 3,086 | 3,036 | 2,808 | 2,356 | 1,910 |
| **Dangosyddion ariannol** | **Cwmpas 1** | Nwy (kWh) | £34,677 | £27,786 | £22,293 | £19,465 | £23,494 |
| | | Olew | £3,500 | £3,504 | £2,128 | £5,530 | £3,347 |
| | | Tanwydd fflyd | £102,026 | £78,996 | £87,398 | £93,911 | £90,292 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | £334,932 | £334,677 | £293,991 | £340,333 | £287,074 |
| | **Cwmpas 3** | Teithio Busnes | £596,116 | £569,099 | £663,705 | £705,602 | £724,876 |
| | | *Awyr* | *£257,364* | *£197,408* | *£253,733* | *£333,723* | *£367,844* |
| | | *Rheilffordd/bws/ tanddaearol* | *£227,260* | *£264,211* | *£299,929* | *£266,725* | *£273,338* |
| | | *Car/beic modur/beic* | *£66,876* | *£67,721* | *£65,077* | *£64,329* | *£57,428* |
| | | *Tacsis* | *£44,615* | *£39,759* | *£44,966* | *£40,826* | *£44,266* |

### Cwmpas





Mae hyn yn berthnasol i ddefnyddio nwy ac olew yn uniongyrchol, a defnyddio tanwydd yng ngheir fflyd Ofcom.

Mae’r data am y defnydd o nwy ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Belfast, Birmingham, Haydock (a wnaeth gau yn 2018) a Livingston (a wnaeth gau yn 2017). Caiff costau nwy ar gyfer swyddfeydd Caeredin, Warrington a Chaerdydd eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Mae’r defnydd o nwy yn dibynnu ar y tywydd.

Mae’r data am y defnydd o olew yn berthnasol i swyddfa Ofcom yn Baldock yn unig.


Bydd Ofcom yn talu am danwydd diesel ar gyfer ei geir fflyd drwy ddefnyddio cardiau tanwydd, a chaiff y defnydd ei gofnodi a’i fonitro bob mis. Mae defnydd o danwydd yn ein ceir fflyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw am ein gwasanaethau gorfodi.

### Cwmpas




Mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau trydan i swyddfeydd Ofcom. Mae’r data trydan ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Belfast, Birmingham, Caerdydd, Caeredin, Haydock (a wnaeth gau yn 2018), Warrintgon a rhai safleoedd monitro a chanfod cyfeiriad o bell ledled y DU. Mae’r defnydd o drydan yn dibynnu ar y tywydd.

### Cwmpas




Mae data ariannol am deithiau busnes wedi dod o’n system cofnodi SAP ac mae’n cynnwys teithio gan bob cydweithiwr ni waeth ble maent wedi’u lleoli. Rydym wedi trosi data ariannol teithiau mewn tacsis ac ar drenau i bellteroedd drwy ddefnyddio canllawiau o Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a data ariannol teithiau mewn ceir i bellteroedd drwy ddefnyddio data o hawliadau treuliau ar gyfer milltiroedd a deithir. Mae’r data am hedfan wedi dod yn uniongyrchol gan ein darparwr teithiau busnes, ac wedi’i gategoreiddio i deithiau domestig, teithiau byr a theithiau hir yn unol â chanllawiau pellter hedfan Defra.

## Lleihau a rheoli gwastraff

Mae'r data am y defnydd o wastraff ar hyd y blynyddoedd yn ymwneud â phrif swyddfa Ofcom yn Llundain. Nid oes data cywir am y defnydd o wastraff ar gael ar gyfer swyddfeydd eraill Ofcom, ond mae'r costau sy'n gysylltiedig â chael gwared â gwastraff wedi'u cynnwys. O fis Mehefin 2017, mae cost gwastraff wedi'i gynnwys yn ein tâl gwasanaeth. Mae ein hasiant rheoli'n gweithredu ar sail 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi', ac mae'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi gan adfer ynni.

| | | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | Cyfanswm gwastraff | 166 | 173 | 172 | 76 | 198 |
| | *Gwastraff wedi'i anfon i safle tirlenwi* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* |
| | *Gwastraff ICT wedi'i ailgylchu/ailddefnyddio* | *4* | *7* | *4* | *0* | *0* |
| | *Gwastraff wedi'i ailgylchu/ailddefnyddio* | *94* | *111* | *91* | *52* | *71* |
| | *Gwastraff wedi'i gompostio* | *14* | *13* | *14* | *4* | *4* |
| | *Gwastraff wedi'i losgi gan adfer ynni* | *53* | *41* | *63* | *20* | *20* |
| | *Gwastraff wedi'i losgi heb adfer ynni* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* |
| | Cyfanswm gwastraff fesul FTE | 0.212 | 0.216 | 0.199 | 0.086 | 0.220 |
| **Dangosyddion ariannol** | Cyfanswm gwastraff | £45,500 | £32,023 | £37,984 | £7,004 | £43,805 |

## Defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae'r data dŵr ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Birmingham a Haydock (a wnaeth gau yn 2018). Caiff costau dŵr ar gyfer swyddfeydd eraill eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Mae'r costau yn 2017/18 yn cynnwys nodiadau credyd gan gyflenwyr oherwydd biliau a oedd wedi codi gormod yn ystod blynyddoedd blaenorol. Caiff defnydd o ddŵr ei gyfyngu i ddefnydd gweithredol, gan gynnwys cyfleuster arlwyo ym mhrif swyddfa Ofcom yn Llundain.

| | | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | Defnydd dŵr (m3) | 14,213 | 10,767 | 11,282 | 9,379 | 13,988 |
| | *Defnydd dŵr fesul FTE* | 18.15 | 13.48 | 13.06 | 10.50 | 15.53 |
| | *Rimau papur* | 5,993 | 7,545 | 6,317 | 3,915 | 2,579 |
| | *Rimau A3* | 103 | 80 | 92 | 50 | 127 |
| | *Rimau A4* | 5,890 | 7,465 | 6,225 | 3,865 | 2,452 |
| | *Rimau A5* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Dangosyddion ariannol** | Dŵr | £24,931 | £16,784 | £22,248 | £6,929 | £19,583 |

1. Mae'r tablau uchod wedi cael eu paratoi yn unol â chanllawiau a osodwyd gan y Trysorlys: https://www.gov.uk/government/publications/public-sector-annual-reports-sustainability-reporting-guidance-2017-to-2018
2. Mae'r holl wybodaeth yn cydymffurfio â blwyddyn ariannol arferol y sector cyhoeddus, sef 1 Ebrill–31 Mawrth.
3. Mae ffactorau trosi Defra wedi cael eu defnyddio i gyfrifo ffigurau allyriadau carbon.
4. Ni chaiff allyriadau eu cywiro yn ôl y tywydd.
5. Pan nad oedd biliau cyfleustodau wedi cyrraedd eto, roedd y data ar gostau a defnydd wedi cael eu hamcangyfrif ar sail data'r blynyddoedd

# Clirio 700 MHz

## Pam ydym ni'n clirio'r band 700 MHz?

Mae defnyddwyr yn defnyddio mwy a mwy o ddata symudol. Er mwyn helpu i fodloni'r galw, cyhoeddodd Ofcom yn 2014 ei fod wedi penderfynu adleoli amleddau rhwng 694 MHz a 790 MHz ("y band 700 MHz"). Ar hyn o bryd mae'r band yn cael ei ddefnyddio gan Deledu Daearol Digidol (DTT), gwasanaethau Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE) a Dyfeisiau Gofod Gwyn (WSDs).

## Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae'r rhaglen ar gyfer clirio'r band 700 MHz yn golygu newidiadau mawr i'r rhwydwaith teledu daearol digidol wrth i sianelau symud i amleddau newydd. Mae hyn yn cynnwys gwaith seilwaith mawr gan Arqiva, a hynny yn yr awyr ac ar y tir. Mae'r gwaith o glirio'r band 700 MHz hefyd yn effeithio ar ddefnyddwyr PMSE, oherwydd bydd angen iddynt adnewyddu rhywfaint o'u cyfarpar. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys cyllid gan y llywodraeth i helpu perchnogion offer y mae hyn yn effeithio arnynt. Fe wnaethom benodi Equiniti Ltd i weinyddu'r cynllun ariannu yn 2018.

### Beth yw nodau'r rhaglen?

Dyma'r amcanion:

- clirio a rhyddhau'r band 700MHz cyn gynted ag sy'n bosibl yn ymarferol;
- darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus;
- osgoi amharu ar wylwyr; a
- diogelu parhau i ddarparu manteision DTT a PMSE.

## Sut mae hyn yn effeithio ar ddinasyddion ac ar ddefnyddwyr?

Bydd angen i rai gwylwyr teledu daearol digidol wneud newidiadau i'w setiau teledu. Mae'r amcangyfrifon cynnar yn awgrymu y bydd angen i 14-20 miliwn o gartrefi ail-diwnio eu hoffer teledu pan fydd newidiadau i amledd yn digwydd yn eu hardal. Efallai y bydd angen i 100,000 - 160,000 o gartrefi newid eu herial hefyd, yn ôl yr amcangyfrifon.

Bydd hysbysebion yn y wasg a chapsiynau ar y sgrin cyn pob achos o glirio yn hysbysu'r gwylwyr teledu y bydd hyn yn effeithio arnynt am yr angen i ail-diwnio eu setiau teledu ar ddyddiad penodol. Mewn rhai achosion, bydd angen ail-diwnio mwy nag unwaith pan fydd y clirio'n digwydd ar sawl cam. Mae cymorth ar gael gan Freeview ar ei wefan a'i linell gyngor.

### Beth yw'r amserlen?

Dechreuodd y gwaith o glirio'r band 700MHz yn yr Alban yn 2017. Fodd bynnag, dechreuodd y cam dwysaf ar draws y DU yn 2018. Mae'r rhaglen clirio ar y trywydd iawn i gael ei chwblhau ym mis Ebrill 2020.

## Cynllun Grantiau Ofcom

Er mwyn gallu clirio'r band 700 MHz, mae Ofcom yn darparu grantiau i newid seilwaith DTT o dan fframwaith cydsyniad sefydlog y cytunwyd arno gyda Thrysorlys EM.

Mae proses ymgeisio am grant sydd wedi'i diffinio y mae pob parti wedi cytuno arni ac yn ei dilyn. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19, cafwyd 53 cais am grant, dyfarnwyd 46 grant yn llawn neu'n rhannol, ac roedd cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd yn £69.7m. Cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd hyd yma ar y rhaglen yw £260.6m. Y cyfanswm a dalwyd yn y flwyddyn ariannol 2018/19 yw £70.7m, sy'n cynnwys grantiau am waith sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn ariannol.

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**


Ofcom

Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Switsfwrdd:
+44 (0)300 123 3000 neu
+44 (0)20 7981 3000

Ffôn testun:
+44 (0)20 7981 3043

Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom:
+44 (0)300 123 3333 neu
+44 (0)20 7981 3040

ofcom.org.uk

Yr Alban:
125 Princes Street
Caeredin EH2 4AD
Ffôn: 0131 220 7300

Cymru:
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ
Ffôn: 029 2046 7200

Gogledd Iwerddon:
Landmark House
The Gasworks
Ormeau Road,
Belfast BT7 2JD
Ffôn: 028 9041 7500
Ffacs: 028 9041 7533



Ofcom ARA 2018-2019
ISBN 978-1-5286-1216-6
CCS0419980080